



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 13 Hydref 1999

Wednesday 13 October 1999

Cynnwys Contents

3	Datganiad gan y Llywydd <i>Statement by the Presiding Officer</i>
3	Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol <i>Questions to the Secretary for the Environment and Local Government</i>
12	Cwestiwn Brys: Trefniadau Cludiant Ysgol <i>Urgent Question: School Transport Arrangements</i>
17	Tybaco <i>Tobacco</i>
56	Entrepreneuriaeth—Gwasanethau Cymorth i Fusnesau <i>Entrepreneurship—Business Support Services</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod cynnig o gerydd wedi ei gyflwyno yn dilyn y ddadl ddoe ar y cynllun cymorth prosesu lloi, yn ceryddu'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yr wyf wedi penderfynu na fyddai'n briodol nac yn ddymunol cynnal y ddadl honno brynhawn heddiw. Mae'n bosibl y bydd Aelodau am gynnig gwelliannau ac fe ddylid caniatáu cyfnod i wneud hynny. Mae hefyd yn briodol i Aelodau gael amser i fyfyrio ynglŷn â'r cynnig hwn. Dyma'r ail dro o fewn mis i gynnig o gerydd gael ei gyflwyno yn y Cynulliad. Mae unrhyw gynnig o gerydd a gyflwynir os ydyw mewn trefn yn gorfod cael ei dderbyn gennyf i. Fodd bynnag, gofynnaf i Aelodau o'r Cynulliad sydd yn ystyried cyflwyno cynigion o'r math hwn i feddwl a yw hyn yn ddefnydd priodol o weithdrefnau'r Cynulliad. Fe ofynnaf i'r Trefnydd sicrhau amser i drafod y cynnig o gerydd ddydd Mawrth nesaf yn syth ar ôl y cwestiynau llafar.

The Presiding Officer: Members will be aware that a motion was tabled following yesterday's debate on the calf processing aid scheme, censuring the Secretary for Agriculture and Rural Development. I have decided that it would not be appropriate or desirable to hold that debate this afternoon. Members may wish to table amendments, and a period should be allowed for that. It is also appropriate for Members to have time to reflect on this amendment. This is the second time in a month that a censure motion has been tabled in the Assembly. Any motion tabled, if in order, has to be accepted by myself. However, I ask Assembly Members who are considering tabling motions of this kind to think whether or not this is appropriate use of Assembly procedures. I shall invite the Business Secretary to secure time for a debate on the censure motion next Tuesday following immediately after the oral questions.

Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

Clustogfa o Amgylch Safleoedd Glo Brig
Buffer Zone around Open-cast Mining Sites

Q1 Kirsty Williams: Will Peter Law declare whether it is his policy or whether he intends to make it his policy to introduce a buffer zone of 500 metres around open-cast mining sites as in Scotland? (OAQ1399VB)

C1 Kirsty Williams: A wnaiff Peter Law ddatgan a yw'n bolisi ganddo neu a yw'n bwriadu cyflwyno polisi fel bod yn rhaid cael clustogfa o 500 metr o amgylch safleoedd cloddio glo brig fel yn yr Alban? (OAQ1399VB)

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): Consideration is being given to new mineral planning guidance for coal mining which reflects circumstances in Wales and offers clear guidance for communities, local authorities and the industry. The new guidance was issued in March in Scotland and included buffer zones, while the guidance in

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ganllawiau cynllunio mwynau newydd ar gyfer cloddio glo sydd yn adlewyrchu amgylchiadau yng Nghymru ac yn cynnig arweiniad clir i gymunedau, awdurdodau lleol a'r diwydiant. Cyhoeddwyd y canllawiau newydd ym mis Mawrth yn yr Alban ac yr oeddent yn

England did not. The guidance we issue must be appropriate to the circumstances and the needs of Wales, and I intend to make an announcement shortly.

Kirsty Williams: Are you aware that research statistical associates living near open-cast sites with hospital admissions for primary respiratory diseases? Are you also aware that research studies associate asthma in children with high levels of diesel emission particles and that the giant earth-moving machines and vehicles used at open-cast sites are not subject to the emission regulations which apply to on-road vehicles? The public, therefore, needs this 500 metre protection zone.

Peter Law: It is a matter of opinion which needs to be taken into account. Consultation is being carried out and we are looking at the health aspect and how these types of developments affect communities, balancing economy with environment. Health is always very important. The Cabinet is aware of the need to provide clear up-to-date guidance for the public, local government and the industry as soon as possible. It applies not only to coal mining but to minerals in general.

Rhodri Glyn Thomas: A fydddech yn cytuno ei bod yn rhan o gyfrifoldeb statudol y Cynulliad i asesu gwerth unrhyw weithgaredd economaidd o bersbectif datblygiad cynaliadwy, cynnal yr amgylchedd ac adfywio gweithgaredd cymdeithasol? Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y diwydiant glo brig. Yr ydym yn ymwybodol o werth economaidd y diwydiant hwnnw sydd yn gyfrifol am unrhan o dair o gynnyrch glo y Deyrnas Unedig ac sydd hefyd yn darparu swyddi mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o ddiweithdra. Amlinellodd Kirsty y problemau amgylcheddol sydd yn gallu codi gyda'r math hwn o ddatblygiad. A fydd Peter hefyd yn manteisio ar y cyfle i longyfarch Glofa'r Tŵr ar eu menter newydd o ailgylchu nwy o fewn y lofa?

cynnwys clustogfeydd, yn wahanol i'r canllawiau yn Lloegr. Rhaid i'r canllawiau a gyhoeddwn ni fod yn briodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru, a bwriadaf wneud cyhoeddiad cyn bo hir.

Kirsty Williams: A ydych chi'n ymwybodol bod ymchwil ystadegol yn cysylltu byw'n agos at safleoedd glo brig â mynediadau i'r ysbyty oherwydd afiechydon anadlol cynradd? Ydych chi hefyd yn ymwybodol bod astudiaethau ymchwil yn cysylltu asthma mewn plant â lefelau uchel o ollyngiad gronynnau disel ac nad yw'r peiriannau symud pridd anferthol a'r cerbydau a ddefnyddir ar safleoedd glo brig yn gorfod ufuddhau i'r rheoliadau gollyngiad sydd yn berthnasol i gerbydau ar y ffyrdd? Felly, mae angen y glustogfa 500 metr hon ar y cyhoedd.

Peter Law: Mae hyn yn fater o farn sydd angen ei hystyried. Mae ymgynghori ar droed ac yr ydym yn edrych ar yr agwedd iechyd a sut y mae'r mathau hyn o ddatblygiad yn effeithio ar gymunedau, gan geisio sicrhau cydbwysedd rhwng economi ac amgylchedd. Mae iechyd yn bwysig iawn bob amser. Mae'r Cabinet yn ymwybodol o'r angen i ddarparu canllawiau clir a chyfoes i'r cyhoedd, llywodraeth leol a'r diwydiant cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn wir nid yn unig am gloddio glo ond am fwynau yn gyffredinol.

Rhodri Glyn Thomas: Would you agree that it is part of the statutory responsibility of the Assembly to assess the value of any economic activity from the perspective of sustainable development, protecting the environment and regenerating social activity? This is particularly important in the case of the open cast mining industry. We are aware of the economic value of that industry which accounts for one third of the United Kingdom's coal industry and which provides jobs in areas with high levels of unemployment. Kirsty outlined the environmental problems that can arise from this kind of development. Will Peter also take advantage of the opportunity to congratulate Tower Colliery on its new venture of recycling gas within the colliery?

Peter Law: I am always pleased to congratulate Tower Colliery on their excellent schemes. We are all proud.

We must get the balance right between the economy and the environment. We must bear all the issues in mind when dealing with these matters and with the guidance in general. I will do so and will be grateful for input. I will make an appropriate announcement in the future to increase Members' awareness.

Glyn Davies: The jobs provided by open-cast mining are important. However, do you accept that the environmental impact of jobs in open-cast mining can often have a negative impact on job creation nearby or in the same community? When I was involved in job creation, I saw examples of businesses deciding not to move to an area close to an open-cast site because of its negative impact.

Peter Law: That is one of many factors to take into account with this development. Planning authorities must be aware of those factors and I certainly am. I hope that the guidance I issue will help to recognise such areas.

Gwenda Thomas: I attended recent meetings in Brynhenllys open-cast site with Kirsty Williams and Rhodri Glyn Thomas. Are you aware that they complimented the site? Kirsty's words were 'There is as much noise in the farm-place as there is here', and Rhodri Glyn complimented the way the operations were carried out there. Should we expect the Welsh nationalists to be as committed in protecting coal industry jobs as they are in protecting farming industry jobs when their election manifesto clearly calls for a reduced role for coal in our economy?

Peter Law: Thank you for bringing that to my attention. I was unaware of it but you have outlined an important consideration.

The Presiding Officer: Question 2 from Janet Ryder has been withdrawn.

Peter Law: Yr wyf bob amser yn falch o longyfarch Glofa'r Tŵr ar eu cynlluniau gwyh. Yr ydym i gyd yn falch.

Rhaid inni sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng yr economi a'r amgylchedd. Rhaid inni ystyried yr holl faterion wrth ddelio â'r materion hyn ac â'r canllawiau yn gyffredinol. Gwnaf hynny a byddaf yn ddiolchgar am unrhyw fewnbwn. Gwnaf gyhoeddiad priodol yn y dyfodol i gynyddu ymwybyddiaeth yr Aelodau.

Glyn Davies: Mae'r swyddi a ddarperir gan gloddio glo brig yn bwysig. Fodd bynnag, a ydych chi'n derbyn y gall effaith amgylcheddol swyddi mewn gwaith brig gael effaith negyddol ar greu swyddi yn y cyffiniau neu yn yr un fro? Pan oeddwn yn ymwneud â chreu gwaith, gwelais enghreifftiau o fusnesau yn penderfynu peidio â symud i ardal agos at safle cloddio brig oherwydd ei effaith negyddol.

Peter Law: Dyna un o'r nifer o ffactorau i'w hystyried gyda'r datblygiad hwn. Rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol o'r ffactorau hyn ac yn sicr yr wyf i yn ymwybodol ohonynt. Gobeithiaf y bydd y canllawiau a gyhoeddaf yn help i adnabod ardaloedd o'r fath.

Gwenda Thomas: Bûm mewn cyfarfodydd diweddar ar safle glo brig Brynhenllys gyda Kirsty Williams a Rhodri Glyn Thomas. A ydych yn ymwybodol eu bod hwy wedi canmol y safle? Geiriau Kirsty oedd 'Mae cymaint o sŵn ar y fferm ag sydd yma', ac yr oedd Rhodri Glyn yn llawn clod i'r ffordd y cyflawnid y gwaith yno. A ddylem ddisgwyl i'r cenedlaetholwyr fod mor ymroddgar wrth warchod swyddi yn y diwydiant glo ag y maent wrth warchod swyddi yn y diwydiant ffermio pan fo'u manifesto etholiadol yn galw'n glir am rôl lai i lo yn ein heconomi?

Peter Law: Diolch i chi am ddod â hynny i'm sylw. Nid oeddwn yn ymwybodol ohono ond yr ydych wedi amlinellu ystyriaeth bwysig.

Y Llywydd: Mae Cwestiwn 2 gan Janet Ryder wedi ei dynnu'n ôl.

Cyllid ar gyfer Cynlluniau i Atal Llifogydd Funding for Flood Defence Schemes

Q3 David Davies: What assessment has Peter Law made of the level of funding available for flood defence schemes across Wales? (OAQ1395VB)

Peter Law: Funding available for flood defence schemes across Wales was one of the matters I discussed with Mr John Hughes, Chairman of the Regional Flood Defence Committee, on 20 September. When I spoke to the flood defence committees on 8 October, I pointed out the need for local authority members to ensure that the Environment Agency received adequate funding through flood defence levies.

David Davies: I do not doubt your concern. However, the funding level appears to be remaining static or increasing only with inflation. That was a great source of concern to Local Government and Environment Committee members on 22 September. Do you still share that concern about overall funding levels and will you take steps to ensure that more funding is put into flood defence? If you will not, there is a strong risk of severe flooding in certain areas.

Peter Law: I and the Assembly are concerned to ensure that we reduce that risk as much as possible. For that purpose, £5.5 million is available this year for operating authorities in direct rank and supplementary credit approvals towards the cost of flood and coastal defence schemes. Additional support is provided through a revenue support grant to local authorities. Basic credit approval levels of grant and credit approval for 2000-2001 will be decided by the Assembly. I recently issued a consultation paper seeking views on the present funding arrangements and suggestions for their improvement. That is open until 30 November and I look forward to hearing from you.

C3 David Davies: Pa asesiad a wnaed gan Peter Law o lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau i atal llifogydd ar draws Cymru? (OAQ1395VB)

Peter Law: Yr oedd y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau i atal llifogydd ar draws Cymru yn un o'r materion a drafodais gyda Mr John Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Atal Llifogydd Rhanbarthol, ar 20 Medi. Pan siaradais â'r pwyllgorau atal llifogydd ar 8 Hydref, nodais yr angen i aelodau awdurdodau lleol sicrhau bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael cyllid digonol drwy drethi atal llifogydd.

David Davies: Nid wyf yn amau'ch pryder. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod lefel y cyllid yn aros yn ei hunfan neu ddim ond yn cynyddu gyda chwyddiant. Yr oedd hynny'n destun pryder mawr i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd ar 22 Medi. A ydych chi'n dal i rannu'r pryder hwnnw ynghylch lefelau cyllid cyffredinol ac a wnewch chi gymryd camau i sicrhau y rhoddir mwy o gyllid i atal llifogydd? Os na wnewch, mae perygl cryf o lifogydd difrifol mewn rhai ardaloedd.

Peter Law: Yr wyf i a'r Cynulliad yn awyddus i sicrhau ein bod yn lleihau'r perygl hwnnw gymaint ag y gallwn. I'r pwrpas hwnnw, mae £5.5 miliwn ar gael eleni i awdurdodau gweithredol mewn cymeradwyaethau credyd gradd uniongyrchol ac ategol tuag at gost cynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Darperir cefnogaeth ychwanegol drwy grant cynnal refeniw i awdurdodau lleol. Y Cynulliad fydd yn penderfynu ar lefelau cymeradwyo credyd sylfaenol ar gyfer cymeradwyo grantiau a chredyd am 2000-2001. Yn ddiweddar cyhoeddais bapur ymgynghorol yn ceisio barn ar y trefniadau cyllido presennol ac awgrymiadau ar gyfer eu gwella. Mae hynny'n agored tan 30 Tachwedd ac edrychaf ymlaen at glywed gennych.

2:09 p.m.

Ieuan Wyn Jones: A dderbyniodd Peter adroddiad ar y llifogydd diweddar yng Nghorwen? Nid oes gennyf ddiddordeb etholaethol yng Nghorwen ond bûm yn byw yno am nifer o flynyddoedd, felly mae fy mhryder yn fawr am drigolion y cylch. A yw wedi cael adroddiad ar y llifogydd yng Nghorwen ac a yw'n gweld unrhyw fodd y gall y Cynulliad gynorthwyo'r awdurdodau lleol a'r Awdurdod Afonydd i sicrhau nad yw hynny'n digwydd byth eto?

Peter Law: We are here to make sure that the Environment Agency works with the national drainage and flood defence committees to look after those communities. Local authorities have an important part to play and need to be seen to be making a positive contribution. I have no information before me about the flooding at Corwen but I shall take up this matter with the Environment Agency after this meeting and will be pleased to write to you about it.

Peter Black: Will you consider, as part of the review of planning policy guidance, including a presumption against development on flood plains so as to minimise future flooding in these areas?

Peter Law: I am prepared to consider that. We need to take that into account and I have noted your point. It is not the first time you have made that point to me.

Huw Lewis: Will you also reflect, in terms of flood defences, on another environmental problem, particularly in coal mining areas where potential development land is often low-lying. I am thinking ahead to the use of Objective 1 funding. To develop a piece of land with European funding in mind may be well-nigh useless in the future if that land is also under threat from regular flooding.

Peter Law: Forewarned is forearmed and we need as much input as possible into this. I am grateful to you for raising the matter. I will look into it and if you have any specific examples of concern that you would like to

Ieuan Wyn Jones: Has Peter received a report on the recent flooding at Corwen? I have no constituency interest in Corwen but I lived there for a number of years, therefore my concern is great for the residents of the area. Has he received a report on the floods at Corwen and does he see any way in which the Assembly could assist the local authorities and the Rivers Authority to ensure that it never reoccurs?

Peter Law: Yr ydym yma i wneud yn siŵr fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda'r pwyllgorau draenio tir ac atal llifogydd cenedlaethol i warchod y cymunedau hynny. Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae ac mae angen eu gweld yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth o'm blaen am y llifogydd yng Nghorwen ond fe godaf y mater hwn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar ôl y cyfarfod hwn a byddaf yn falch o ysgrifennu atoch ynglŷn ag ef.

Peter Black: A wnewch chi ystyried, fel rhan o'r adolygiad o ganllawiau polisi cynllunio, gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn datblygu ar orlifdiroedd er mwyn lleihau llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn y dyfodol?

Peter Law: Yr wyf yn barod i ystyried hynny. Mae angen inni roi ystyriaeth i hynny ac yr wyf wedi nodi'ch pwynt. Nid dyma'r tro cyntaf ichi wneud y pwynt hwnnw i mi.

Huw Lewis: A wnewch chi ystyried, yn nhermau atalfeydd llifogydd, broblem amgylcheddol arall, yn enwedig mewn ardaloedd glofaol, lle mae tir y gellid ei ddatblygu yn aml yn dir isel. Yr wyf yn meddwl ymlaen at ddefnyddio cyllid Amcan 1. Gallai datblygu darn o dir gyda chyllid o Ewrop fod fwy neu lai'n ddiwerth yn y dyfodol os yw'r tir hwnnw dan fygythiad llifogydd rheolaidd.

Peter Law: Gwell un gair ymlaen na dau yn ôl, ac mae arnom angen cymaint o fewnbnw ag sydd yn bosibl i hyn. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi'r mater. Edrychaf i mewn iddo ac os bydd gennych unrhyw enghreifftiau

write to me about, I will be pleased.

penodol sydd yn peri pryder yr hoffech ysgrifennu ataf amdanynt, byddaf yn falch.

Mesurau Diogelwch a Mesurau i Arafu Traffig Traffic Safety and Calming Measures

Q4 Kirsty Williams: What steps will Peter Law take to introduce safety and calming measures on the A40 at Crickhowell to protect pedestrians and road users alike? (OAQ1400VB)

C4 Kirsty Williams: Pa gamau fydd Peter Law yn eu cymryd i gyflwyno mesurau diogelwch a mesurau i arafu traffig ar yr A40 yng Nghrucywel er mwyn diogelu cerddwyr a defnyddwyr y ffordd? (OAQ1400VB)

Peter Law: As you will know from our correspondence, I understand your concern on this matter. A consultation document on the provision of a zebra crossing and associated traffic calming works in the vicinity of the primary school on the northern approach to Crickhowell was issued recently. There are no proposals yet for traffic calming measures on the southern approach but the situation is being monitored.

Peter Law: Fel y gwyddoch o'n gohebiaeth, yr wyf yn deall eich pryder ynglŷn â'r mater hwn. Cyhoeddwyd yn ddiweddar ddogfen ymgynghorol ar ddarparu croesfan sebra a gwaith cysylltiedig i arafu'r traffig yng nghyffiniau'r ysgol gynradd ar y ffordd ogleddol i mewn i Crucywel. Nid oes dim cynigion eto ar gyfer mesurau i arafu'r traffig ar y ffordd ddeheuol ond mae'r sefyllfa'n cael ei gwyllo.

Kirsty Williams: Will you make a commitment today to consult the people of Crickhowell, in particular on the southern approach into the town, especially the area of road opposite the health surgery? Is he aware that the number of pedestrians killed and injured on Wales's roads in 1997 was 1,965. This figure shows the need for traffic calming measures not only in Crickhowell but throughout Wales.

Kirsty Williams: A wnewch chi ymrwymo heddiw i ymgynghori â phobl Crucywel, yn enwedig ynghylch y ffordd ddeheuol i mewn i'r dref, ac yn arbennig y darn ffordd gyferbyn â'r feddygfa? A ydyw'n ymwybodol y cafodd cyfanswm o 1,965 o gerddwyr eu lladd a'u hanafu ar ffyrdd Cymru yn 1997? Mae'r ffigur hyn yn dangos yr angen am fesurau arafu traffig nid yn unig yng Nghrucywel ond drwy Gymru gyfan.

Peter Law: Any death on the road is a matter of concern to me as it is to all of you. As a Government we are taking steps to make our roads safer day by day, and are developing traffic calming measures where that is appropriate. The consultation document was issued on 7 October and it concludes that a zebra crossing would be appropriate but that traffic calming measures will be necessary to reduce approach speeds. I shall look forward to the community's response to the consultation document, and I am sure that you will be making a positive contribution to it as usual.

Peter Law: Mae unrhyw farwolaeth ar y ffyrdd yn fater o bryder i mi fel pawb ohonoch. Fel Llywodraeth yr ydym yn cymryd camau i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel bob dydd, ac yn datblygu mesurau arafu traffig lle bo hynny'n briodol. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol ar 7 Hydref a daw i'r casgliad y byddai croesfan sebra'n briodol ond y bydd angen mesurau arafu traffig er mwyn lleihau cyflymder traffig sydd yn dod at y groesfan. Edrychaf ymlaen at ymateb y gymuned i'r ddogfen ymgynghorol, ac yr wyf yn siŵr y byddwch chi'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ato fel arfer.

Nick Bourne: I am obviously supportive of anything that reduces accidents on the roads in Wales, but on the specific issue of

Nick Bourne: Yn amlwg yr wyf yn cefnogi unrhyw beth sydd yn lleihau damweiniau ar ffyrdd Cymru, ond ar fater penodol Crucywel

Crickhowell I underline that very serious accidents have taken place in the community and that urgent action is needed for a zebra crossing or some other calming measures. I encourage Peter to facilitate that at the earliest opportunity before we have a serious accident or fatality again in Crickhowell.

Peter Law: I am always pleased to respond to Assembly Members who have difficulty in their area. I will shortly be meeting yourself and Kirsty about a similar matter in Llandrindod Wells, therefore I am aware of that and will pursue it.

hoffwn danlinellu bod damweiniau difrifol iawn wedi digwydd yn y gymuned a bod angen gweithredu ar fyrder i osod croesfan sebra neu ryw fesurau arafu eraill. Anogaf Peter i hwyluso hynny cyn gynted ag y bo modd cyn inni gael damwain ddifrifol neu angheuol yng Nghrucywel eto.

Peter Law: Yr wyf bob amser yn falch o ymateb i Aelodau'r Cynulliad sydd yn cael trafferthion yn eu hardal. Byddaf yn cyfarfod â chi a Kirsty cyn hir ynglŷn â mater tebyg yn Llandrindod, felly yr wyf yn ymwybodol o hynny a byddaf yn mynd ati.

Cynllun Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Scheme

C5 Rhodri Glyn Thomas: Pa gamau y mae Peter Law yn eu cymryd i sicrhau bod ymgynghori digonol cyn i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy gael ei weithredu? (OAQ1409VB)

Peter Law: Diolch yn fawr. In the Plenary session on 14 September, my friend, the Secretary for Agriculture and Rural Development, Christine Gwyther, confirmed that we intend to have a wide, genuine and proactive consultation process on the draft scheme which we will issue later this year. This will include as many groups and organisations within the public, private and voluntary sectors as possible. Using their networks we hope to reach local groups including those with ethnic minority communities. Thought is also being given to how we can engage the wider public.

Rhodri Glyn Thomas: Ffordd arall o gael yr ymgynghoriad, mae'n debyg, yw cael cwpanaid o de gyda Gwenda Thomas. Mae'n amlwg yn credu ei bod yn gwybod barn pawb ar bopeth.

Y Llywydd: Rhodri, byddwn yn gwerthfawrogi cael y cwestiwn.

Rhodri Glyn Thomas: Beth am rôl yr Aelodau yn y Cynulliad a hefyd y syniad o gael grŵp o arbenigwyr i ystyried hyn fel rhan o'r broses ymgynghori?

Q5 Rhodri Glyn Thomas: What steps are being taken by Peter Law to ensure adequate consultation before implementing the Sustainable Development Scheme? (OAQ1409VB)

Peter Law: Diolch yn fawr. Yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Medi, cadarnhaodd fy nghyfaill, yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther, ein bod yn bwriadu cael proses ymgynghori eang, ddifffuant a rhagweithiol ar y cynllun drafft a gyhoeddir gennym yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn cynnwys cynifer o grwpiau a sefydliadau o fewn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ag sydd yn bosibl. Gan ddefnyddio'u rhwydweithiau hwy gobeithiwn gyrraedd grwpiau lleol gan gynnwys y rheini sydd â chymunedau ethnig lleiafrifol. Yr ydym hefyd yn ystyried sut y gallwn dynnu'r cyhoedd yn fwy cyffredinol i mewn.

Rhodri Glyn Thomas: It seems that another way of having the consultation is to have a cup of tea with Gwenda Thomas. She obviously believes that she knows everyone's views on everything.

The Presiding Officer: Rhodri, I would appreciate your question please.

Rhodri Glyn Thomas: What about the role of Members within the Assembly and also the idea of having a group of specialists to consider this as part of the consultation

process?

Peter Law: I always appreciate Gwenda's questions and contributions. However, returning to your question, I was grateful to your colleague, Cynog Dafis, who wrote to my department in August about the environment assessment unit at the University of Wales Aberystwyth. Dr Alan Bond from the Institute of Biological Science has offered to advise us on sustainable development. That is an example of taking advantage of experts, and in future we will be consulting with experts. The National Assembly for Wales' sustainable development unit has already met key sectors informally to share initial ideas on the draft scheme. That includes Assembly sponsored public bodies, the Wales Council for Voluntary Action, the Welsh Local Government Association and the sustainable development voluntary sector forum. This is a good cross section. Assembly Members will all have the opportunity to give their input in the official consultation, and I look forward to that.

Sue Essex: Would Peter agree that the success of our sustainable development scheme depends on having good co-operation and working relationships with our partners, particularly in the voluntary sector? Consultation is merely the beginning of establishing those relationships.

Peter Law: That is important, and the draft of the outline scheme should be considered in Subject Committees in the coming weeks. We will also consider the consultation progress in all those deliberations. I underline again what Sue Essex has said. It is important that we have meaningful discussions and encourage voluntary sector participation in this. It is important that the Unit has already met with key sectors. There is also the voluntary environmental sector and, in future, there will be meetings with the Confederation of British Industry (CBI), the Institute of Directors and chamber of commerce throughout Wales. You have underlined an important point and I am grateful to you for raising it.

Peter Law: Yr wyf bob amser yn gwerthfawrogi cwestiynau a chyfraniadau Gwenda. Fodd bynnag, i fynd yn ôl at eich cwestiwn, yr oeddwn yn ddiolchgar i'ch cydaelod, Cynog Dafis, a ysgrifennodd at fy adran ym mis Awst ynglŷn â'r uned asesu amgylchedd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Mae Dr Alan Bond o'r Sefydliad Gwyddor Fiolegol wedi cynnig ein cynghori ar ddatblygu cynaliadwy. Dyna enghraifft o fanteisio ar arbenigwyr, ac yn y dyfodol fe fyddwn yn ymgynghori ag arbenigwyr. Mae uned datblygiad cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi cwrdd â sectorau allweddol yn anffurfiol i rannu syniadau dechreuol ar y cynllun drafft. Mae hynny'n cynnwys cyrff cyhoeddus a noddor gan y Cynulliad, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fforwm y sector gwirfoddol ar ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn groestoriad da. Caiff holl Aelodau'r Cynulliad gyfle i roi eu mewnbwn yn yr ymgynghoriad swyddogol, ac edrychaf ymlaen at hynny.

Sue Essex: A fyddai Peter yn cytuno bod llwyddiant ein cynllun datblygu cynaliadwy'n dibynnu ar gael cydweithrediad a pherthynas waith dda gyda'n partneriaid, yn enwedig yn y sector gwirfoddol? Dim ond dechrau sefydlu'r berthynas honno a wneir wrth ymgynghori.

Peter Law: Mae hynny'n bwysig, a dylid ystyried drafft y cynllun amlinell yn y Pwyllgorau Pwnc yn yr wythnosau sydd i ddod. Byddwn hefyd yn ystyried y broses ymgynghori yn y trafodaethau hynny i gyd. Yr wyf yn tanlinellu eto yr hyn a ddywedodd Sue Essex. Mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaethau ystyrlon ac yn annog cyfranogiad gan y sector gwirfoddol yn hyn. Mae'n bwysig fod yr Uned eisoes wedi cwrdd â sectorau allweddol. Hefyd ceir y sector amgylcheddol gwirfoddol ac yn y dyfodol ceir cyfarfodydd gyda Chyd-ffederasiwn Diwydiannau Prydain (CBI), Sefydliad y Cyfarwyddwyr a siambrau masnach drwy Gymru benbaladr. Yr ydych wedi tanlinellu pwynt pwysig ac yr wyf yn ddiolchgar ichi am ei godi.

Fformwla Dyraniadau Llywodraeth Leol Formula for Local Government Allocations

Q6 Brian Gibbons: Could Peter give us an update on the review of the formula for local government allocations? (OAQ1388VB)

C6 Brian Gibbons: A all Peter amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt adolygu'r fformwla ar gyfer dyraniadau llywodraeth leol? (OAQ1388VB)

Peter Law: This matter of the revenue funding must be on everybody's lips. Following the independent review of the standard spending assessment formula, a report was published in February 1999. It made 23 recommendations. The distribution sub-group is taking forward the detailed programme of work. The aim is to complete the work in time to consult on the proposals for a new formula before the summer recess next year. The next one will be an interim one. I gave a report on the group's progress to the Environment and Local Government Committee last Wednesday, and a copy of my report is available on the intranet.

Peter Law: Mae'n siŵr fod y mater hwn o ariannu refeniw ar wefusau pawb. Yn dilyn yr adolygiad annibynnol o fformwla'r asesiad gwario safonol, cyhoeddwyd adroddiad yn Chwefror 1999. Gwnaeth 23 o argymhellion. Mae'r is-grŵp dosbarthu'n mynd â'r rhaglen waith fanwl yn ei blaen. Y nod yw cwblhau'r gwaith mewn pryd i ymgynghori ar y cynigion ar gyfer fformwla newydd cyn gwyliau'r haf y flwyddyn nesaf. Un interim fydd yr un nesaf. Rhoddais adroddiad ar waith y grŵp i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ddydd Mercher diwethaf, ac mae copi o'm h'adroddiad ar gael ar y fewnwyd.

Brian Gibbons: Would Peter agree that it is essential that the new formula recognises the problems of social deprivation? This is particularly highlighted in my own constituency where the local authority, despite being high on the social exclusion scales, attracts a lower allocation than it would on a basic capitation formula. Consequently, deprivation is not being adequately recognised.

Brian Gibbons: A fyddai Peter yn cytuno ei bod yn hanfodol fod y fformwla newydd yn cydnabod problemau amddifadiad cymdeithasol? Mae hyn yn arbennig o amlwg yn fy etholaeth i lle mae'r awdurdod lleol, er ei fod yn uchel ar y graddfeydd dieithriad cymdeithasol, yn denu dyraniad is nag a wnâi ar fformwla 'y-pen' sylfaenol. Felly, nid oes cydnabyddiaeth ddigonol i amddifadiad.

Peter Law: I fully appreciate your concerns as I come from the same area myself. You have always made the point on behalf of your constituency about the problem of deprivation. The new formula for 2001-2002 will include measures that consider the cost of providing services in deprived and sparsely populated areas.

Peter Law: Yr wyf yn llawn werthfawrogi'ch pryderon gan fy mod innau'n dod o'r un ardal. Yr ydych bob amser wedi gwneud y pwynt ar ran eich etholaeth ynghylch problem amddifadiad. Bydd y fformwla newydd ar gyfer 2001-2002 yn cynnwys mesurau a fydd yn ystyried cost darparu gwasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig a thenau eu poblogaeth.

2:19 p.m.

Janet Davies: I appreciate Brian's supplementary question. However, all areas have different problems whether they are about population, social exclusion or urban problems. Will you be consulting fully with all areas of Wales to ensure that they all get a

Janet Davies: Yr wyf yn gwerthfawrogi cwestiwn atodol Brian. Fodd bynnag, mae gan bob ardal broblemau gwahanol, boed hwy'n broblemau poblogaeth, dieithrio cymdeithasol neu drefol. A fyddwch chi yn ymgynghori'n llawn â phob ardal o Gymru i

fair deal out of this?

sicrhau y caiff pawb chwarae teg allan o hyn?

Peter Law: That is a good point. My main consultation will be through the Welsh Local Government Association which has co-operated fully in this and has agreed that the earliest time for introducing the new formula will be in the 2001-2002 financial year. It is important to consult as much as possible and I am grateful to the WLGA for the help and co-operation that it has given my officials. I will meet with the WLGA again tomorrow to discuss this important issue.

Peter Law: Dyna bwynt da. Byddaf yn ymgynghori'n bennaf drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi cydweithredu'n llawn yn hyn ac wedi cytuno mai blwyddyn ariannol 2001-2002 fydd yr amser cynharaf ar gyfer cyflwyno'r fformwla newydd. Mae'n bwysig ymgynghori cymaint ag sydd yn bosibl ac yr wyf yn ddiolchgar i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y cymorth a'r cydweithrediad a roddodd i'm swyddogion. Byddaf yn cwrdd â'r Gymdeithas eto yfory i drafod y mater pwysig hwn.

The Presiding Officer: I have had a request from Alun Pugh to ask the Secretary for Education and Children a question on an urgent matter of public importance under Standing Order No. 6.31.

Y Llywydd: Yr wyf wedi cael cais gan Alun Pugh i ofyn cwestiwn i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant ar fater brys o bwys cyhoeddus dan Reol Sefydlog Rhif 6.31.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Trefniadau Cludiant Ysgol School Transport Arrangements

Alun Pugh: Will Rosemary Butler instruct local education authorities to review urgently their school transport arrangements in light of yesterday's bus crash in north Wales?

Alun Pugh: A wnaiff Rosemary Butler ddweud wrth awdurdodau addysg lleol am adolygu eu trefniadau cludiant ysgol ar fyrder yn sgîl y ddamwain bws yn y gogledd ddoe?

The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler): I share the Assembly's and your concerns about this incident. I am pleased that there were no serious injuries but I recognise the anxiety of parents and pupils at Ysgol Emrys ap Iwan in Abergele.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler): Rhannaf bryderon y Cynulliad a'ch pryder chi ynglŷn â'r ddamwain hon. Yr wyf yn falch na chafodd neb anafiadau difrifol ond yr wyf yn cydnabod pryder rhieni a disgyblion yn Ysgol Emrys ap Iwan yn Abergele.

Under the Education Act 1996, local authorities are required to provide transport to facilitate the attendance of pupils at school. This transport is often provided by bus contracts entered into by local authorities with commercial operators. Such operators are required to run their services in accordance with the requirements of road safety legislation.

Dan Ddeddf Addysg 1996, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant i hwyluso presenoldeb disgyblion yn yr ysgol. Yn aml darperir y cludiant hwn drwy gontractau bysiau a wneir rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau masnachol. Mae'n ofynnol i'r cwmnïau hyn redeg eu gwasanaethau yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelwch y ffyrdd.

The bus involved in yesterday's accident was operating under a contract with Conwy

Yr oedd y bws a gafodd ddamwain ddoe yn gweithio dan gontract gyda Chyngor Sir

County Council. The authority has responded by providing counselling support within the school today and is reviewing its arrangements in light of the accident. The authority is in contact with North Wales Police, which is investigating the circumstances. Until the cause of the accident is identified, I see no case for asking all authorities to undertake a special review of their arrangements. In my experience, authorities regularly review their arrangements in the normal course of events.

My officials are in contact with Conwy County Council and if there are any general lessons to be learnt from this event, I will ensure that they are passed on to the other authorities.

Alun Pugh: In general, buses are safer than cars as well as being more environmentally friendly. Sixty children from a school in my constituency were hurt in yesterday's accident, but no one was seriously injured.

Will you ask local education authorities to ensure that vehicles used in school transport contracts are fitted progressively with seat belts because taxis, minibuses and coaches have seat belts but school buses do not?

Rosemary Butler: Legislation requires seat belts to be fitted to all coaches and minibuses carrying children to and from school and on organised trips. However, this does not apply to vehicles that are used for other purposes during the day. To extend the requirements to all vehicles would require new legislation to be made by the Department of the Environment, Transport and the Regions and could not be applied to vehicles already on the road.

Ann Jones: Alun mentioned that 60 children from a school in his constituency were hurt but unfortunately that accident happened in my constituency. Chris Ruane, MP for the Vale of Clwyd and I have been actively engaged with the local authority in looking at ways to make that area of road safer,

Conwy. Mae'r awdurdod wedi ymateb drwy roi cefnogaeth cwnsela yn yr ysgol heddiw ac mae'n adolygu ei drefniadau yng ngolau'r ddamwain. Mae'r awdurdod mewn cysylltiad â Heddlu Gogledd Cymru, sydd yn ymchwilio i'r amgylchiadau. Hyd nes canfyddir achos y ddamwain, ni welaf unrhyw achos dros ofyn i bob awdurdod wneud adolygiad arbennig o'u trefniadau. Yn fy mhrofiad i, bydd awdurdodau'n adolygu eu trefniadau'n rheolaidd yng nghwrs arferol pethau.

Mae fy swyddogion yn cysylltu â Chyngor Sir Conwy ac os bydd unrhyw wersi cyffredinol i'w dysgu oddi wrth y digwyddiad hwn, fe sicrhaf y cânt eu trosglwyddo i'r awdurdodau eraill.

Alun Pugh: Yn gyffredinol, mae bysiau yn fwy diogel na cheir yn ogystal â bod yn fwy caredig i'r amgylchedd. Cafodd trigain o blant o ysgol yn fy etholaeth eu brifo yn y ddamwain ddoe, ond ni chafodd neb anaf difrifol.

A wnewch chi ofyn i awdurdodau addysg lleol sicrhau y ceir rhaglen i osod gwregysau diogelwch mewn cerbydau a ddefnyddir mewn contractau cludiant ysgol, oherwydd ceir gwregysau mewn tacsis, bysiau mini a choetsys ond nid mewn bysiau ysgol?

Rosemary Butler: Mae'r gyfraith yn mynnu bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod ym mhob bws a bws mini a ddefnyddir i gludo plant i'r ysgol ac oddi yno ac ar dripiâu sydd wedi'u trefnu. Fodd bynnag, nid yw hyn i'w gymhwyso i gerbydau a ddefnyddir ar gyfer dibenion eraill yn ystod y dydd. I ymestyn y gofynion i bob cerbyd byddai angen deddfwriaeth newydd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac ni ellid ei chymhwyso i gerbydau a fyddai ar y ffordd yn barod.

Ann Jones: Soniodd Alun fod 60 o blant o ysgol yn ei etholaeth wedi'u brifo, ond yn anffodus, yn fy etholaeth i y digwyddodd y ddamwain honno. Mae Chris Ruane, yr AS dros Ddyffryn Clwyd, a mi wedi bod yn cydweithio gyda'r awdurdod lleol i edrych ar ffyrdd i wneud y darn ffordd hwnnw'n fwy

particularly the A525 junction. I share Alun's concerns. We must send a message to parents that we take transporting children to school seriously. We should be asking local authorities to ensure that the buses they use comply with the most up-to-date regulation. We must ensure that we avoid situations like this. Thankfully no-one was seriously injured yesterday but it could have been disastrous. I accept Rosemary's comments, but we should be doing all we can to urge local authorities to review school transport arrangements.

Rosemary Butler: We all share concern about this accident. Services contracted to local authorities must meet the requirements of the safety legislation. We must achieve safe routes to school. It would require new legislation in Westminster to ensure that all buses carrying children have safety belts. However, the Assembly has influence and I hope we can raise the issue at regional Committees with local authorities. Peter Law, when he meets Welsh local government, will also raise the issue. We cannot instruct them when they meet the existing legislation and when there is no chance of our altering the legislation.

Christine Humphreys: I share the Secretary's concerns about what happened yesterday and wonder whether the Secretary would publish the results of Traffic Commission tests on all school buses in Wales over the last three years showing where buses have failed. I am sure she is aware, as I am, that school buses are not always the newest or the best buses and I am concerned about the failure of some buses to meet standards.

Rosemary Butler: I share Christine's concern about sub-standard buses. If this is the case, the local authority concerned should take action. The condition of vehicles is not the only important issue, so too is the quality and experience of drivers and this applies to taxis as well as buses. Therefore, we must ensure that each authority guarantees that

diogel, yn enwedig ar gyffordd yr A525. Yr wyf yn rhannu pryderon Alun. Rhaid inni anfon neges at rieni ein bod o ddifrif ynglŷn â chludo plant i'r ysgol. Dylem ofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod y bysiau a ddefnyddiant yn cydymffurfio â'r rheoliadau diweddaraf. Rhaid inni sicrhau ein bod yn osgoi sefyllfaoedd fel hyn. Yn ffodus ni chafodd neb anaf difrifol ddoe ond gallasai fod yn drychineb. Yr wyf yn derbyn sylwadau Rosemary, ond dylem wneud popeth a allwn i annog awdurdodau lleol i adolygu trefniadau cludo plant i'r ysgol.

Rosemary Butler: Yr ydym i gyd yn rhannu pryder ynghylch y ddamwain hon. Rhaid i wasanaethau sydd ar contract i awdurdodau lleol gwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth ar ddiogelwch. Rhaid inni sicrhau ffyrdd diogel i fynd i'r ysgol. Byddai angen deddfwriaeth newydd yn San Steffan i sicrhau bod gwregysau diogelwch ym mhob bws sydd yn cario plant. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad ddylanwad ac yr wyf yn gobeithio y gallwn godi'r mater mewn Pwyllgorau rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol. Bydd Peter Law, wrth gyfarfod â llywodraeth leol Cymru, yn codi'r mater hefyd. Ni allwn eu cyfarwyddo os ydynt yn cwrdd â'r ddeddfwriaeth bresennol a phan nad oes siawns inni newid y ddeddfwriaeth.

Christine Humphreys: Yr wyf yn rhannu pryderon yr Ysgrifennydd ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ddoe. Tybed a fyddai'r Ysgrifennydd yn cyhoeddi canlyniadau profion y Comisiwn Traffig ar holl fysiau ysgol Cymru dros y tair blynedd diwethaf gan ddangos lle y mae bysiau wedi methu. Yr wyf yn siŵr ei bod yn ymwybodol, fel finnau, nad yw bysiau ysgol bob amser y bysiau mwyaf newydd na'r gorau, ac yr wyf yn bryderus ynghylch methiant rhai bysiau i gwrdd â'r safonau.

Rosemary Butler: Yr wyf yn rhannu pryder Christine am fysiau is-safonol. Os yw hyn yn wir, dylai'r awdurdod lleol weithredu. Nid cyflwr y cerbydau yw'r unig fater pwysig, mae ansawdd a phrofiad y gyrrwyr hefyd yn bwysig, ac mae hyn yn wir am yrrwyr taci yn ogystal â bysiau. Felly, rhaid inni sicrhau bod pob awdurdod yn gwarantu bod pob cerbyd

every vehicle it contracts reaches the highest possible standards. The figures may be available already, but if not, we will ensure that they are put in the library.

Gareth Jones: Yr wyf finnau hefyd yn falch nad oedd anafiadau difrifol yn sgîl y ddamwain. Nid yw hyn yn adlewyrchiad ar y cwmni bysiau, ond teimlaf fod angen edrych yn ofalus ar drefniadau trafnidiaeth ysgol, gan gynnwys bysiau, bysiau mini a thacsis. Poenaf fod diffygion yn ymddangos pan gynhelir hapwiriadau. Byddwn yn falch pe baech yn edrych ar hyn yn ofalus.

Rosemary Butler: I would be disappointed if flaws came to light frequently. There are companies which do not meet the required standards but I do not think that that is frequent. Individual Members representing their constituencies have been raising this issue themselves as school governors, for example, and ensuring that the message is getting through. From my own experience as local councillor, councils take the issue of transporting children to and from school extremely seriously.

David Davies: I do not want to reiterate what has been said but it is important that we do everything we can to ensure the safety of school transport. The only additional point I would like to make is that travelling by bus is usually safer than by car. It is worrying that in some local authorities, school transport has been cut back and I hope that you will take steps to ensure that that does not become the norm across Wales.

Rosemary Butler: There are standard distances with which local authorities must comply. Some authorities go beyond that and pay for children to go to school over further distances.

David Davies: I was just going to clarify that point.

The Presiding Officer: I cannot take a further question from you. I suggest that you continue this by e-mail.

Rosemary Butler: That would be interesting

sydd ar gontract ganddo'n cyrraedd y safonau uchaf posibl. Efallai bod y ffigyrau ar gael eisoes, ond os nad ydynt, byddwn yn sicrhau y cânt eu gosod yn y llyfrgell.

Gareth Jones: I too am pleased that there were no serious injuries following the accident. This is no reflection on the bus company involved, but I feel that there is a need to look carefully at school transport arrangements, including buses, minibuses and taxis. I am concerned that faults appear when spot-checks are conducted. I would be pleased if you would look closely at this.

Rosemary Butler: Byddwn yn siomedig pe bai diffygion yn dod i'r amlwg yn aml. Mae rhai cwmnïau heb gyrraedd y safonau gofynnol ond nid wyf yn credu bod hynny'n digwydd yn aml. Mae Aelodau unigol sydd yn cynrychioli eu hetholaethau wedi bod yn codi'r mater hwn eu hunain fel llywodraethwyr ysgol, er enghraifft, gan sicrhau bod y neges yn mynd drwodd. O'm profiad i fel cynghorydd lleol, mae cynghorau'n ystyried y cwestiwn o gludo plant i'r ysgol ac adref yn hynod o ddifrifol.

David Davies: Nid oes arnaf eisiau ailadrodd yr hyn sydd wedi ei ddweud, ond y mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth a allwn i sicrhau diogelwch cludiant ysgol. Yr unig bwynt ychwanegol yr hoffwn ei wneud yw fod teithio ar fws fel rheol yn fwy diogel na'r car. Mae'n peri pryder fod cludiant ysgol wedi ei gwtogi mewn rhai awdurdodau lleol, a gobeithio y gweithredwch i sicrhau nad hynny fydd y norm ar draws Cymru.

Rosemary Butler: Y mae pellterau safonol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy. Bydd rhai awdurdodau'n mynd ymhellach ac yn talu i blant fynd i'r ysgol dros bellterau mwy.

David Davies: Yr oeddwn ar fin egluro'r pwynt hwnnw.

Y Llywydd: Ni allaf gymryd cwestiwn pellach gennych chi. Awgrymaf eich bod yn parhau hyn drwy e-bost.

Rosemary Butler: Byddai hynny'n ddiddorol

but my e-mail is not working today. David's point is valid because his constituency pupils do travel considerable distances. I am sure that you have a good relationship with Monmouthshire County Council and that you will take the issue up with them.

2:29 p.m.

Nick Bourne: Point of order. I do not wish to question your authority as Presiding Officer, but Standing Order No. 6.4 provides a dual requirement on censure motions. One is that they should be debated within five working days, which is satisfied by having the debate next Tuesday. However, the other requirement is:

'If a...motion of censure of an Assembly Secretary, is tabled by at least six Members, time shall be made available as soon as may be...'

Other business should give way unless there is some supervening reason on the business of the particular day that is more urgent than a censure motion. That has not happened today. The Conservative Party feels strongly about this because if we are not following Standing Orders, we are questioning the whole authority of the institution. While accepting that there may be valid political constitutional reasons for your proposed course of action, we would argue that it is unconstitutional. While we would not push that point, on Tuesday we will not waver from what we intend to achieve. We hope that the other opposition parties also stick their ground.

Michael German: I cannot rise because you would not hear me, which would be unpleasant. Presiding Officer, while I respect your judgement on Standing Order No. 6.4, it seems to me that the five working days condition is regarded as the extremity and the 'as soon as may be' part is regarded as the norm. Therefore this is an urgent matter for the Assembly. It would be better if this matter had been done, dusted and dealt with.

Andrew Davies: Presiding Officer, the Government has made its views known to you

and nid yw fy e-bost yn gweithio heddiw. Mae gan David bwynt dilys oherwydd mae plant yn ei etholaeth ef yn teithio pellterau sylweddol. Yr wyf yn siŵr fod gennych berthynas dda gyda Chyngor Sir Fynwy ac y gwnewch godi'r mater gyda hwy.

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Nid wyf am gwestiynu eich awdurdod fel Llywydd, ond mae Rheol Sefydlog Rhif 6.4 yn gosod gofyniad deuol ar gynigion o gerydd. Un yw y dylid eu dadlau o fewn pum niwrnod gwaith, gofyniad a fodlonir drwy gynnal y ddadl ddydd Mawrth nesaf. Fodd bynnag, dyma'r gofyniad arall:

'Os cyflwynir cynnig...i geryddu un o Ysgrifenyddion y Cynulliad, a hynny gan o leiaf chwe Aelod, trefnir bod amser ar gael cyn gynted ag y bo modd...'

Dylai busnes arall ildio oni bai fod rhyw reswm dilynol ar fusnes y diwrnod arbennig hwnnw sydd o fwy o frys na chynnig o gerydd. Nid yw hynny wedi digwydd heddiw. Mae'r Blaid Geidwadol yn teimlo'n gryf ynghylch hyn oherwydd os nad ydym yn dilyn y Rheolau Sefydlog, yr ydym yn cwestiynu holl awdurdod y sefydliad. A derbyn y gall fod rhesymau cyfansoddiadol gwleidyddol dilys dros y modd yr ydych yn bwriadu gweithredu, byddem ni'n dadlau ei fod yn anghyfansoddiadol. Er na fyddem yn gwrthio'r pwynt hwnnw, ddydd Mawrth ni fyddwn yn fodlon gwyro oddi wrth yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. Yr ydym yn gobeithio y bydd y gwrthbleidiau eraill yn sefyll eu tir hefyd.

Michael German: Ni allaf godi gan na fydddech yn fy nghlywed, ac ni fyddai hynny'n beth braf. Lywydd, er fy mod yn parchu'ch dyfarniad ar Reol Sefydlog Rhif 6.4, mae'n ymddangos i mi fod yr amod pum diwrnod gwaith yn cael ei hystyried fel y man pellaf ac mai 'cyn gynted ag y bo modd' yw'r hyn a ystyrir yn norm. Felly mae hwn yn fater brys i'r Cynulliad. Byddai'n well pe bai'r mater hwn wedi ei drafod a'i roi i orffwys.

Andrew Davies: Lywydd, mae'r Llywodraeth wedi rhoi ei sylwadau i chi'n

personally but we will respect your decision on this matter. I have prepared for the unamended business statement to be on the intranet at the earliest possible opportunity, accepting your view that this will be dealt with as a censure motion next Tuesday.

Ieuan Wyn Jones: A gaf i gadarnhau, Lywydd, ein bod ninnau hefyd wedi anfon sylwadau i'ch Swyddfa? Wedi dweud hynny, yr ydym yn derbyn eich dyfarniad chi ac yn croesawu datganiad y Trefnydd fod y mater yn cael ei drafod ddydd Mawrth nesaf.

Y Llywydd: Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at y datganiad a wneuthum ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn y prynhawn yma. Gobeithiaf y bydd Aelodau yn dwys ystyried goblygiadau'r hyn a ddywedais. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Trefnydd am gytuno i'r mater hwn gael ei drafod yn fyr ddydd Mawrth nesaf.

bersonol ond byddwn yn parchu'ch penderfyniad chi ar y mater hwn. Yr wyf wedi paratoi i'r datganiad busnes heb ei ddiwygio fod ar y fewnwyd ar y cyfle cyntaf posibl, gan dderbyn eich barn y caiff y mater hwn ei drafod fel cynnig o gerydd ddydd Mawrth nesaf.

Ieuan Wyn Jones: May I confirm, Presiding Officer, that we also have sent comments to your Office? Having said that, we accept your ruling and we welcome the Business Secretary's statement that this matter will be dealt with next Tuesday.

The Presiding Officer: I have nothing further to add to the statement I made at the beginning of this afternoon's Plenary. I hope that Members will seriously consider the implications of what I said. I am grateful to the Business Secretary for agreeing that this matter will be discussed briefly next Tuesday.

Tybaco Tobacco

The Presiding Officer: I have selected the amendments standing in the names of David Lloyd, David Melding and Kirsty Williams.

Jane Hutt: I propose that the Assembly

recognises that smoking is the greatest cause of preventable illness and premature death in Wales;

welcomes the comprehensive programme of measures set out in the Tobacco White Paper; and

endorses the programme of activities being undertaken in Wales to prevent children and young people from taking up smoking, to encourage adults to stop smoking and to increase the number of smoke free public places.

It is a shocking fact that it is estimated that today in Wales 16 people will die because they smoke tobacco and over 500 hospital

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis y gwelliannau sydd yn sefyll yn enwau David Lloyd, David Melding a Kirsty Williams.

Jane Hutt: Yr wyf yn cynnig bod y Cynulliad

yn cydnabod bod ysmegu yn achosi mwy o salwch y gellid ei osgoi a mwy o farwolaethau cyn pryd yng Nghymru nag unrhyw ffactor arall;

yn croesawu'r rhaglen gynhwysfawr o fesurau a amlinellir yn y Papur Gwyn ar Dybaco; ac

yn cymeradwyo'r rhaglen o weithgareddau sydd yn cael eu cynnal yng Nghymru i rwystro plant a phobl ifainc rhag dechrau ysmegu, i annog oedolion i roi'r gorau i ysmegu ac i gynyddu nifer y mannau cyhoeddus lle gwaherddir ysmegu.

Mae'n ffaith ddychrynlyd yr amcangyfrifir yng Nghymru heddiw y bydd 16 o bobl yn marw am eu bod yn ysmegu tybaco ac y bydd

beds will be occupied by people with a smoking related disease. These stark figures underline the major impact which tobacco has on the health and wellbeing of the people of Wales. Although smoking has begun to decline amongst adults, it is of great concern that growing numbers of young people have become dependent on tobacco. I would like to accept David Melding's amendment which notes that most smokers acquire the habit as teenagers. I particularly support measures to encourage children and young people who smoke to give up. I am announcing many measures to do that. This amendment highlights our concern at the prospect of so many young people in Wales taking up smoking, a habit which threatens their long-term health. I am resisting the amendments proposed by David Lloyd and Kirsty Williams relating to the EU ban on tobacco advertising. I will address the reasons for that later in my speech.

The ill-effects of smoking are felt particularly by those on low incomes. This is part of our big picture of improving the health and wellbeing of people in Wales and tackling health inequalities. As with other health and lifestyle issues, smoking is not simply a matter of individual knowledge and choice. Smoking has declined among those in non-manual occupations but it has become increasingly concentrated among socially disadvantaged communities.

The Government published its White Paper on tobacco, 'Smoking Kills', last December as an indication of its commitment to tackle the tobacco epidemic. We must reflect this in the Assembly and ensure that we tackle disadvantaged communities and people in Wales who are unfortunately increasing their smoking habits. The White Paper has been widely welcomed because of its comprehensive approach to smoking issues and it identifies a range of complementary measures designed to help adults to stop smoking, stop children and young people from starting smoking and create a smoke-free environment.

Some of the measures in the White Paper are

dros 500 o welyau ysbytai yn cael eu defnyddio gan bobl ag afiechyd cysylltiedig ag ysmygu. Mae'r ffigurau moel hyn yn tanlinellu'r effaith fawr y mae tybaco'n ei chael ar iechyd a lles pobl Cymru. Er bod ysmygu ar i lawr ymhlith oedolion, mae'n destun pryder mawr fod niferoedd cynyddol o bobl ifainc bellach yn ddibynol ar dybaco. Hoffwn dderbyn gwelliant David Melding sydd yn nodi fod y rhan fwyaf o ysmygwyr yn magu'r arferiad yn eu harddegau. Cefnogaf yn arbennig fesurau i annog plant a phobl ifainc sydd yn ysmygu i roi'r gorau iddi. Yr wyf yn cyhoeddi llawer o fesurau i wneud hynny. Mae'r gwelliant hwn yn tanlinellu'n pryder o feddwl bod cymaint o bobl ifainc yng Nghymru'n dechrau ysmygu, arferiad sydd yn bygwth eu hiechyd yn y tymor hir. Yr wyf yn gwrthwynebu'r gwelliannau a gynigir gan David Lloyd a Kirsty Williams ynglŷn â gwaharddiad yr UE ar hysbysebu tybaco. Rhoddaf y rhesymau dros hynny yn ddiweddarach yn fy araith.

Teimlir effeithiau gwael ysmygu yn arbennig gan bobl ar incwm isel. Dyma ran o'n darlun mawr o wella iechyd a lles pobl Cymru a mynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd. Fel gyda chwestiynau eraill ar iechyd a ffordd o fyw, nid mater syml o wybodaeth a dewis yr unigolyn yw ysmygu. Mae ysmygu wedi gostwng ymhlith y rheini sydd mewn swyddi dwylo glân ond mae wedi mynd yn fwyfwy cyffredin mewn cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei Phapur Gwyn ar dybaco, 'Mae Ysmygu'n Lladd', fis Rhagfyr diwethaf fel arwydd o'i hymrwymiad i daclo'r epidemig tybaco. Rhaid inni adlewyrchu hyn yn y Cynulliad a sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â chymunedau a phobl ddifreintiedig yng Nghymru sydd ysywaeth yn cynyddu eu harferion ysmygu. Croesawyd y Papur Gwyn yn gyffredinol oherwydd ei agwedd gynhwysfawr at faterion ysmygu ac y mae'n rhestru amrediad o fesurau ategol a fwriedir i helpu oedolion i roi'r gorau i ysmygu, atal plant a phobl ifainc rhag dechrau ysmygu a chreu amgylchedd di-fwg.

Mae rhai o'r mesurau yn y Papur Gwyn yn

being implemented on a UK basis including a new code of practice on smoking in the workplace; a commitment to tobacco tax increases of at least 5 per cent a year; a major offensive against tobacco smuggling; and the implementation of EU directives to end tobacco advertising, promotion and sponsorship. I cannot agree with the thrust of Dai Lloyd's and Kirsty Williams's amendments regarding the EU ban on advertising because they imply that the Government has in some way backed down on its commitment to the advertising ban. The regulations relating to the ban are due to come into effect on 10 December 1999 and all billboard and press advertising will be banned from that date. This is more than 18 months in advance of the time-scale set down in the European directives. I reassure Kirsty that the major elements of the ban will not be delayed, and I will explain the transitional arrangements in due course.

The sports and arts sectors have five years in which to find alternative sponsors. The dates set for the end of sponsorship for UK and EU events is July 2003. This is three and a half years after the regulations are due to come into force and follows the same time-scale as set down in the EU directive. We are, therefore, complying in both regards with the EU directive. The timescale set out in the revised regulations differ from those in the draft regulations only in relation to a number of short-term transitional arrangements. These have been put in place in relation to direct marketing, impact promotions and brand-sharing. These transitional arrangements are of minor significance compared with the new provision that will enable the Secretary of State for Health to take action to enforce the ban rather than relying solely on local authority trading standards officers. I am glad that Action on Smoking and Health (ASH) is here today and I know that they have welcomed that strengthened provision.

The tobacco industry, far from being appeased as suggested by Dai, is challenging the Government on the introduction of the

cael eu gweithredu ledled y DU gan gynnwys côd ymarfer newydd ar ysmegu yn y gweithle; ymrwymiad i godi treth tybaco o leiaf 5 y cant y flwyddyn; ymgyrch fawr yn erbyn smyglo tybaco; a gweithredu cyfarwydddebau'r UE i roi terfyn ar hysbysebu, hyrwyddo a nawdd gan gwmnïau tybaco. Ni allaf gytuno ag ergyd gwelliannau Dai Lloyd a Kirsty Williams ynglŷn â gwaharddiad yr UE ar hysbysebu oherwydd maent yn awgrymu fod y Llywodraeth mewn rhyw ffordd wedi camu'n ôl oddi wrth ei hymrwymiad i'r gwaharddiad ar hysbysebu. Mae'r rheoliadau perthnasol i'r gwaharddiad i ddod i rym ar 10 Rhagfyr 1999 a bydd pob hysbysebu ar filfyrdau ac yn y wasg wedi ei wahardd o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn fwy na 18 mis o flaen yr amserlen a bennwyd yng nghyfarwydddebau Ewrop. Yr wyf yn sicrhau Kirsty na fydd oedi ar brif elfennau'r gwaharddiad, ac egluraf y trefniadau ar gyfer y cyfnod trawsnewid yn y man.

Mae gan y sectorau chwaraeon a chelfyddydau bum mlynedd i ddod o hyd i noddwyr newydd. Gorffennaf 2003 yw'r dyddiad a bennwyd ar gyfer diweddu nawdd i ddigwyddiadau yn y DU a'r UE. Mae hyn dair blynedd a hanner wedi i'r rheoliadau ddod i rym ac yn dilyn yr un raddfa amser ag a bennwyd yng nghyfarwydddeb yr UE. Yr ydym, felly, yn cydymffurfio â chyfarwydddeb yr UE ar y ddau gyfrif. Dim ond mewn perthynas â nifer o drefniadau trawsnewid byrdymor y mae'r amserlen a bennir yn y rheoliadau diwygiedig yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn y rheoliadau drafft. Mae a wnelo'r rhain â marchnata uniongyrchol, hyrwyddiadau gwneud argraff a rhannu brand. Ychydig yw arwyddocâd y trefniadau trawsnewid hyn o gymharu â'r ddarpariaeth newydd a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd i weithredu i orfodi'r gwaharddiad yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol. Yr wyf yn falch fod Gweithredu ar Ysmegu ac Iechyd (ASH) yma heddiw a gwn eu bod wedi croesawu'r ddarpariaeth gryfach honno.

Mae'r diwydiant tybaco, ymhell o fod wedi ei ddyhuddo fel yr awgryma Dai, yn herio'r Llywodraeth ar gyflwyniad y rheoliadau drwy

regulations through a judicial review. This is not appeasing the tobacco industry as far as the Government is concerned. Dai Lloyd has also called for the Assembly to seek powers over the regulation of tobacco advertising. However, rather than seeking additional powers on an issue that needs to be addressed on a UK basis in order to be effective, the Assembly should focus on the effective exercise of its current powers and responsibilities.

In his amendment, Dai quotes from the White Paper on tobacco, which indicated that funding for tobacco control activities in Wales would be subject to the outcome of the comprehensive spending review. Since the establishment of the Assembly, we have recognised the need to allocate money to tackle smoking. A budget of £1 million has been allocated to implement the White Paper in Wales in the current financial year. We will increase funding over the next two years. I hope you are reassured that there is a financial commitment and that you will, therefore, consider withdrawing your first amendment.

2:39 p.m.

I move on to the comprehensive plans that we must discuss. People find it very hard to give up smoking, even if they really want to, because of the addictive nature of tobacco. I am sure many in this Chamber have been in that position. This year we allocated £0.5 million for the development of new smoking cessation services to be delivered through the NHS in Wales. This funding will be increased over the next two years as services develop and if the evidence shows that they work. While all smokers wishing to quit will benefit from these activities, health authorities have been asked to pay special attention to smokers in the lowest socio-economic groups and to pregnant smokers.

Earlier this year, I announced the provision of a week's free supply of nicotine replacement therapy to those least able to

adolygiad barnwrol. Nid tawelu llid y diwydiant tybaco yw hyn o safbwynt y Llywodraeth. Mae Dai Lloyd hefyd wedi galw ar i'r Cynulliad geisio pwerau dros reoleiddio hysbysebu tybaco. Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio pwerau ychwanegol ar fater y mae angen delio ag ef ar sail Prydain gyfan i fod yn effeithiol, dylai'r Cynulliad ganolbwyntio ar ymarfer ei bwerau a'i gyfrifoldebau presennol yn effeithiol.

Yn ei welliant, mae Dai yn dyfynnu o'r Papur Gwyn ar dybaco, a awgrymodd y byddai'r cyllid ar gyfer gweithgareddau rheoli tybaco yng Nghymru'n amodol ar ganlyniad yr adolygiad gwariant cynhwysfawr. Ers sefydlu'r Cynulliad, yr ydym wedi cydnabod yr angen i glustnodi arian i fynd i'r afael ag ysmegu. Dyrannwyd cyllideb o £1 miliwn i weithredu'r Papur Gwyn yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddwn yn cynyddu'r cyllid dros y ddwy flynedd nesaf. Gobeithio eich bod yn dawlach eich meddwl fod yna ymrwymiad ariannol ac y gwnewch, felly, ystyried tynnu'ch gwelliant cyntaf yn ôl.

Symudaf ymlaen at y cynlluniau cynhwysfawr y mae'n rhaid inni eu trafod. Mae pobl yn ei chael hi'n anodd iawn rhoi'r gorau i ysmegu, hyd yn oed os ydynt yn wirioneddol awyddus i wneud hynny, oherwydd natur gaethiwus tybaco. Mae'n siŵr gennyf i fod llawer yn y Siambr hon wedi bod yn y sefyllfa honno. Eleni yr ydym wedi dyrannu £0.5 miliwn tuag at ddatblygu gwasanaethau newydd i rai sydd am roi'r gorau i ysmegu, i'w cynnig drwy'r NHS yng Nghymru. Cynyddir y cyllid dros y ddwy flynedd nesaf wrth i wasanaethau ddatblygu ac os bydd y dystiolaeth yn dangos eu bod yn gweithio. Tra bydd pob ysmygwr sydd eisiau rhoi'r gorau iddi yn elwa o'r gweithgareddau hyn, gofynnwyd i awdurdodau iechyd roi sylw arbennig i ysmygwyr yn y grwpiau sosio-economaidd isaf ac i ysmygwyr sydd yn feichiog.

Yn gynharach eleni, cyhoeddais ddarparu cyflenwad wythnos o therapi disodli nicotîn am ddim i'r rhai lleiaf abl i'w fforddio. Dylai

afford it. That should be a major boost to their efforts to stop smoking. However, it is important that these services are based in the community as well as in hospitals so that they can be easily accessed through our primary health care services. Dai Lloyd is right to stress the need to target activity in deprived areas and I accept that part of his first amendment. However, on his point of setting up health action zones, he will be aware that the Health and Social Services Committee regard the whole of Wales as a health action zone. Interestingly, the new opportunities fund, of which I was a member before becoming an Assembly Member, regarded the whole of Wales as a health action zone in terms of targeting resources for healthy living centres.

We must find flexible ways of focusing on the individual needs of local communities. The local health groups and the local health alliances that are unique to Wales, provide appropriate mechanisms to do that.

David Melding's amendment touches on the complex and important issue of the age at which smoking cessation advice and support becomes a useful tool for helping young smokers to give up. Surveys carried out in the UK suggest that most young people are aware of smoking health risks. They smoke mainly for what is described as 'mood enhancement'—social reasons at a very early age. They want to stop smoking at some point but the desire to stop is over a very long timeframe. Research shows that smoking cessation treatment strategies that work with adults may not transfer to young smokers. We must work more with young people and we are developing a pilot project on cessation strategies and young people.

We are also in discussion with tobacco specialists in other countries to decide on the most appropriate strategy. Research shows that adolescent smokers whose parents have

hynny fod yn hwb enfawr i'w hymdrechion i roi'r gorau i ysmegu. Fodd bynnag, mae'n bwysig i'r gwasanaethau hyn fod yn seiliedig yn y gymuned yn ogystal ag mewn ysbytai fel y gellir cael atynt yn hawdd drwy ein gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol. Mae Dai Lloyd yn iawn i bwysleisio'r angen i dargedu gweithgaredd mewn ardaloedd amddifad a derbynaf y rhan honno o'i welliant cyntaf. Fodd bynnag, ar ei bwynt o sefydlu parthau gweithredu iechyd, bydd yn ymwybodol fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar Gymru gyfan fel parth gweithredu iechyd. Yn ddiddorol, yr oedd y gronfa cyfleoedd newydd, yr oeddwn i'n aelod ohoni cyn dod yn Aelod o'r Cynulliad, yn edrych ar Gymru gyfan fel parth gweithredu iechyd yn nhermau targedu adnoddau ar gyfer canolfannau byw'n iach.

Rhaid inni ganfod ffyrdd hyblyg o ganolbwyntio ar anghenion unigol cymunedau lleol. Mae'r grwpiau iechyd lleol a'r cynghreiriau iechyd lleol sydd yn unigryw i Gymru yn darparu peirianweithiau priodol ar gyfer gwneud hynny.

Mae gwelliant David Melding yn cyffwrdd ar gwestiwn pwysig a chymhleth yr oedran pryd y daw cyngor a chymorth i roi'r gorau iddi yn arf defnyddiol ar gyfer helpu ysmegwyr ifainc i roi'r gorau iddi. Mae arolygon a wnaed yn y DU yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl ifainc yn ymwybodol o beryglon ysmegu i iechyd. Maent yn ysmegu'n bennaf am yr hyn a elwir yn 'ddyrchafu hwyliau'—rhesymau cymdeithasol ar oed cynnar iawn. Mae arnynt eisiau rhoi'r gorau i ysmegu rywbryd ond mae'r awydd i beidio ag ysmegu dros ffrâm amser hir iawn. Mae ymchwil yn dangos nad yw strategaethau triniaeth peidio ysmegu sydd yn gweithio gydag oedolion ddim o reidrwydd yn trosglwyddo i ysmegwyr ifainc. Rhaid inni weithio mwy gyda phobl ifainc ac yr ydym yn datblygu prosiect pilot ar strategaethau peidio a phobl ifainc.

Yr ydym yn trafod hefyd gydag arbenigwyr tybaco mewn gwledydd eraill i benderfynu ar y strategaeth fwyaf priodol. Mae ymchwil yn dangos bod ysmegwyr ifainc sydd â'u rhieni

given up smoking are twice as likely to quit as those who have a parent who still smokes. Therefore, we must work to provide cessation support for adults and their parents to influence young people. Mass media campaigns are relevant. We can increase awareness of the consequences of tobacco use to encourage smokers to consider and try quitting. Planning for a major media-led smoking cessation campaign—the Wales Quit and Win Challenge 2000—has begun and it will use that approach. Previous similar cessation campaigns in Wales have achieved 12-month quit rates of over 30 per cent, making them one of the most effective forms of cessation intervention. The National Assembly for Wales will continue to support the UK No Smoking Day campaign. Each year this successful campaign has estimated that 1,600 smokers in Wales gave up for good. A bilingual freephone helpline service will be launched in Wales in time for No Smoking Day 2000. That service will add to the effectiveness of other cessation initiatives like Quit and Win and No Smoking Day. We must place considerable emphasis on measures to stop young people starting to smoke.

It is important that there are educational campaigns to make young people aware of the health risks of smoking. I have already mentioned the smokebusters project, a children's club for nine to 11 year-olds which aims to show that not smoking is normal and fun.

Two prevention projects are being run in secondary schools. One, the smoke-free class, is a competition aimed at 11 to 13 year-olds. This project is designed to use positive peer pressure to encourage young people not to smoke. It rewards classes in which pupils remain smoke-free for the five-month competition period. Tobacco action groups form the second school-based project that tackles young people smoking. These

wedi rhoi'r gorau i ysmygu yn ddwy waith mwy tebygol o roi'r gorau iddi na'r rheini sydd â rhiant sydd yn dal i ysmygu. Felly, rhaid inni weithio i ddarparu cefnogaeth i roi'r gorau iddi i oedolion a'u rhieni er mwyn dylanwadu ar bobl ifainc. Mae ymgyrchoedd yn y cyfryngau torfol yn berthnasol. Gallwn gynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau defnyddio tybaco i annog ysmygwyr i ystyried a rhoi cynnig ar roi'r gorau iddi. Dechreuwyd cynllunio ar gyfer ymgyrch fawr a arweinir gan y cyfryngau—'Wales Quit and Win Challenge 2000'—a bydd yn defnyddio'r agwedd honno. Mae ymgyrchoedd tebyg yn y gorffennol yng Nghymru i gael pobl i roi'r gorau i ysmygu wedi llwyddo i gael cyfraddau ymwrthod am 12 mis o dros 30 y cant, sydd yn golygu mai dyma un o'r ffurfiau mwyaf effeithiol ar gael pobl i roi'r gorau iddi. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i gefnogi Diwrnod Dim Ysmygu y DU. Bob blwyddyn mae'r ymgyrch lwyddiannus hon wedi amcangyfrif fod 1,600 o ysmygwyr yng Nghymru wedi rhoi'r gorau iddi am byth. Caiff llinell gymorth ddwyieithog sydd yn rhad ac am ddim ei lansio yng Nghymru mewn pryd ar gyfer Diwrnod Dim Ysmygu 2000. Bydd y gwasanaeth hwnnw'n ychwanegu at effeithiolrwydd cynlluniau ymatal eraill fel 'Quit and Win' a Diwrnod Dim Ysmygu. Rhaid inni roi pwyslais sylweddol ar fesurau i atal pobl ifainc rhag dechrau ysmygu.

Mae hi'n bwysig cael ymgyrchoedd addysgol i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifainc o beryglon ysmygu i ieuchyd. Yr wyf eisoes wedi sôn am brosiect mygu mwg, clwb i blant 9 i 11 oed sydd yn ceisio dangos bod peidio ag ysmygu'n normal ac yn hwyl.

Mae dau brosiect atal yn cael eu rhedeg mewn ysgolion uwchradd. Cystadleuaeth i blant 11 i 13 oed yw un, sef y dosbarth di-fwg. Amcan y prosiect hwn yw defnyddio pwysau cadarnhaol gan gyfoedion i annog pobl ifainc i beidio ag ysmygu. Mae'n gwobrwyo dosbarthiadau lle mae disgyblion yn aros yn ddi-fwg am gyfnod pum mis y gystadleuaeth. Grwpiau gweithredu ar dybaco yw'r ail brosiect ysgol sydd yn mynd

have been piloted in two areas of Wales, Gwynedd and Swansea. If you represent those areas, you may know of them. The initiative's focus is to give young people a say in developing approaches to tobacco that embrace the school and the community.

The other major element in reducing smoking among young people relates to the sale of cigarettes. It is illegal to sell cigarettes to children under the age of 16. We must work closely with our local authority colleagues in the public protection departments to develop a range of briefing materials for retailers to ensure that retailers are aware of that statutory responsibility and of the consequences of smoking for the future health of the young people to whom they sell cigarettes.

It should be noted that introducing the tobacco ban will have a major impact on young people smoking. The UK hospitality trade has responded to the challenge to provide smoke-free areas with the Public Places Charter. I discussed that Charter in my last question time. It will enable the public to identify whether they can or cannot smoke in the places where they want to eat or spend leisure time. In Wales, it is proposed that we work with owners and managers of a wide range of public places to develop a voluntary code of practice. That would enable people using sports stadia's leisure facilities, shopping centres and other such places to exercise choice as to whether or not they breathed in other people's tobacco smoke.

We must adopt a collaborative approach based on partnership and alliance-building. The newly-formed local health alliances at local authority and community level are of prime importance in bringing about a co-ordinated and cohesive response at a local level. One example of this is the Pembrokeshire Alliance for Health, which brought together young people, trading standards officers and others to examine the sale of cigarettes to young people. They are

i'r afael â phobl ifainc yn ysmegu. Peilotwyd y rhain mewn dwy ardal yng Nghymru, sef Gwynedd ac Abertawe. Os ydych chi'n cynrychioli'r ardaloedd hynny, efallai eich bod yn gwybod amdanynt. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar roi llais i bobl ifainc mewn datblygu dulliau o ddelio â thybaco sydd yn cynnwys yr ysgol a'r gymuned.

Mae'r elfen bwysig arall wrth leihau ysmegu ymysg pobl ifainc yn ymwneud â gwerthu sigarêts. Mae'n anghyfreithlon gwerthu sigarêts i blant dan 16 oed. Rhaid inni gydweithio'n agos â staff adrannau gwarchod y cyhoedd yn yr awdurdodau lleol i ddatblygu amrediad o ddeunyddiau briffio i siopwyr er mwyn sicrhau bod siopwyr yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb statudol hwnnw ac o ganlyniadau ysmegu i iechyd y bobl ifainc y maent yn gwerthu'r sigarêts iddynt yn y dyfodol.

Dylid nodi y bydd cyflwyno'r gwaharddiad ar dybaco yn cael effaith fawr ar ysmegu ymhlith pobl ifainc. Mae diwydiant lletygarwch y DU wedi ymateb i'r her i ddarparu mannau di-fwg gyda'r Siarter Mannau Cyhoeddus. Trafodais y Siarter hwnnw yn fy sesiwn gwestiynau ddiwethaf. Bydd yn golygu y gall y cyhoedd weld a allant ysmegu ai peidio yn y mannau lle mae arnynt eisiau bwyta neu dreulio amser hamdden. Yng Nghymru, cynigir ein bod yn gweithio gyda pherchenogion a rheolwyr amrediad eang o leoedd cyhoeddus i ddatblygu côd ymarfer gwirfoddol. Byddai hyn yn galluogi pobl sydd yn defnyddio cyfleusterau hamdden stadiymau chwaraeon, canolfannau siopa a lleoedd eraill tebyg i ddewis a ydynt am anadlu mwg tybaco pobl eraill ai peidio.

Rhaid inni arddel dull cydweithredol seiliedig ar bartneriaeth ac adeiladu clymbleidiau. Mae'r cynghreiriau iechyd lleol sydd newydd eu ffurfio ar lefel awdurdod lleol a chymuned yn bwysig dros ben o ran sicrhau ymateb cydgysylltiedig a chydlynol ar lefel leol. Un enghraifft o hyn yw Cynghrair Iechyd Sir Benfro, a ddaeth â phobl ifainc, swyddogion safonau masnach ac eraill at ei gilydd i edrych ar werthu sigarêts i bobl ifainc. Maent yn datblygu

developing a local action plan on a range of tobacco issues. I hope other health alliances will take note.

The voluntary sector's contribution is also important. Representatives of voluntary organisations are here today. ASH in Wales, Tenovus and the British Heart Foundation already play an important role as advocates for tobacco control and sources of information and support for those trying to give up smoking.

Reducing the level of tobacco-related premature deaths and disease can only be achieved by reducing the number of people who smoke. That is not an easy task. However, I am confident that the comprehensive measures I have described—based on experience and current best practice—which will be implemented by organisations across all sectors working in partnership, and involve young people, adults and communities, will provide young people with the knowledge and skills they need to resist taking up smoking. Those measures will also give adult smokers the support they need to break free from tobacco.

Brian Gibbons: Point of order.

The Presiding Officer: It would be helpful if David Lloyd could move his amendments before we have points of order.

Brian Gibbons: My point of order is on one of the amendments.

The Presiding Officer: We should proceed. Your point of order may be explained in the course of the debate.

David Lloyd: Cynigiaf fy ngwelliant cyntaf, fod y canlynol yn cael ei ychwanegu ar ôl ail gymal y cynnig:

yn cefnogi'r pwyslais a geir yn y Papur Gwyn ar dybaco ar dargedu, fel mater o flaenoriaeth, y lefelau uwch o ysmegu a geir mewn ardaloedd tlawd ac amddifad;

cynllun gweithredu lleol ar amrediad o faterion tybaco. Gobeithio y bydd cynghreiriau iechyd eraill yn cymryd sylw.

Mae cyfraniad y sector gwirfoddol yn bwysig hefyd. Mae cynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol yma heddiw. Mae Gweithredu ar Ysmegu ac Iechyd yng Nghymru, Tenovus a Sefydliad Prydeinig y Galon eisoes yn chwarae rhan bwysig fel eiriolwyr dros reoli tybaco a ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth i rai sydd yn ceisio rhoi'r gorau i ysmegu.

Yr unig ffordd i ostwng lefel y marwolaethau cynnar a'r afiechydon cysylltiedig â thybaco yw gostwng nifer y bobl sydd yn ysmegu. Nid yw hynny'n dasg hawdd. Fodd bynnag, yr wyf yn hyderus y bydd y mesurau cynhwysfawr a ddisgrifiais—ar sail profiad a'r ymarfer gorau ar hyn o bryd—a weithredir gan gyrff ar draws pob sector yn cydweithio mewn partneriaeth, ac yn rhoi rhan i bobl ifainc, oedolion a chymunedau, yn darparu i bobl ifainc y wybodaeth a'r sgiliau y maent eu hangen i allu gwrthsefyll y demtasiwn i ddechrau ysmegu. Bydd y mesurau hyn hefyd yn rhoi i oedolion sydd yn ysmegu y gefnogaeth y maent ei hangen i dorri'n rhydd oddi wrth dybaco.

Brian Gibbons: Pwynt o drefn.

Y Llywydd: Byddai o gymorth pe gallai David Lloyd gynnig ei welliannau cyn inni gael pwyntiau o drefn.

Brian Gibbons: Ar un o'r gwelliannau y mae fy pwynt o drefn.

Y Llywydd: Dylem fynd yn ein blaenau. Efallai y caiff eich pwynt o drefn ei egluro yng nghwrs y drafodaeth.

David Lloyd: I propose my first amendment, that the following be added after clause two of the motion:

supports the tobacco White Paper's emphasis on targeting, as a priority, the higher smoking levels in poor and deprived areas;

yn penderfynu y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried sefydlu parthau gweithredu iechyd yng Nghymru er mwyn eu defnyddio i ganolbwyntio ar amcanion y Papur Gwyn ar dybaco;

resolves that the Health and Social Services Committee should consider the setting up of health action zones in Wales through which to focus the objectives of the tobacco White Paper;

a bod y canlynol yn cael ei ychwanegu ar ôl trydydd cymal y cynnig:

and that the following be added after clause three of the motion:

yn nodi bod y Papur Gwyn yn cyhoeddi yn 1999 i 2000 y bydd y parthau gweithredu iechyd yn Lloegr yn derbyn £10 miliwn wedi'i neilltuo yn arbennig ar gyfer gwasanaethau'r NHS i helpu i roi'r gorau i ysmegu. Bydd y cyllid yn cynyddu i £20 miliwn yn yr ail flwyddyn, ac i £30 miliwn yn y drydedd;

notes that the White Paper announces that in 1999 to 2000 the health action zones in England will receive £10 million ring-fenced especially for NHS smoking cessation services. Funding will be increased to £20 million in year two and £30 million in year three;

yn nodi bod y Papur Gwyn yn crybwyll bod y cyllido yng Nghymru yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant;

notes that the White Paper mentions that in Wales funding is subject to the outcome of the comprehensive spending review;

yn galw ar Gabinet y Cynulliad i geisio cyllid ychwanegol ar gyfer darparu camau o'r fath yng Nghymru.

calls on the Assembly Executive to seek additional funding for the provision of such measures in Wales.

Cyngiaf hefyd fy ail welliant, fod y canlynol yn cael ei ychwanegu ar ôl trydydd cymal y cynnig:

I also propose my second amendment, that the following be added after clause three of the motion:

yn gresynu at ddyhuddiad Llywodraeth y DU o'r diwydiant tybaco drwy ganiatáu consesiynau ar y gwaharddiad cyffredinol ar hysbysebu tybaco a gyhoeddwyd ganddi yn gynharach, ac a ddylai ddod i rym ym mis Rhagfyr 1999;

deplores the UK Government's appeasement of the tobacco industry in granting concessions on the blanket ban on tobacco advertising it had earlier declared would take effect from December 1999;

yn beirniadu'r cyfnod pum mlynedd a roddwyd i'r sector chwaraeon a sector y celfyddydau i ddod o hyd i noddwyr eraill yn lle'r diwydiant tybaco, a hynny ar y sail ei fod yn gyfnod rhy hir;

criticises the overly lengthy five-year period given to the sports and arts sectors to find alternative sponsors to the tobacco industry;

yn galw ar Gabinet y Cynulliad i geisio pwerau dros reoleiddio hysbysebu tybaco.

calls on the Assembly Executive to seek powers over the regulation of tobacco advertising.

Gobeithiaf y bydd yr hyn sydd gennyf i'w ddweud yn ystod y munudau nesaf yn esbonio pethau i Brian ac yn cadw fy nghydfeddyg yn hapus ynghylch y pwyntiau hyn.

I hope that what I have to say in the next few minutes will explain things to Brian and keep my fellow doctor happy about these points.

2:49 p.m.

Croesawaf y Papur Gwyn ar dybaco. Mae'r rhai ohonoch sydd yn fy adnabod yn dda yn gwybod nad wyf yn tueddu i dreulio fy amser yn darllen Papurau Gwyn y Llywodraeth. Fodd bynnag, yr wyf wedi treulio cryn dipyn o amser yn darllen hwn. I fod yn deg, mae'n Bapur Gwyn da ac nid oes clod rhy uchel iddo. Fel Plaid, yr ydym yn cefnogi'r cynnig, ond mae fy ngwelliannau yn ceisio ei gryfhau.

Fel meddyg teulu ers dros 15 mlynedd yn Abertawe, yr oeddwn yn gweld sgîl effeithiau ysmegu bob dydd. Mae 120,000 o farwolaethau bob blwyddyn o ganlyniad i ysmegu. Yr ydych wedi clywed llawer o ystadegau a ffeithiau, ond pan ddewch wyneb yn wyneb â phobl sydd yn dioddef ac sydd yn rhan o'r ystadegau hynny, mae'n tueddu i liwio eich meddwl. Fel pobl, ni ddylem fod yn ddim ond ystadegau ac yr wyf am gryfhau'r cynnig er mwyn inni weithredu o ddifrif yn erbyn ysmegu.

Mae 32 y cant o bobl Cymru yn ysmegu. Dyna'r ganran fwyaf, ynghyd â'r Alban. Credaf fod 26 y cant o bobl Lloegr yn ysmegu. Felly, mae mwy o alw am weithredu llymach yng Nghymru oherwydd ein bod yn ysmegu mwy.

O'r 120,000 o farwolaethau y cyfeiriais atynt, yr oedd 7,100 yng Nghymru. Golyga hynny, ar raddfa ystadegol, os cymerwch grŵp o fil o ysmygwyr 20 oed, y bydd un ohonynt yn cael ei lofruddio, y bydd chwech yn marw mewn damweiniau ceir ac y bydd 250 ohonynt yn marw yn eu canol oed o ganlyniad i ysmegu. Ar ben hynny, bydd 250 yn marw yn eu henaint o ganlyniad i ysmegu. Hynny yw, mae tybaco yn lladd un o bob dau o'r sawl sydd yn ei ddefnyddio yn y tymor hir. Nid yw'r ystadegau hynny'n wir am unrhyw gyffur arall.

Gwelaf amrywiaeth o glefydau o ganlyniad i ysmegu. Un enghraifft yw cancer yr ysgyfaint. Yr ydym i gyd wedi clywed am hwnnw ac mae dros 35,000 o achosion ohono ym Mhrydain bob blwyddyn. Mae eraill yn cynwys clefyd y galon, bronchitis a chlefyd cronig ataliol yr ysgyfaint. Achosir ystod eang o glefydau yn uniongyrchol gan

I welcome the White Paper on tobacco. Those of you who know me well know that I do not tend to spend my time reading the Government's White Papers. However, I have spent quite a bit of time reading this. To be fair, it is a good White Paper and I cannot praise it too highly. As a Party, we support the motion, but my amendments endeavour to strengthen it.

As a general practitioner for over 15 years in Swansea, I saw the side effects of smoking every day. There are 120,000 deaths each year as a result of smoking. You have heard many statistics and facts, but when you come face to face with people who suffer and who are part of these statistics, it tends to colour your opinion. As people, we should not be only statistics and I want to strengthen the motion so that we can act seriously against smoking.

Thirty two per cent of the people of Wales smoke. That is the highest percentage, along with Scotland. I believe that 26 per cent of the people of England smoke. Therefore, there is a greater demand for stricter action in Wales because we smoke more.

Of the 120,000 deaths to which I referred, 7,100 were in Wales. That means that, on a statistical scale, if you take a group of a thousand 20-year-old smokers, one of them will be murdered, six will die in car accidents and 250 will die in middle age because of smoking. In addition, another 250 will die in old age because of smoking. That is, tobacco kills one in two of those who use it in the long term. Those statistics are not true of any other drug.

I see a variety of diseases as a result of smoking. One example is lung cancer. We have all heard of that and there are over 35,000 such cases in Britain each year. Others include heart disease, bronchitis and chronic obstructive lung disease. A wide range of diseases is caused directly by smoking. Circulation of the blood, stomach

ysmygu. Cylchrediad y gwaed, wlseri yn eich stumog—enwch bron unrhyw glefyd ac mae'n cael ei waethygu neu ei achosi yn y lle cyntaf gan ysmygu.

Dylem hefyd sôn am ysmygu goddefol, sydd yn achosi cancer mewn rhai nad ydynt yn ysmygu. Fel meddygon, yr oeddem yn dechrau pendroni pam yr oedd pobl nad oeddent yn ysmygu yn cael mathau o ganser a ddioddefir gan ysmygwyr yn unig. Profwyd erbyn hyn fod rhwng 20 a 30 y cant o bobl sydd yng nghanol mwg rhywun arall yn y tymor hir hefyd yn cael cancer yr ysgyfaint a chanser rhannau eraill o'r corff. Mae'n bwysig nodi'r pwynt hwnnw. Dyna pam yr wyf yn croesawu unrhyw ymgais i leihau ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Ni allwn wneud hynny dros nos; mae angen gweithredu ar hynny. Yn sylfaenol, gall mwg rhywun ladd person arall sydd wedi penderfynu peidio ag ysmygu. Nid yw hynny'n deg.

Mae ysmygu yn fwy cyffredin ymhlith pobl dlotaf ein cymdeithas a dyna yw byrdwn un o'n gwelliannau. Pobl dlotaf, fwyaf anghenus ein cymunedau sydd yn dueddol o ysmygu. Mae oddeutu 40 y cant o ddynion dosbarth gweithiol a di-fedr yn ysmygu o'i gymharu â'r 12 y cant o ddynion proffesiynol sydd yn ysmygu. Gyda llaw, mae llai na 3 y cant o feddygon yn ysmygu. Yn y Papur Gwyn ar dybaco, croesawaf y flaenoriaeth a roddir i bobl ddifreintiedig. Hwyl sydd yn ysmygu drymaf a hwy sydd leiaf tebygol o allu fforddio sigaréts. Dyna paham y mae byrdwn y neges yn y Papur Gwyn ar y parthau gweithredu iechyd. Mae conglaen y neges a'r cymorth a gynigir wedi eu seilio ar y parthau gweithredu iechyd hyn.

Papur y Deyrnas Unedig yw hwn ac mae Cymru bob amser yn destun rhyw nodyn bach yn y print mân ar waelod y tudalennau. Nid oes gennym barthau gweithredu iechyd yng Nghymru ond mae'n bolisi gan Blaid Cymru. Mae'n bolisi da iawn sydd yn weithredol yn Lloegr. Mae 26 o barthau gweithredu iechyd yn Lloegr, yn yr ardaloedd tlotaf a mwyaf difreintiedig. Mae modd blaenoriaethu cymorth penodedig i'r ardaloedd sydd fwyaf ei angen. Gallwch

ulcers—name almost any disease and it is worsened or caused in the first place by smoking.

We should also mention passive smoking, which causes cancer in non-smokers. As doctors, we were starting to wonder why non-smokers were suffering from types of cancers from which only smokers suffer. It has now been proven that between 20 and 30 per cent of people who are in the middle of someone else's smoke in the long term also suffer from lung cancer and cancer of other parts of the body. It is important to note that point. That is why I welcome any effort to cut down on smoking in public places. We cannot do it overnight; we need to act. Fundamentally, one person's smoke can kill another person who has decided not to smoke. That is unfair.

Smoking is more common among poor people in our communities and that is the burden of one of our amendments. It is the poorest and most needy people in our communities who tend to smoke. About 40 per cent of unskilled working class men smoke compared with the 12 per cent of professional men who are smokers. By the way, less than 3 per cent of doctors smoke. In the White Paper on tobacco, I welcome the priority given to deprived people. They are the heaviest smokers and are the least able to afford cigarettes. That is why the emphasis of the message in the White Paper is on these health action zones. The cornerstone of the message and the assistance offered are based on these health action zones.

This is a paper for the United Kingdom and Wales is always the subject of some small note in the small print on the bottom of the pages. We do not have health action zones in Wales but it is a Plaid Cymru policy. It is a very good policy which is implemented in England. There are 26 health action zones in England, in the poorest and most deprived areas. It is possible to prioritise specific help for the areas of most need. Help can be targeted in the first place. I am trying to do

dargedu'r cymorth yn y lle cyntaf. Yr wyf yn ceisio gwneud hyn â'r cynnig yma. Yr wyf am weld polisi cyfatebol yng Nghymru. Cynhwysir hyn yn y Papur Gwyn dros Loegr ac ni ddylem dderbyn gwaeth cymorth yng Nghymru o gofio ein bod yn ysmegu mwy ac angen mwy o gymorth, nid llai.

Croesawaf gyfeiriad Jane am yr ariannu. Serch hynny, mae'r pwynt ynglŷn â'r arian wedi ei gyplysu â'r parthau gweithredu iechyd. Yr wyf am bwysleisio hynny gan gofio nad yw fy Saesneg yn berffaith fel ail iaith. Hoffem weld yr ariannu yn mynd yn unswydd i greu'r parthau gweithredu iechyd hyn. Mae'r gwelliant yn gofyn inni drafod y pwynt hwn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwsanaethau Cymdeithasol. Yr wyf yn ymwybodol ein bod wedi sôn am hynny o bryd i'w gilydd. Serch hynny, byddwn yn croesawu trafodaeth yn y Pwyllgor hwnnw ar barthau gweithredu iechyd.

Yn yr un modd â Lloegr, gallem dargedu ysmygwyr a rhoi cymorth arbenigol megis cwnsela a darparu clytiau therapi disodli nicotîn, sydd yn rhad ac am ddim am wythnos. Mae hynny i'w groesawu. Credwn, serch hynny, y dylai fod yna becyn penodol ar gyfer y bobl fwyaf difreintiedig yn eu parthau gweithredu iechyd. Bydd angen ariannu hynny a gofynnwn am hynny yn y gwelliannau.

Ar ôl i Norwy, y Ffindir a Gwlad yr Iâ roi'r gorau i hysbysebu tybaco yn y saithdegau, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysmygwyr yn y gwledydd hynny. Mae hysbysebu yn darbwyllo pobl i ysmegu. Felly, gresyn a siom oedd darganfod bod y Llywodraeth yn fodlon parhau i hysbysebu am flwyddyn arall ar ôl cytuno y byddai'n dod i ben fis Rhagfyr eleni. Mae'n warthus ein bod yn parhau i hysbesbu. Mae'r mwyafrif o hysbysebion wedi eu hanelu at ein plant a'n pobl ifainc. Dyma'r rhai sydd yn fwyaf parod i ddechrau ysmegu. Gan fod 82 y cant o ysmygwyr yn dechrau ysmegu tra'n blant neu'n bobl ifainc, dros y blynyddoedd mae'r cwmnïau tybaco mawrion wedi anelu eu hysbysebion at bobl ifainc. Bu'r hysbysebu hwn yn llwyddiannus, o gofio'r ystadegau yng Nghymru a Lloegr. Mae traean o ferched 15 mlwydd oed yn

that with this motion. I want to see a corresponding policy in Wales. This is included in the White Paper for England and the help that we receive in Wales should not be inferior bearing in mind that we smoke more and need more help, not less.

I welcome Jane's reference to the funding. However, the point about the funding is connected to the health action zones. I want to emphasise that bearing in mind that my English as a second language is not perfect. We want to see the funding going directly to the creation of these health action zones. The amendment asks us to discuss this point in the Health and Social Services Committee. I am aware that we have mentioned this from time to time. However, I would welcome a discussion in that Committee on the health action zones.

In the same way as England, we could target smokers and give them specialist assistance such as counselling and providing nicotine replacement therapy patches which are free for a week. We welcome that. However, we believe that there should be a specific package for our most deprived people in their health action zones. This will require funding and we ask for that in the amendments.

When Norway, Finland and Iceland stopped advertising tobacco in the seventies, there was a substantial decrease in the number of smokers in those countries. Advertising persuades people to smoke. Therefore, it was regrettable and disappointing to learn that the Government was willing to continue with advertising for another year after agreeing that it would come to an end in December of this year. It is disgraceful that we are continuing to advertise. Most advertisements are aimed at our children and young people. It is they who are most willing to start smoking. Since 82 per cent of smokers start smoking as children or young people, the major tobacco companies have over the years aimed their advertisements at young people. This advertising has been successful, given the figures in Wales and in England. A third

ysmygu. Mae'n werth cofio'r ystadegyn hwn pan gytunwn fod ymestyn hysbysebu yn syniad da. Mae hefyd yn werth ei gofio os penderfynwch bleidleisio yn erbyn ein gwelliant. Dylid ei gofio hefyd o ystyried y 7,100 o bobl sydd yn marw'n flynyddol yng Nghymru o effaith ysmygu.

2:59 p.m.

Gresynaf fod gan y cwmnïau sydd yn ceisio canfod nawdd yn y gwahanol chwaraeon, megis snwcer, bum mlynedd i ddod â'u cytundebau i ben. Yr wyf yn sicr fod nifer fawr o chwaraeon yn newid eu cytundebau yn amlach na phob pum mlynedd. Mae pum mlynedd yn ormod o amser i'w roi i gwmnïau ddarganfod nawdd arall, a dyna pam y caiff hyn ei gynnwys yn y gwelliant. Mae'r nawdd yn sylweddol ac mae hynny yn rhan o'r broblem. Mae'r arian mawr hwn yn dylanwadu ar bobl ac yn peri iddynt fod yn ddibynnol arno. Gresynaf y bydd pum mlynedd yn mynd heibio heb unrhyw newid i nawdd ym myd chwaraeon. Ni soniaf am Bernie Ecclestone a rasio Fformwla Un eto yr wythnos hon.

Meddyg ydwyf, ac mae fy meddyliau ynglŷn ag iechyd wedi eu creu gan y bobl y bŵm yn delio â hwy dros y blynyddoedd. Mae'r bobl hyn yn parhau i ddod â'u cwynion a'u clefydau ataf, a nifer fawr o'r rheini wedi eu hachosi gan ysmygu. Bydd pobl yn gofyn o hyd i feddygon beth y maent yn ei wneud ynghylch yr holl glefydau hyn. Ein hateb yw ein bod yn ceisio atal y pethau hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf, yn hytrach na'u trin. Ys dywed y Sais, *prevention is better than cure*. Dyna paham yr ydym mor gadarn yn erbyn ysmygu. Nid oes lle yma i gyfaddawdu gan ein bod yn delio ag iechyd pobl, â chlefydau megis canser, clefyd cronig ataliol yr ysgyfaint, emffysema, wlsrau a chlefydau eraill sydd yn ymwneud â chylchrediad y gwaed. Mae'r rhain yn glefydau difrifol sydd yn achosi miloedd o farwolaethau yn flynyddol. Nid mater o ystyried ystadegau yn oer ar bapur yw hwn. Yr ydym yn delio â bywydau pobl. Mae'n warth ein bod yn caniatáu hysbysebu cyffur sydd yn achosi'r fath ddioddefaint. Cefnogwch y cynnig a'r

of 15-year-old girls smoke. It is worth remembering this statistic when we agree that extending advertising is a good idea. It is also worth remembering if you decide to vote against our amendment. It should also be remembered given the 7,100 people who die annually in Wales due to the effect of smoking.

I regret that companies who seek sponsorship in the various sports, such as snooker, have five years in which to bring their contracts to an end. I am sure that many sports change their contracts more frequently than every five years. Five years is too long a time to allow companies to find other sponsors, and that is why this is included in the amendment. The sponsorship is substantial and that is part of the problem. This large amount of money influences people and makes them dependent upon it. I regret that five years will elapse before there is any change in sponsorship in the sports world. I will not mention Bernie Ecclestone and Formula One racing again this week.

I am a doctor, and my thoughts on health have been formed by the people I have dealt with over the years. These people continue to bring their complaints and illnesses to me, and many of those have been caused by smoking. People continuously ask doctors what they are doing about all these diseases. Our answer is that we try to prevent these things from occurring in the first place, rather than treating them. Prevention is better than cure, as the English say. That is why we are so firm against smoking. There is no scope for compromise here as we are dealing with people's health, with diseases such as cancer, chronic obstructive pulmonary disease, emphysema, ulcers and other diseases relating to blood circulation. These are serious diseases that cause thousands of deaths every year. This is not a matter of coldly considering statistics on paper. We are dealing with people's lives. It is a disgrace that we allow the advertising of a drug that causes such suffering. Support the motion and all the amendments.

gwelliannau oll.

The Presiding Officer: Before calling on David Melding to propose his amendment I will allow Brian Gibbons to pursue his point of order, if he still wishes to do so.

Brian Gibbons: Dai's words underpin my concern, as it is clear from what he says that he does not want to introduce smoking action zones. However, he wants to bring health action zones—a particular form of health care policy in England—into this resolution. It is inappropriate that a debate and amendments which are focusing on the tobacco industry and diseases caused by tobacco should deal with another major policy issue. If Dai wanted to discuss health action zones he should bring a resolution to that effect before the Assembly. He should not try to piggy-back it on a tobacco debate. I would be grateful if you could rule the second clause of amendment one out of order.

The Presiding Officer: I cannot rule the second point of amendment one out of order because it has been accepted as an amendment that is in order. It may be that it is of a wider ranging subject but it is in order.

The First Secretary: Further to that point of order. It may be something that cannot be dealt with adequately today but I ask the Presiding Officer to consider this point. A motion that is to determine what is acceptable and unacceptable and has been accepted and written on the order paper puts too heavy a burden on the officials in the office of the Presiding Officer. It is common, for example in the House of Commons, for things to be accepted as being within the normal form of acceptance, but if they are challenged that challenge is considered. It may be realised that something goes wider than the terms of the original motion. Brian has a point that we must consider. Otherwise, you could table anything as an amendment to any motion, however specific. Whether or not it is vital in this case, it is a matter that we must consider with care.

Y Llywydd: Cyn galw ar David Melding i gynnig ei welliant ef, yr wyf am ganiatáu i Brian Gibbons fynd ymlaen â'i bwynt o drefn, os yw'n dal i ddymuno gwneud hynny.

Brian Gibbons: Mae geiriau Dai'n tanlinellu fy mhryder i, gan ei bod yn glir o'r hyn a ddywedodd nad oes arno eisiau cyflwyno parthau gweithredu ar ysmegu. Fodd bynnag, y mae arno eisiau cynnwys parthau gweithredu iechyd—ffurf arbennig ar bolisi gofal iechyd yn Lloegr—yn y penderfyniad hwn. Mae'n amhriodol fod dadl a gwelliannau sydd yn canolbwyntio ar y diwydiant tybaco ac afiechydon a achosir gan dybaco yn delio â chwestiwn polisi mawr arall. Os oes ar Dai eisiau trafod parthau gweithredu iechyd dylai ddod â chynnig i'r perwyl hwnnw gerbron y Cynulliad. Ni ddylai geisio ei impio ar gefn dadl ar dybaco. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddyfarnu bod ail gymal y gwelliant cyntaf allan o drefn.

Y Llywydd: Ni allaf ddyfarnu bod ail bwynt gwelliant un allan o drefn oherwydd y mae wedi ei dderbyn fel gwelliant sydd yn dderbyniol. Efallai fod ei bwnc yn ehangach ond y mae'n dderbyniol.

Y Prif Ysgrifennydd: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn. Efallai nad yw'n rhywbeth y gellir delio ag ef yn ddigonol heddiw, ond gofynnaf i'r Llywydd ystyried y pwynt hwn. Mae cynnig sydd i benderfynu beth sydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol ac wedi ei dderbyn a'i ysgrifennu ar y papur trefn yn gosod baich rhy drwm ar y swyddogion yn swyddfa'r Llywydd. Mae'n gyffredin, er enghraifft yn Nhŷ'r Cyffredin, i bethau gael eu derbyn fel pethau sydd o fewn yr hyn y gellir ei dderbyn yn arferol, ond os cânt eu herio yna caiff yr her honno ei hystyried. Efallai y sylweddolir bod rhywbeth yn mynd ymhellach na thermâu'r cynnig gwreiddiol. Mae gan Brian bwynt y mae'n rhaid inni ei ystyried. Fel arall, gallech gyflwyno unrhyw beth fel gwelliant i unrhyw gynnig, waeth pa mor benodol. P'run ai a ydyw'n hanfodol ai peidio yn yr achos hwn, mae'n fater y mae'n rhaid inni ei ystyried yn ofalus.

The Presiding Officer: I am grateful to the First Secretary. Under Standing Order No. 6.13, my duties and responsibilities and those of my office are clear. I could only decline to select an amendment if I considered that the proper conduct of Assembly business would make it inappropriate to do so. I did not consider that that was the case with this amendment. I am not happy about amendments being re-ordered or separated during a debate. I have had similar requests on many occasions. This may be something that we can consider when reviewing our procedures and Standing Orders through the Business Committee and through my office. We can also consider whether there are appropriate amendments to Standing Orders, which the Business Committee might agree on as this point relates to Standing Order No. 6.13. This does not mean that Brian Gibbons has lost the opportunity to contribute to this debate because we are not under heavy pressure for time today.

David Melding: I propose the following amendment. Insert after clause three:

notes that most smokers acquire the habit as teenagers, and therefore particularly supports measures to encourage children and young people who smoke to give up.

I welcome publication of the White Paper on tobacco. It highlights two concerns that I share. Firstly, the number of adults who smoke has stopped falling. We must reflect on that because many people have heard the message but have not taken the action that perhaps they would like to take to stop smoking. We must look at mechanisms to help them and ask ourselves why it is such an enduring fact of 20th century life that people smoke tobacco.

Secondly, the number of children who smoke is increasing in Great Britain and in Wales. This is my major concern about future measures to persuade people not to smoke. My amendment focuses on children and young people. I welcome the attention that

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd. Dan Reol Sefydlog Rhif 6.13, mae fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau i a fy swyddfa'n glir. Ni allwn ond gwrthod dewis gwelliant pe bawn o'r farn fod y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad yn ei gwneud yn briodol gwrthod. Nid oeddwn o'r farn fod hynny'n wir gyda'r gwelliant hwn. Nid wyf yn hapus ynghylch ad-drefnu neu wahanu gwelliannau yn ystod dadl. Yr wyf wedi cael ceisiadau tebyg ar sawl achlysur. Efallai bod hyn yn rhywbeth y gallwn ei ystyried pan fyddwn yn adolygu'n gweithdrefnau a'n Rheolau Sefydlog drwy'r Pwyllgor Busnes a thrwy fy swyddfa i. Gallwn ystyried hefyd a oes gwelliannau priodol i'r Rheolau Sefydlog, y gallai'r Pwyllgor Busnes gytuno arnynt gan fod y pwynt hwn yn ymwneud â Rheol Sefydlog Rhif 6.13. Nid yw hyn yn golygu bod Brian Gibbons wedi colli'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon gan nad ydym dan bwysau trwm o ran amser heddiw.

David Melding: Yr wyf yn cynnig y gwelliant canlynol. Ychwaneger ar ôl cymal tri:

yn nodi bod y rhan fwyaf o ysmygwyr yn magu'r arferiad yn eu harddegau, ac mae, felly, yn arbennig o gefnogol i fesurau i annog plant a phobl ifainc sydd yn ysmegu i roi'r gorau iddi.

Yr wyf yn croesawu cyhoeddi'r Papur Gwyn ar dybaco. Mae'n amlygu dau bryder a rennir gennyf i. Yn gyntaf, mae'r nifer o oedolion sydd yn ysmegu wedi peidio â chwympo. Rhaid inni fyfyrion ar hynny oherwydd mae llawer o bobl wedi clywed y neges ond heb weithredu fel yr hoffent efallai i roi'r gorau i ysmegu. Rhaid inni edrych ar fecanweithiau i'w helpu, ac ymholi pam y mae'n ffaith mor barhaol ym mywyd yr 20fed ganrif fod pobl yn ysmegu tybaco.

Yn ail, y mae'r nifer o blant sydd yn ysmegu ar gynnydd ym Mhrydain Fawr ac yng Nghymru. Dyna fy mhrif bryder ynghylch mesurau i'r dyfodol i berswadio pobl i beidio ag ysmegu. Mae fy ngwelliant yn canolbwyntio ar blant a phobl ifainc. Yr wyf

the White Paper gives to the issue of children and smoking. My comments are meant to be entirely constructive. I am grateful that Jane Hutt accepted my amendment, which was tabled as an attempt to strengthen this motion. Eighty two per cent of smokers acquire the habit as teenagers. Between the ages of 13 and 19, people acquire a habit that can dramatically affect not only their income but also their health and the length of their life. That should always be at the forefront of our minds.

We should not forget the importance of preventive action. It is better to stop people smoking from the outset so that they never have a habit which they later struggle to give up. However, we cannot leave it at that because there are people who smoke, sometimes before they reach the age of 13. Eighty two per cent of smokers acquire the habit as teenagers and retain it in adulthood. We must focus on these people as smokers. We cannot use a preventive tactic because they have already acquired the habit. I am not suggesting that we simply adopt strategies that are used to help adults stop smoking. We have to target children and young people carefully. Measures can be taken to intervene and focus on this group of people. If a habit has not become long lasting, there is greater hope that it can be reversed.

3:09 p.m.

Much in the White Paper, which will have particular application to children and young people, encourages me. I read with great interest, as a keen and long serving customer of the Co-op, of its policy at the point of sale to minimise the conspicuousness of tobacco. Children are in newsagents frequently. They often deliver newspapers, or buy confectionery before or after school or during lunchtime. There is an aggressive policy amongst tobacco manufacturers to advertise their product in newsagents. This is a matter of concern. I appreciate what the Co-op has done and I commend it to other retailers as a model of good practice. The Government is encouraging this good

yn croesawu'r sylw y mae'r Papur Gwyn yn ei roi i gwestiwn plant ac ysmygu. Bwriadaf fy sylwadau fel rhai cwbl adeiladol. Yr wyf yn ddiolchgar fod Jane Hutt wedi derbyn fy ngwelliant, a gyflwynwyd fel ymgais i gryfhau'r cynnig hwn. Mae wyth deg dau y cant o ysmygwyr yn magu'r arferiad yn eu harddegau. Rhwng 13 ac 19 mlwydd oed, bydd pobl yn magu arferiad a all effeithio'n ddramatig nid yn unig ar eu hincwm ond hefyd ar eu hiechyd a hyd eu bywyd. Dylai hynny fod ym mlaenau'n meddyliau drwy'r amser.

Ni ddylem anghofio pwysigrwydd gweithredu ataliol. Mae'n llawer gwell atal pobl rhag ysmygu o'r dechrau fel na fyddant byth yn cael arferiad na allant roi'r gorau iddo wedyn. Fodd bynnag, ni allwn adael y mater yn y fan honno oherwydd y mae yna bobl sydd yn ysmygu, a hynny weithiau cyn eu bod yn 13 mlwydd oed. Mae wyth deg dau y cant o ysmygwyr yn cychwyn yr arferiad yn eu harddegau ac yn ei gadw pan fyddant yn oedolion. Rhaid inni ganolbwyntio ar y bobl hyn fel ysmygwyr. Ni allwn ddefnyddio tacteg ataliol oherwydd maent wedi magu'r arferiad eisoes. Nid wyf yn awgrymu ein bod yn mabwysiadu strategaethau a ddefnyddir i helpu oedolion i roi'r gorau i ysmygu yn unig. Rhaid inni dargedu plant a phobl ifainc yn ofalus. Gellir cymryd camau i ymyrryd a chanolbwyntio ar y grŵp yma o bobl. Os nad yw arferiad wedi para'n hir, mae mwy o obaith y gellir ei wrthdroi.

Mae llawer yn y Papur Gwyn, a fydd yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifainc, yn fy nghalonogi. Darllenais gyda chryn ddiddordeb, fel cwsmer brwd a ffyddlon i'r Co-op, am ei bolisi wrth y pwynt gwerthu o leihau amlygrwydd tybaco. Bydd plant yn mynd i siopau papur newydd yn aml. Byddant yn aml yn dosbarthu papurau newydd, neu'n prynu melysion cyn neu wedi'r ysgol neu yn yr awr ginio. Mae gan wneuthurwyr tybaco bolisi ymosodol o hysbysebu eu cynnyrch mewn siopau papur newydd. Mae hyn yn achos pryder. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r hyn y mae'r Co-op wedi ei wneud ac yn ei argymhell i siopwyr eraill fel model o ymarfer da. Mae'r Llywodraeth

practice and it may be worth taking it further at some point and compelling retailers not to advertise at the point of sale.

Control on vending machines is an important issue. Approximately a third of children buy cigarettes from vending machines. If children have access to vending machines, which are usually unsupervised and are tucked away, they can purchase cigarettes without being prevented by retailers.

On the question of enforcement, it is important to recognise that there are good policies in place to help retailers stop cigarette sales to under-16s. It is often difficult to know the age of a young person and it can be difficult in a busy shop to ask customers their age especially if they are on the borderline. We need to encourage enforcement and perhaps cards that carry the age and photograph of people. Some schemes in this area have been successful. We need to take the severest action against retailers who deliberately flout the law by selling cigarettes individually or by opening packets and selling two or three, and I support all measures to find such retailers and to bring them to law.

I reiterate some facts on health. We have already heard that half of all smokers die from smoking related diseases. It is astonishing that half the people who acquire the habit die as a result of it, losing an average of sixteen years of life. With the increase in longevity, an increasing number of people will die in their seventies, whereas they could have expected to live until their late eighties. We would not have focussed on such a group of people 20 years ago because the chances of living into extended old age were relatively small. It is important for a public health policy to focus even on people who have smoked for 30, 40 or even 50 years. There are health benefits whenever people give up smoking, and for however long people have smoked. It is still better to give up.

yn annog yr arfer da hwn ac fe all fod yn werth mynd â'r peth ymhellach ar ryw bwynt a gorfodi siopwyr i beidio â hysbysebu wrth y pwynt gwerthu.

Mae rheolaeth ar beiriannau gwerthu yn fater pwysig. Bydd oddeutu traean o blant yn prynu sigarêts o beiriannau gwerthu. Os gall plant ddefnyddio peiriannau gwerthu, sydd fel arfer heb eu goruchwyllo ac mewn rhyw gornel, gallant brynu sigarêts heb i siopwyr eu rhwystro.

Ar fater gorfodi, mae'n bwysig sylweddoli bod yna bolisiau da i helpu siopwyr i beidio â gwerthu sigarêts i rai dan 16. Mae'n aml yn anodd gwybod oed person ifanc a gall fod yn anodd holi oed cwsmeriaid mewn siop brysur, yn enwedig os ydynt ar y ffin. Mae angen inni annog gorfodaeth, ac efallai gardiau ag oed a ffotograff y deiliad arnynt. Bu rhai cynlluniau yn y maes hwn yn llwyddiannus. Mae angen inni fod yn llawdrwm iawn ar siopwyr sydd yn torri'r gyfraith yn fwriadol drwy werthu sigarêts fesul un neu drwy agor pecynnau a gwerthu dwy neu dair, ac yr wyf yn cefnogi pob mesur i ganfod y siopwyr hyn a'u dwyn i gyfraith.

Ailadroddaf ambell ffaith o safbwynt iechyd. Yr ydym eisoes wedi clywed bod hanner y cyfanswm o ysmygwyr yn marw o afiechydon cysylltiedig ag ysmegu. Mae'n hynod fod hanner y bobl sydd yn mynd i'r arferiad yn marw o ganlyniad iddo, gan golli un flwyddyn ar bymtheg o'u hoes ar gyfartaledd. Wrth i bobl fyw'n hŷn, bydd nifer gynyddol o bobl yn marw yn eu saithdegau lle gallasant ddisgwyl byw hyd ddiwedd eu hwythdegau. Ni fyddem wedi canolbwyntio ar y fath grŵp o bobl 20 mlynedd yn ôl gan mai siawns gymharol fach oedd o fyw mor hen. Mae'n bwysig i bolisi iechyd cyhoeddus ganolbwyntio ar bobl a fu'n ysmegu ers 30, 40 neu hyd yn oed 50 mlynedd. Mae manteision iechyd pryd bynnag y bydd pobl yn rhoi'r gorau i ysmegu, a faint bynnag y maent wedi ysmegu. Mae'n dal i fod yn well rhoi'r gorau iddi.

Smoking is the biggest cause of preventable premature death. Although this has been known for 30 years, it is still a public health goal and it is a point that needs to be emphasised. Preventing and encouraging people to give up smoking will deliver vast health gains. This should not be forgotten, especially as relatively small amounts are spent on anti smoking measures in terms of the total health budget. I am not calling for wholesale increases, but it is a cost-effective measure. I add my support for the increases in tobacco taxes. Price is an important factor on the propensity of people to purchase cigarettes and on the number of cigarettes they will smoke if they are smokers. There is compelling evidence to suggest that since the 1960s, the cost of cigarette smoking has fallen quite significantly. Therefore, the use of taxes is a good measure to ensure that the cost is high. I also support comprehensive measures in a strategic package to encourage people to give up smoking and to encourage public places to be smoke-free. In the last 10 years, the state of California has pursued an active policy in this sphere, reducing the level of smoking to well below the average for the United States. Therefore, these measures are effective.

The international scene does not impinge on us directly, but what concerns me is the way that the market for tobacco has increasingly been taken to the developing world and Eastern Europe. Those who have travelled there will know that many people's horizons in the developing world are very short; they do not think in terms of what will happen in five, 10 or 25 years. They are acquiring habits that they think are glamorous but will have a profound impact on them when public health policies deliver longer lifespans for people. It is ironic that China, having extended the average lifespan considerably through a public health policy, is now facing real problems of smoking related diseases. That is equally true of Africa, South America and Eastern Europe. It is encouraging to read about the Government's efforts to spread good practice in terms of public health policy to these countries. I commend their efforts enthusiastically.

Ysmygu yw'r achos mwyaf dros farwolaeth gynnar y gellid bod wedi ei hatal. Er ein bod yn gwybod hyn ers 30 mlynedd, mae'n dal i fod yn nod iechyd cyhoeddus ac yn bwynt y mae angen ei bwysleisio. Ceir manteision iechyd enfawr o atal pobl rhag ysmygu a'u hannog i roi'r gorau iddi. Ni ddylid anghofio hyn, yn enwedig gan mai symiau cymharol fach sydd yn cael eu gwario ar fesurau gwrth-ysmygu yn nhermau cyfanswm y gyllideb iechyd. Nid wyf yn galw am gynnydd mawr, ond y mae'n fesur cost-effeithiol. Ychwanegaf fy nghefnogaeth i gynyddu trethi tybaco. Mae pris yn ffactor pwysig ym mharodrwydd pobl i brynu sigarêts ac o ran y nifer o sigarêts y gwnânt eu hysmygu os ydynt yn smygwyr. Mae tystiolaeth gref i awgrymu bod cost ysmygu sigarêts wedi cwympo'n arwyddocaol iawn ers yr 1960au. Felly, mae defnyddio trethi'n fesur da i sicrhau bod y gost yn uchel. Yr wyf hefyd yn cefnogi mesurau cynhwysfawr mewn pecyn strategol i annog pobl i roi'r gorau i ysmygu ac i annog neilltuo mannau cyhoeddus di-fwg. Yn y 10 mlynedd diwethaf, bu gan dalaith Califfornia bolisi cryf yn hyn o beth, gan leihau lefel ysmygu i lefel lawer is na'r cyfartaledd ar gyfer yr Unol Daleithiau. Felly, y mae'r mesurau hyn yn effeithiol.

Nid yw'r sefyllfa ryngwladol yn effeithio arnom ni yn uniongyrchol, ond yr hyn sydd yn peri pryder i mi yw'r modd y mae'r farchnad am dybaco wedi'i chymryd fwyfwy i'r byd datblygol a Dwyrain Ewrop. Bydd pobl a deithiodd yno'n gwybod mai gorwelion byr iawn sydd gan bobl yn y byd datblygol; ni fyddant yn meddwl yn nhermau beth fydd yn digwydd ymhen pum, 10 neu 25 mlynedd. Maent yn magu arferion sydd yn grand yn eu tyb hwy ond a gaiff effaith ddofn arnynt pan fydd polisïau iechyd cyhoeddus yn gallu sicrhau oes hwy i bobl. Mae'n eironig fod Tsieina, ar ôl ymestyn cyfartaledd oes ei phobl yn sylweddol drwy bolisi iechyd cyhoeddus, bellach yn wynebu problemau gwirioneddol afiechydon cysylltiedig ag ysmygu. Mae hynny yr un mor wir am Affrica, De America a Dwyrain Ewrop. Mae'n galonogol darllen am ymdrechion y Llywodraeth i ledaenu arfer da yn nhermau polisi iechyd cyhoeddus i'r gwledydd hyn. Yr wyf yn cymeradwyo eu

hymdrechion yn frwd.

Like the Government, we will not support the amendments laid by Plaid Cymru but we will allow a free vote on the Liberal Democrat amendment.

I conclude by saying that smoking is a twentieth century phenomenon. Sir Walter Raleigh did not return from the New World with a packet of Woodbines—at least I do not think he did. Cigarette smoking has been fuelled by aggressive marketing and advertising; it is not a natural habit. It is important to realise that these forces can be reversed by good public policy. If smoking has been a twentieth century phenomenon, we should now resolve to ensure that the twenty-first century is smoke-free.

Kirsty Williams: I propose the following amendment. Insert after clause three:

regrets the UK Government's recent announcement delaying elements of the ban on tobacco advertising

I begin by welcoming the announcement today from Phillip Morris, the largest cigarette producer in the world, that there is no such thing as a safe cigarette and that smoking causes cancer. We already knew that and 7,000 families in Wales know that because 7,000 of their loved ones will die every year from their habit. They will die from lung cancer and cancers of the lips, mouth, throat and lesser publicised effects on the kidney, liver and pancreas. With every drag on a malboro, the blood vessels in the body are squeezed and constricted by nicotine raising blood pressure and causing fatal heart conditions.

Cigarette smoke has even been linked to sexual impotence, a fact that should be included in all our campaigns to influence the male population. While the human cost cannot be ignored, as Dai rightly said, we must also consider the economic costs in low economic productivity and NHS costs. It

Fel y Llywodraeth, ni wnawn ninnau gefnogi'r gwelliannau a osodwyd gan Blaid Cymru ond fe wnawn ganiatáu pleidlais rydd ar welliant y Democratiaid Rhyddfrydol.

I gloi, nodaf mai ffenomen yr ugeinfed ganrif yw ysmegu. Ni ddaeth Syr Walter Raleigh yn ôl o'r Byd Newydd gyda phaced o Woodbines—o leiaf, nid wyf yn credu iddo wneud. Hybwyd yr arfer o ysmegu sigarêts drwy farchnata a hysbysebu caled; nid yw'n arferiad naturiol. Mae'n bwysig sylweddoli y gellir gwrthdroi'r grymoedd hyn drwy bolisi cyhoeddus da. Os bu ysmegu yn ffenomen sy'n perthyn i'r ugeinfed ganrif, dylem yn awr benderfynu sicrhau y bydd yr unfed ganrif ar hugain yn rhydd o fwg.

Kirsty Williams: Yr wyf yn cynnig y gwelliant canlynol. Ychwaneger ar ôl cymal tri:

yn gresynu at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU y bydd yn gohirio rhai elfennau o'r gwaharddiad ar hysbysebu tybaco.

Dechreuaf drwy groesawu'r cyhoeddiad heddiw gan Phillip Morris, cynhyrchydd sigarêts mwyaf y byd, nad oes y fath beth â sigarêt saff a bod ysmegu'n achosi canser. Yr oeddem yn gwybod hynny eisoes ac mae 7,000 o deuluoedd yng Nghymru'n gwybod hynny oherwydd bydd 7,000 o'u hanwyliaid yn marw bob blwyddyn o'u harferiad. Byddant yn marw o ganser yr ysgyfaint a chanserau ar y gwefusau, y geg, y gwddf ac effeithiau llai adnabyddus ar yr arennau, yr iau a'r pancreas. Gyda phob tyniad ar marlboro, caiff y llestri gwaed yn y corff eu gwasgu a'u cyfyngu gan nicotîn gan godi'r pwysedd gwaed ac achosi cyflwr angheuol yn y galon.

Cafodd mwg sigarêts ei gysylltu ag anallu rhywiol hyd yn oed, ffaith y dylid ei chynnwys ym mhob un o'n hymgyrchoedd i ddylanwadu ar y boblogaeth wrywaidd. Tra na ellir anwybyddu'r gost ddynol, fel y dywedodd Dai, rhaid inni hefyd ystyried y costau economaidd yn nhermau cynhyrchedd

spends £1.7 billion a year on GP visits, prescriptions, treatments and operations. Believe me, when you sit in the Health and Social Services Committee and look at the budget, you realise that a great deal could be done with only a part of that money.

economaidd isel a chostau'r NHS. Mae'n gwario £1.7 biliwn y flwyddyn ar ymweliadau meddygon teulu, presgripsiynau, triniaethau a llawdriniaethau. Credwch fi, pan eisteddych yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac edrych ar y gyllideb, fe sylweddolwch y gellid gwneud llawer iawn gyda dim ond rhan o'r arian hwnnw.

Despite the massive risks, as David Melding indicated, we are failing to communicate with certain groups. In general, despite falling rapidly during the 1980s, the number of people quitting has levelled out. A growing number of young people aged 11-16 is taking up the habit. Furthermore, young women between 16-19 are smoking more and more, often under the misconception that it keeps weight down; I know because I was one of them. Therefore we need action and we need this debate very much, especially because, as was pointed out earlier, Wales has some of the heaviest smokers in the UK.

Er gwaethaf y peryglon anferth, fel y nododd David Melding, yr ydym yn methu cyfathrebu â rhai grwpiau. Yn gyffredinol, er i'r niferoedd gwympo'n gyflym yn ystod y 1980au, mae'r nifer sydd yn rhoi'r gorau iddi wedi lefelu. Mae nifer gynyddol o bobl ifainc 11-16 oed yn dechrau ysmegu. Ar ben hynny, mae merched ifainc 16-19 oed yn ysmegu mwy a mwy, yn aml dan y camargraff ei fod yn cadw'r pwysau i lawr; yr wyf yn gwybod oherwydd yr oeddw'n innau'n un ohonynt. Felly mae angen gweithredu ac mae angen mawr am y ddadl hon yn enwedig oherwydd, fel y nodwyd gynnu, y mae gan Gymru rai o'r ysmygwyr trymaf yn y DU.

3:19 p.m.

As David Melding's welcome amendment states, smokers start young. I cannot recall one smoker who has acquired the habit as an adult. Given the peculiar situation cigarette marketing managers find themselves in, having to replace 7,000 Welsh customers a year whom their products have killed, they are often quite cynical in the methods they use, such as adding sugar to cigarettes to make them more palatable, and merchandising campaigns which specifically attract younger people.

Fel y mae gwelliant derbyniol David Melding yn nodi, mae ysmygwyr yn dechrau'n ifanc. Nid wyf yn gallu meddwl am un ysmygwr sydd wedi magu'r arfer fel oedolyn. Yn wyneb y sefyllfa ryfedd y mae rheolwyr marchnata sigarêts yn eu cael eu hunain ynddi, sef gorfod canfod 7,000 o gwsmeriaid newydd y flwyddyn yng Nghymru i gymryd lle y rhai a laddwyd gan eu cynnyrch, maent yn aml yn eithaf sinigaidd yn y dulliau a ddefnyddiant, fel ychwanegu siwgr at sigarêts i'w gwneud yn fwy dymunol, ac ymgyrchoedd marchnata sydd yn anelu'n benodol at bobl iau.

I express my great concern at the Labour Government's continued failure to implement the ban on advertising. I acknowledge Jane's point that adverts in the British press and on billboards will go on time. Yet, there have been delays in other aspects. A blanket ban was originally announced by your Government in London in June and was due to take effect from 10 December. In fact, the concessions given to

Yr wyf yn mynegi fy mhryder mawr ynghylch methiant parhaus y Llywodraeth Lafur i weithredu'r gwaharddiad ar hysbysebu. Yr wyf yn cydnabod pwynt Jane y bydd hysbysebion yn y wasg Brydeinig ac ar filfyrdau yn mynd yn brydlon. Eto, bu oedi ar agweddau eraill. Cyhoeddwyd gwaharddiad cyffredinol yn wreiddiol gan eich Llywodraeth yn Llundain ym Mehefin ac yr oedd i fod i ddod i rym o 10 Rhagfyr.

the industry will now delay elements of the ban by up to three years. It will be July 2000 before direct marketing campaigns and in-pack promotion disappear. It will be July 2001 before the ending of joint branding of products, and July 2002 on adverts in EU publications sold in the UK.

Every day's delay means more young people are seduced by these adverts and these methods and are becoming addicted to a product that in the end will kill half of them. I am glad, Jane, that you mentioned ASH's presence in the public gallery today, and I commend them on their work. I also remind you, Jane, of their director Clive Bates's hopes regarding advertising:

'I do not know why the Government is bending over backwards to appease the tobacco industry with these concessions. Tobacco advertisers have been on notice since Labour published its manifesto in 1997 and have already had more than enough transitional time.'

I welcome Dai's inclusion of health action zones and I draw your attention, Brian, to the actual words of the amendment. They talk exactly about what you said, taking it back to be discussed fully within Committee. I agree totally. It is not the place here and now to decide whether health action zones are appropriate for Welsh health needs. We need to have them discussed fully in the Health and Social Services Committee.

I am glad that Dai has raised also, in connection with those zones, funding and money. Only adequate funding and financial resources will ensure that zones are real, meaningful and focus on our poorer areas and those in most need. Without funding and resources we are in danger of becoming not health action zones but politicians' gimmicks zones.

Mewn gwirionedd, bydd y consesiynau a roddwyd i'r diwydiant erbyn hyn yn oedi elfennau o'r gwaharddiad am hyd at dair blynedd. Bydd yn fis Gorffennaf 2000 cyn i ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol a hyrwyddiadau yn y pecyn ddiiflannu. Bydd yn fis Gorffennaf 2001 cyn y daw cyd-frandio cynnyrch i ben, ac yn fis Gorffennaf 2002 ar hysbysebion yng nghyhoeddiadau'r UE a werthir yn y DU.

Mae pob diwrnod o oedi'n golygu y caiff mwy o bobl ifainc eu hudo gan yr hysbysebion hyn a'r dulliau hyn i fynd yn gaeth i gynyrrch a fydd yn lladd eu hanner yn y diwedd. Yr wyf yn falch, Jane, ichi grybwyll presenoldeb Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd yn yr oriel gyhoeddus heddiw, ac yr wyf yn eu llongyfarch ar eu gwaith. Fe'ch atgoffaf hefyd, Jane, o obeithion eu cyfarwyddwr Clive Bates ynghylch hysbysebu:

'Ni wn pam y mae'r Llywodraeth yn gwneud ei gorau glas i blesio'r diwydiant tybaco gyda'r consesiynau hyn. Cafodd yr hysbysebwyrr tybaco rybudd ym manifesto Llafur ym 1997 ac maent eisoes wedi cael mwy na digon o amser i baratoi.'

Yr wyf yn croesawu'r ychwanegiad o barthau gweithredu iechyd gan Dai a thynnaf eich sylw, Brian, at union eiriad y gwelliant. Mae'n sôn am yr union beth a ddywedaso chi, sef mynd â'r mater yn ôl i'w drafod yn llawn yn y Pwyllgor. Cytunaf yn llwyr. Nid dyma'r fan na'r adeg i benderfynu a yw parthau gweithredu iechyd yn briodol ar gyfer anghenion iechyd Cymru. Mae angen eu trafod yn llawn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yr wyf yn falch fod Dai wedi codi hefyd, yng nghyd-destun y parthau hyn, gwestiwn cyllid ac arian. Dim ond cyllid ac adnoddau ariannol digonol a wnaiff sicrhau bod y parthau'n real, yn ystyrlon ac yn canolbwyntio ar ein hardaloedd tlotaf a'r mwyaf anghenus. Heb gyllid ac adnoddau yr ydym mewn perygl o gael nid parthau gweithredu iechyd ond parthau gimics gwleidyddion.

While help for those on low incomes to access cessation schemes and programmes is welcome, it is only for one week, and anybody who ever gave up smoking will know that it takes a lot longer than one week to make an impact. I urge you to support Dai's first amendment and the Liberal Democrat amendment. The Liberal Democrats will not support the second Plaid Cymru amendment although we acknowledge that the five year gap on arts and sports funding is too long. We have difficulties with pressing for more powers over the regulation of tobacco advertising in Wales because we think that that is fraught with realistic impossibility.

Brian Gibbons: The case has been well made that tobacco is the single biggest public health challenge we face in the United Kingdom. David Melding made a good point about the cynicism of the tobacco companies. They are finally coughing up and admitting their liability for the damage that the cigarette industry is causing. However, they are exporting their death and disease to eastern Europe and the third world. This cynicism was seen when they started to feel the pressure in the western world and as they saw that its population was less likely to become involved in smoking.

After many years of reducing levels of tobacco smoking in the UK, it is a matter of concern that, not only has the level of reduction bottomed out, it has actually started to increase again, particularly in the younger generation. It has increased from a fifth to a quarter among young boys and from a quarter to a third among young girls. It is a serious matter that of itself merits serious action and a serious response from the UK Government and the Assembly.

We need to welcome the measures announced by Jane, particularly on the issue of dealing with smoking among young people and focusing our attention on schools. It was worrying to see an article in the *British Medical Journal* showing that a number of the conventional methods used to discourage young people from smoking were

Tra croesewir cymorth i rai ar incwm isel i fynd ar gynlluniau a rhaglenni rhoi'r gorau iddi, dim ond un wythnos yw hynny, a bydd unrhyw un a roddodd y gorau i ysmegu'n gwybod ei bod yn cymryd llawer mwy nag wythnos i gyflawni dim. Anogaf chi i gefnogi gwelliant cyntaf Dai a gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni wnaiff y Democratiaid Rhyddfrydol gefnogi ail welliant Plaid Cymru er ein bod yn cydnabod bod y bwlch pum mlynedd ar noddi'r celfyddydau a chwaraeon yn rhy hir. Yr ydym yn cael anawsterau gyda phwyso am fwy o bwerau dros reoleiddio hysbysebu tybaco yng Nghymru gan ein bod o'r farn fod hynny'n llawn amhosibilrwydd realistig.

Brian Gibbons: Da y datganwyd mai tybaco yw'r un her fwyaf i ieuchyd cyhoeddus a wynebwn yn y Deyrnas Unedig. Gwnaeth David Melding bwynt da am sinigiaeth y cwmnïau tybaco. O'r diwedd maent yn cyfaddef eu cyfrifoldeb am y niwed y mae'r diwydiant sigarêts yn ei achosi. Fodd bynnag, maent yn allforio'u marwolaeth a'u hafiechyd i ddwyrain Ewrop a'r trydydd byd. Gwelwyd y sinigiaeth hon pan ddechreuasant deimlo'r esgid yn gwasgu yn y byd gorllewinol a phan welsant fod ei boblogaeth yn llai tebygol o ymhel ag ysmegu.

Ar ôl blynyddoedd o leihau lefelau ysmegu tybaco yn y DU, mae'n fater o bryder nid yn unig fod y gostyngiad wedi arafu, ond bod y lefel hyd yn oed wedi dechrau codi eto, yn enwedig yn y genhedlaeth iau. Mae wedi cynyddu o un ym mhob pump i un ym mhob pedwar ymysg bechgyn ifainc ac o chwarter i un ym mhob tair ymysg genethod. Mae'n fater difrifol sydd ynddo'i hun yn teilyngu gweithredu o ddifrif ac ymateb difrifol gan Lywodraeth y DU a'r Cynulliad.

Mae angen inni groesawu'r mesurau a gyhoeddwyd gan Jane, yn enwedig ar fater delio ag ysmegu ymhlith pobl ifainc a chanolbwyntio ein sylw ar ysgolion. Achos pryder oedd gweld erthygl yn y *British Medical Journal* yn dangos bod nifer o'r dulliau confensiynol a ddefnyddir i annog pobl ifainc i beidio ag ysmegu yn

unsuccessful. The fact that conventional methods such as advice, counselling and support do not seem to work may represent a greater challenge to us in the way that we respond to the ever increasing tobacco consumption among young people. We may need to pursue a wider agenda than the individual interventions envisaged in these documents and the White Paper.

It is important that the health service should have the option of referring smokers to specialist advice. I welcome the provision of free nicotine replacement for a week. Evidence suggests that one week is the critical period in terms of whether or not the intervention is likely to succeed. One week of nicotine support is likely to cost the same or even less than the smoking habit. As one proceeds with nicotine replacement therapy the smoker remains in a cash neutral position during the period of smoking cessation. In an ideal world all medical interventions would be free but I think that a balanced judgment has been made on the provision of nicotine replacement therapy.

I feel strongly that this type of assistance should be available in the workplace and this has not been covered in the contributions or the White Paper. Many people who are involved in smoking are of a working age and many firms in Wales and the UK have positive attitudes towards the health of their employees. If they were to receive encouragement and support I am sure that they would start to provide smoking cessation sessions in the workplace and this would be a welcome move.

However, the evidence on smoking cessation at an individual level is discouraging. It is only the big public health measures that seem to make a perceptible difference. This is why we need proposals such as the ban on advertising and, in an ideal world, this is something that would have happened last week or last year and not in December. There is a balance to be reached on this issue.

aflwyddiannus. Mae'r ffaith ymddangosiadol nad yw dulliau confensiynol fel cyngor, cwnsela a chefnogaeth yn gweithio efallai'n gosod her fwy i ni yn y modd yr ymatebwn i'r cynnydd parhaus mewn defnyddio tybaco ymysg pobl ifainc. Efallai y bydd angen inni ddilyn agenda ehangach na'r ymyriadau unigol a ragwelir yn y dogfennau hyn a'r Papur Gwyn.

Mae'n bwysig y dylai'r gwasanaeth iechyd gael yr opsiwn o gyfeirio ysmygwyr i gael cyngor arbenigol. Yr wyf yn croesawu'r syniad o ddarparu cynhaliath nicotîn am ddim am wythnos. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un wythnos yw'r cyfnod critigol yn nhermau a ydyw'r ymyriad yn debygol o lwyddo ai peidio. Mae un wythnos o gynhaliath nicotîn yn debygol o gostio'r un fath neu lai hyd yn oed na'r arferiad tybaco. Wrth fynd ymlaen â therapi disodli nicotîn mae'r ysmygwr yn aros mewn sefyllfa niwtral yn ariannol yn ystod y cyfnod peidio ag ysmegu. Mewn byd delfrydol byddai pob ymyriad meddygol yn rhad ac am ddim ond yr wyf o'r farn fod penderfyniad cytbwys wedi ei wneud ar ddarparu therapi disodli nicotîn.

Teimlaf yn gryf y dylai'r math yma o gymorth fod ar gael yn y man gwaith ac nid yw hyn wedi ei drafod yn y cyfraniadau nac yn y Papur Gwyn. Mae llawer o ysmygwyr yn gweithio ac mae gan lawer o gwmnïau yng Nghymru a'r DU agweddau cadarnhaol tuag at iechyd eu gweithwyr. Pe baent hwy yn cael eu hannog a'u cefnogi yr wyf yn siŵr y byddent yn dechrau darparu sesiynau rhoi'r gorau i ysmegu yn y man gwaith, a byddai hyn yn rhywbeth i'w groesawu.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar roi'r gorau i ysmegu ar lefel yr unigolyn yn siomedig. Dim ond y camau iechyd cyhoeddus mawr sydd fel pe baent yn gwneud unrhyw wahaniaeth y gellir ei weld. Dyna pam mae angen gwneud pethau fel gwahardd hysbysebu ac, mewn byd delfrydol, byddai hynny wedi digwydd yr wythnos diwethaf neu y llynedd ac nid ym mis Rhagfyr. Mae angen cyrraedd cydbwysedd ar y cwestiwn hwn.

3:29 p.m.

I have reservations about allowing companies to continue using brand names as long as there is no association with smoking. Those of us who have watched Grand Prix racing and seen buzzing hornets instead of Benson and Hedges will realise the imagination and creativity of the smoking and advertising industry in getting around almost any advertising barrier. I notice that this is covered in regulation. I hope it will be kept under review so that if there is any suspicion that companies and their advertisers are managing to circumvent this particular regulation, it will be amended promptly to avoid that potential loophole.

We also need to encourage the UK Government to take strong action on taxation because it is the only proven method which results in a substantive reduction in cigarette smoking. I appreciate that taxation on smoking is a regressive tax in that it hits the people on the lowest incomes. Nonetheless, if we only have one club in our golf bag, obviously the taxation measure is the most effective.

We also need to address the cultural issue, which I mentioned in the context of young people. One of the most frightening things, culturally, is the proportion of women who are taking up smoking and continuing to smoke. Last week, Jenny Randerson gave a clear message about breast cancer. If present trends continue, lung cancer will be the biggest form of cancer in women within the next decade.

This is a clear cultural problem which we must address. I have no ready solutions, and nothing in the White Paper or in other contributions today has addressed this cultural dimension, which is a priority. I hoped that I would not have to mention health action zones. However, it has been dragged in by the coat tails, notwithstanding the Presiding Officer's judgment. It always amazes me that Welsh Nationalists seem so attracted to a policy development that is only taking place in England, particularly when we have a unique Welsh solution to health

Mae gennyf amheuan ynghylch caniatáu i gwmnïau ddal i ddefnyddio enwau brand cyn belled nad oes unrhyw gyfeiriad at ysmegu. Bydd y rhai ohonom a wylodd rasys y Grand Prix ac a welodd haid o gacwn yn lle Benson and Hedges yn sylweddoli dychymyg a chreadigrwydd y diwydiant ysmegu a hysbysebu yn sleifio heibio i ymron unrhyw rwystr hysbysebu. Sylwaf fod rheoliad i ymdrin â hyn. Gobeithio y byddir yn parhau i gadw llygad ar hyn ac os bydd unrhyw amheuaeth fod cwmnïau a'u hysbysebwyd yn llwyddo i osgoi'r rheoliad arbennig hwn, y caiff ei ddiwygio'n syth i gau'r man gwan posibl hwnnw.

Mae angen inni annog Llywodraeth y DU hefyd i weithredu'n gadarn ar drethiant gan mai dyma'r unig ddull profedig sydd yn arwain at leihad sylweddol mewn ysmegu sigarêts. Yr wyf yn sylweddoli mai treth atchweliadol yw trethiant ar ysmegu, hynny yw ei fod yn taro'r bobl ar yr incwm isaf. Serch hynny, os mai dim ond un clwb sydd gennym yn ein bag golff, yn amlwg y mesur trethiant yw'r mwyaf effeithiol.

Mae angen inni edrych ar y cwestiwn diwylliannol hefyd, y soniais amdano yng nghyd-destun pobl ifainc. Un o'r pethau mwyaf brawychus, yn ddiwylliannol, yw'r gyfran o ferched sydd yn dechrau ysmegu ac yn parhau i ysmegu. Yr wythnos diwethaf, rhoddodd Jenny Randerson neges glir am ganser y fron. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, canser yr ysgyfaint fydd y canser mwyaf cyffredin mewn merched o fewn y degawd nesaf.

Dyma broblem ddiwylliannol amlwg y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hi. Nid oes gennyf atebion parod, ac nid oes dim yn y Papur Gwyn nac mewn cyfraniadau eraill heddiw wedi ymdrin â'r dimensiwn diwylliannol hwn, sydd yn fater o flaenoriaeth. Yr oeddwn yn gobeithio na fyddai'n rhaid imi grybwyll parthau gweithredu iechyd. Serch hynny, y mae wedi ei lusgo i mewn gerfydd godre'i gôt, waeth beth fo barn y Llywydd. Mae bob amser yn fy synnu i fod y Cenedlaetholwyr yn gweld cymaint o atyniad mewn dogfen bolisi sydd yn digwydd yn Lloegr yn unig, yn

service delivery in Wales.

enwedig pan fo gennym ateb unigryw i Gymru o ran cyflwyniad y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Helen Mary Jones: I would like to point out that health action zones were Plaid Cymru policy before they were British Government policy.

Helen Mary Jones: Hoffwn nodi bod parthau gweithredu iechyd yn bolisi gan Blaid Cymru cyn iddynt ddod yn bolisi gan y Llywodraeth Brydeinig.

The Presiding Officer: I have no objection, Helen Mary, to your addressing Brian behind a pillar rather than addressing him through me if it is easier.

Y Llywydd: Nid oes gennyf wrthwynebiad, Helen Mary, ichi gyfarch Brian y tu ôl i biler yn hytrach na'i gyfarch drwof fi os yw hynny'n haws.

Helen Mary Jones: I cannot see him through that pillar either. I am afraid we have a two pillar problem here.

Helen Mary Jones: Ni allaf innau ei weld drwy'r piler yna chwaith. Mae arnaf ofn fod gennym broblem dau biler yma.

The Presiding Officer: This will be rectified in the new Chamber.

Y Llywydd: Caiff hyn ei ddatrys yn y Siambr newydd.

Brian Gibbons: I understand that there is a need for concerted action in black spots. However, I do not accept that health action zones were Plaid Cymru policy. It is interesting that they wish to continue down this line. In Wales, we have a unique experiment in which we are trying to bring together local government, health authorities, the voluntary sector and representatives from the caring professions to plan the delivery of health care. It is the way forward. It is a pity that Plaid Cymru keeps resurrecting the problem of health action zones, which is a diversion from making local health groups work.

Brian Gibbons: Yr wyf yn deall bod angen gweithredu unol mewn mannau du. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn bod parthau gweithredu iechyd yn rhan o bolisi Plaid Cymru. Mae'n ddiddorol eu bod yn dymuno dal i ddilyn y trywydd hwn. Yng Nghymru, mae gennym arbrawf unigryw lle'r ydym yn ceisio dod â llywodraeth leol, awdurdodau iechyd, y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr o'r proffesiynau gofal at ei gilydd i gynllunio darpariaeth gofal iechyd. Dyma'r ffordd ymlaen. Gresyn fod Plaid Cymru'n dal i atgyfodi problem y parthau gweithredu iechyd, sydd yn tynnu sylw oddi wrth y gwaith o sicrhau bod grwpiau iechyd lleol yn gweithio.

David Lloyd: Let me further enlighten you on Plaid Cymru policy. Health action zones have been our policy for many years. I am glad that the tobacco White Paper has incorporated them. The point about this afternoon's debate is that health action zones form the cornerstone of the Government's policy on smoking cessation. They are mentioned frequently. Health action zones—*parthau gweithredu iechyd* in the Welsh language version—is repeated throughout the White Paper. Therefore my amendment, which calls for the same provision in Wales, is hardly flippant or flamboyant. It reflects the cornerstone of the UK Labour

David Lloyd: Gadewch imi eich goleuo ymhellach ar bolisi Plaid Cymru. Mae parthau gweithredu iechyd yn bolisi gennym ers blynyddoedd lawer. Yr wyf yn falch fod y Papur Gwyn ar dybaco wedi eu hymgorffori. Y pwynt ynglŷn â dadl y prynhawn yma yw fod parthau gweithredu iechyd yn ffurfio conglfaen polisi'r Llywodraeth ar atal ysmegu. Cyfeirir atynt yn aml. Ailadroddir y term parthau gweithredu iechyd—*health action zones* yn y fersiwn Saesneg—drwy'r Papur Gwyn i gyd. Felly, go brin fod fy ngwelliant, sydd yn galw am yr un ddarpariaeth yng Nghymru, yn ysmala nac yn goegwych. Mae'n adlewyrchu conglfaen

Government's policy as stated in the White Paper.

Brian Gibbons: As Wales Labour is the Party to find Welsh solutions to Welsh problems, we will set about finding the best way to deliver health care in Wales.

Geraint Davies: My colleague, Dai Lloyd, has already outlined what Plaid Cymru sees as weaknesses in the Government's White Paper on tobacco. However, the White Paper is a step in the right direction and there are positive suggestions for action in it. As a pharmacist, I was pleased to see that the role currently played by pharmacists in maintaining a healthy population is clearly understood in the White Paper. The White Paper has several positive suggestions as to how pharmacists can be more successfully deployed in the future.

The provision of reassuring, consistent, advice on how to stop smoking and how to refrain from starting again is vital. Moreover, pharmacists can provide information on the correct use of such aids to stopping smoking as nicotine replacement therapy. Even a simple piece of advice—for example, not to drink fruit juice while using nicotine gum—is important. It is also important to give people encouragement. In our pharmacy we conducted a test using carbon monoxide monitors. The fact that the level of that noxious gas decreased in their blood encouraged people to continue not to smoke.

Pharmacists, in the community and in hospital practices, are particularly well placed to provide counselling, advice and support to smokers who want to give up and to give them information on the medical products available to help them to do so. Studies have shown that advice from pharmacists can increase greatly the proportion of people who stop smoking successfully. A recent study in Scotland proved this to be case. It also proved that it was very cost-effective. Therefore, you help people to give up smoking and save money at the same time.

polisi Llywodraeth Lafur y DU fel y'i datgenir yn y Papur Gwyn.

Brian Gibbons: Gan mai Llafur Cymru yw'r Blaid i ganfod atebion Cymreig i broblemau Cymreig, awn ati i ganfod y ffordd orau i ddarparu gofal iechyd yng Nghymru.

Geraint Davies: Mae fy nghyd-aelod, Dai Lloyd, eisoes wedi amlinellu'r hyn a wêl Plaid Cymru fel gwendidau ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar dybaco. Fodd bynnag, y mae'r Papur Gwyn yn gam i'r cyfeiriad iawn ac y mae awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer gweithredu ynddo. Fel fferylllydd, yr oeddwn yn falch o weld bod y Papur Gwyn yn deall yn glir y rôl a chwaraeir ar hyn o bryd gan fferyllwyr i gynnal poblogaeth iach. Mae gan y Papur Gwyn amryw o awgrymiadau cadarnhaol ynghylch sut y gellir defnyddio fferyllwyr yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae darparu cyngor cyson, cysurion, ar sut i roi'r gorau i ysmygu a sut i beidio dechrau eto yn hanfodol. Ar ben hynny, gall fferyllwyr roi gwybodaeth ar sut i ddefnyddio cymhorthion atal ysmygu fel therapi disodli nicotîn yn gywir. Mae hyd yn oed un gair syml o gyngor —er enghraifft, na ddylid yfed sudd ffrwythau tra'n defnyddio gwm cnoi nicotîn—yn bwysig. Mae'n bwysig hefyd rhoi anogaeth i bobl. Yn ein fferyllfa cynhaliwyd prawf gan ddefnyddio mesuryddion carbon monocsid. Roedd y ffaith fod lefel y nwy gwenwynig hwnnw yn eu gwaed wedi mynd i lawr yn galonddid i bobl ddal ati i beidio ag ysmygu.

Mae fferyllwyr, yn y gymuned ac mewn practis yn yr ysbyty, mewn lle arbennig o dda i ddarparu cwnsela, cyngor a chefnogaeth i ysmygwyr sydd eisiau rhoi'r gorau iddi a rhoi gwybodaeth iddynt ar y cynhyrchion meddygol sydd ar gael i'w helpu i wneud hynny. Dangosodd astudiaethau y gall cyngor gan fferyllwyr gynyddu'n sylweddol y ganran o bobl sydd yn llwyddo i roi'r gorau i ysmygu. Profwyd bod hyn yn wir gan astudiaeth ddiweddar yn yr Alban. Profodd hefyd ei fod yn gost-effeithiol iawn. Felly, yr ydych yn helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu ac yn arbed arian ar yr un pryd.

The White Paper is an excellent start. However, the Assembly must ensure that its measures can be successfully implemented. People on lower incomes are far more likely to smoke. That is why we need to implement those measures through health action zones; health action zones target the health of the worst-off. Health action zones are mentioned throughout the White Paper, as Dai said. If they are good enough for England, they are good enough for Wales. Pharmacists can also play an important part in targeting the health of the worse-off. Research has shown that mothers of young children, people on low income and people who live in deprived areas are among the highest users of the health advice, services and products available in Wales's 700 community pharmacies. There is scope for further development of the health promotion role of community pharmacists. The support of pharmacists in public health promotion is important.

Plaid Cymru welcomes the White Paper but we have some serious reservations about it. It would be more than regrettable if the Paper's laudable aims were undermined, as has been said earlier, by this Government's lack of will to tackle the tobacco companies, particularly on advertising and promotion. As the Paper states, 140 new customers per week must be recruited to replace those who have been killed. There is also a lack of commitment to deprived areas in Wales which are not given enough money to establish health action zones in the valleys and other deprived areas in our country.

3:39 p.m.

Lorraine Barrett: I am strongly against smoking. Smoking kills and seriously damages people's health. Some smokers say that it is their right to smoke but I feel it is my right not to have to inhale their smoke. I am not sure if I would push for a ban on smoking in all public places but I think I could be persuaded. To those who say that they could not go without a cigarette after a meal in a restaurant, I remind them of their

Mae'r Papur Gwyn yn ddechrau ardderchog. Fodd bynnag, rhaid i'r Cynulliad sicrhau y gellir gweithredu ei fesurau'n effeithiol. Mae pobl ar incwm is yn llawer mwy tebygol o ysmegu. Dyna pam y mae angen gweithredu'r mesurau hynny drwy barthau gweithredu iechyd; bydd parthau gweithredu iechyd yn targedu iechyd y tlotaf yn ein mysg. Mae sôn am barthau gweithredu iechyd drwy'r Papur Gwyn i gyd, fel y dywedodd Dai. Os ydynt yn ddigon da i Loegr, maent yn ddigon da i Gymru. Gall fferyllwyr chwarae rhan bwysig hefyd wrth dargedu iechyd y rhai llai cefnog. Dangosodd ymchwil fod mamau plant ifainc, pobl ar incwm isel a phobl sydd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ymhlith y defnyddwyr mwyaf ar y cyngor, gwasanaethau a chynhyrchion iechyd sydd ar gael yn y 700 fferyllfa gymunedol yng Nghymru. Mae lle i ddatblygu rôl hybu iechyd fferyllwyr cymunedol ymhellach. Mae cefnogaeth fferyllwyr i hybu iechyd cyhoeddus yn bwysig.

Mae Plaid Cymru'n croesawu'r Papur Gwyn ond mae gennym rai amheuan difrifol yn ei gylch. Byddai'n fwy na gresyn pe bai dibenion canmoladwy'r Papur yn cael eu tanseilio, fel y dywedwyd yn gynharach, gan ddiffyg ewyllys y Llywodraeth hon i daclo'r cwmnïau tybaco, yn enwedig ar fater hysbysebu a hyrwyddo. Fel y dywed y Papur, rhaid recriwtio 140 o gwsmeriaid newydd yr wythnos i gymryd lle'r rhai hynny a laddwyd. Mae diffyg ymrwymiad hefyd tuag at ardaloedd difreintiedig yng Nghymru lle na roddir digon o arian i sefydlu parthau gweithredu iechyd yn y cymoedd ac mewn ardaloedd difreintiedig eraill yn ein gwlad.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn gryf yn erbyn ysmegu. Mae ysmegu'n lladd ac yn peri niwed difrifol i iechyd pobl. Mae rhai ysmegwyr yn dweud mai eu hawl hwy yw ysmegu ond yr wyf i'n teimlo mai fy hawl i yw peidio â gorfod anadlu eu mwg. Nid wyf yn siŵr a fyddwn yn pwyso am wahardd ysmegu ym mhob man cyhoeddus ond yr wyf yn meddwl y gellid fy mherswadio. I'r rheini sydd yn dweud na allent fynd heb sigarét ar

visits to the cinema before smoking was banned. I defy anyone to say that a visit to the cinema then was more pleasant than it is now. Everyone accepts that the cinema is a smoke free environment. A friend of mine who works in a hospital used to smoke throughout her working day but when the hospital became a non-smoking building and smoking was banned in the grounds, she stopped smoking during the day. I look forward to a ban on smoking in restaurants as a first step to banning in public places.

It is good to discuss an issue that most of us agree upon and which cuts across the party political boundaries. I agreed initially with Kirsty's amendment, especially after hearing the headlines earlier this week about the delay in implementation of certain parts of the ban but when I looked at the details of the Government's proposals I was reassured. I do not believe that the Government is appeasing the tobacco companies. I believe that its reasons for delaying the implementation of certain bans are based on realistic advice. The ASH representative, although frustrated at the staggered implementation of the ban, welcomed the Government's proposals. The major elements of tobacco advertising such as billboards and the press will be banned from December. The staggering of the ban in other areas gives small businesses time to adjust, and also allows time for other organisations to find alternative sponsorship. We must welcome the Government's proposals as they stand because they are better than nothing. I support the motion with reservations about the amendment.

Jocelyn Davies: I was a smoker; one of the 32 per cent in Wales whom Dai mentioned. Most of my friends and family smoked and it seemed to be cultural and inevitable that I would also smoke. There is something very seductive about opening a new packet of cigarettes and sitting with other smokers sharing the experience. That is not a very mature attitude but I am sure many people

ôl pryd bwyd mewn bwyty, atgoffaf hwy o'u hymweliadau â'r sinema cyn i ysmygu gael ei wahardd. Dyfffeiaf unrhyw un i ddweud bod ymweliad â'r sinema bryd hynny'n fwy pleserus nag ydyw yn awr. Mae pawb yn derbyn bod y sinema'n amgylchedd di-fwg. Roedd cyfaill i mi sydd yn gweithio mewn ysbyty yn arfer ysmygu drwy gydol ei diwrnod gwaith ond pan aeth yr ysbyty'n adeilad di-fwg a gwahardd ysmygu ar dir yr ysbyty, rhoddodd hi'r gorau i ysmygu yn ystod y dydd. Edrychaf ymlaen at waharddiad ar ysmygu mewn tai bwyta fel cam cyntaf tuag at wahardd mewn mannau cyhoeddus.

Mae'n beth da trafod mater y mae'r rhan fwyaf ohonom yn gytûn arno ac sydd yn torri ar draws ffiniau gwleidyddol y pleidiau. Cytunais ar y dechrau â gwelliant Kirsty, yn enwedig ar ôl gweld y penawdau yn gynharach yr wythnos hon ynglŷn â'r oedi o ran gweithredu rhai rhannau o'r gwaharddiad, ond pan edrychais ar fanylion cynigion y Llywodraeth tawelwyd fy meddwl. Nid wyf yn credu bod y Llywodraeth yn ceisio plesio'r cwmnïau tybaco. Yr wyf yn credu bod ei rhesymau dros oedi gweithredu rhai gwaharddiadau'n seiliedig ar gyngor realistig. Er yn teimlo'n rhwystredig gyda'r modd tameidiog y gweithredir y gwaharddiad, croesawodd cynrychiolydd ASH gynigion y Llywodraeth. Caiff prif elfennau hysbysebu tybaco, fel bilfyrdau a'r wasg, eu gwahardd o fis Rhagfyr. Mae gweithredu'r gwaharddiad fesul tamaid mewn meysydd eraill yn rhoi amser i fusnesau bach ymaddasu, a hefyd yn caniatáu amser i gyrff eraill ganfod nawdd o gyfeiriad arall. Rhaid inni groesawu cynigion y Llywodraeth fel y safant am eu bod yn well na dim byd. Yr wyf yn cefnogi'r cynnig gydag amheuan ynglŷn â'r gwelliant.

Jocelyn Davies: Yr oeddwn i'n ysmygwr, yn un o'r 32 y cant yng Nghymru y soniodd Dai amdanynt. Yr oedd y rhan fwyaf o'm ffrindiau a'm teulu yn ysmygu ac yr oedd yn ymddangos yn ddiwylliannol ac yn anochel y byddwn innau'n ysmygu. Mae rhywbeth hudolus iawn am agor paced newydd o sigarêts a chysgwrdd ag ysmygwyr eraill yn rhannu'r profiad. Nid yw honno'n agwedd

identify with it. In the seventies smoking was often seen on television in programmes and films as well as in advertising, and it was particularly attractive to see the American icons who always smoked. When I relied on welfare benefits, I continued to smoke as I was, by that time, addicted to the nicotine. I found myself in similar company. Smokers tend to hang around together, although I will not name names either. We can all see the smokers outside the back entrance, especially from my office.

From my experience, I know that glamour and the drug that cigarette represents is a powerful attraction, and not only to those who can afford it. In fact, those who cannot afford cigarettes seem to crave them more. Therefore, these health action zones are important. They are the cornerstone of the White Paper on tobacco, 'Smoking Kills.' I am surprised that we are expected to discuss the White Paper and totally ignore them because targeting those most at risk will pay huge dividends in terms of the quality of their life and the health benefits.

When you are poor, you know that the small amount of money you have could be better spent on other things. However, we must not criticise people who do this. We have to try to understand them and the fact that they want to be part of that sophisticated world which tobacco advertisements portray. I gave up smoking years ago because the hope of that sophistication was not met by the realities of smoking.

A close family friend had his legs amputated because of circulation problems caused directly by smoking. I could not see any glamour in that or in the rasping cough that smokers have or in facial wrinkles which occur because smokers age prematurely. Therefore I found it surprisingly easy to give up smoking. I used nicotine substances which you can buy from the chemist. They required some investment as they cost about the same as cigarettes. Therefore once you bought

aeddfed iawn ond yr wyf yn siŵr fod llawer o bobl yn uniaethu â hi. Yn y saithdegau gwelid ysmygu'n aml ar raglenni teledu a ffilmiau yn ogystal ag mewn hysbysebion, ac yr oedd yn arbennig o ddeniadol gweld yr eiconau Americanaidd a fyddai bob amser yn ysmygu. Pan oeddwn yn ddibynol ar fuddaliadau lles, daliais i ysmygu gan fy mod, erbyn hynny, yn gaeth i'r nicotîn. Cefais fy hun mewn cwmni tebyg. Bydd ysmygwyr yn tueddu i dyrru at ei gilydd, er na wna'f enwi enwau chwaith. Gallwn i gyd weld yr ysmygwyr y tu allan i'r drws cefn, yn enwedig o'm swyddfa i.

O'm profiad, gwn fod yr hud a'r cyffur y mae'r sigarét yn ei gynrychioli yn atyniad pwerus, ac nid yn unig i'r rhai sydd yn gallu ei fforddio. Yn wir, mae'r rhai sydd yn methu fforddio sigarêts i'w gweld yn awchu mwy amdanynt. Felly, mae'r parthau gweithredu iechyd hyn yn bwysig. Dyma gonglfaen y Papur Gwyn ar dybaco, 'Mae Ysmygu'n Lladd'. Syndod i mi yw bod disgwyl inni drafod y Papur Gwyn ac anwybyddu'r rhain yn llwyr, oherwydd bydd targedu'r rhai mwyaf bregus yn talu ar ei ganfed yn nhermau ansawdd eu bywyd a'r manteision iechyd.

Pan ydych yn dlawd, yr ydych yn gwybod y gallai'r arian bach sydd gennych gael ei wario'n well ar bethau eraill. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â beirniadu pobl sydd yn gwneud hyn. Rhaid inni geisio'u deall a'r ffaith yr hoffent fod yn rhan o'r byd soffistigedig hwnnw y mae hysbysebion tybaco'n ei bortreadu. Rhoddais y gorau i ysmygu flynyddoedd yn ôl oherwydd nad oedd y gobaith am y soffistigeiddrwydd hwnnw'n cael ei ateb gan realiti ysmygu.

Collodd cyfaill agos i'r teulu ei goesau oherwydd problemau cylchrediad a achoswyd yn uniongyrchol gan ysmygu. Ni allwn weld unrhyw hudoliaeth yn hynny nac yn y peswch cras sydd gan ysmygwyr nac yn y crychau ar yr wyneb a ddaw wrth i ysmygwyr heneiddio cyn pryd. Felly cefais hi'n rhyfeddol o hawdd rhoi'r gorau i ysmygu. Defnyddiais sylweddau nicotîn y gallwch eu prynu o siop y fferyllydd. Yr oedd angen rhywfaint o fuddsoddiad gan eu

them, you could not afford to buy cigarettes that week. My health benefited at once. Within a couple of days I felt better, as did my pocket. My confidence was boosted as well so I am happy to support any initiative that helps women on low income to release themselves from dependency on cigarettes. To finish, what is the impact of the continuation of advertising, and does Jane Hutt expect that continuation to be helpful to any initiative that we put forward?

Alun Pugh: We have had several important debates in this Assembly on potential health risks, including the effect of Genetically Modified Organisms and the beef on the bone ban. These are insignificant compared with the death toll from smoking. Already this afternoon we have heard the numbers. It is difficult to comprehend an amount such as 120,000 people dying. The best way to comprehend it is to imagine the number of people in a full Millennium Stadium dying every eight months from smoking. In Wales alone, a town the size of Abergele in my constituency or Dinas Powys in the Secretary for Health and Social Services' constituency is wiped out every year as a result of smoking.

Multinational cigarette corporations are amongst the most irresponsible dangerous organisations active in the world today. I say that advisedly and I include criminal organisations in that category. I welcome the publication of the White Paper on tobacco, 'Smoking Kills'. I am pleased that the UK Government is taking firm action against tobacco advertising as part of the EU directive. However, I am concerned at the speed with which it is being brought in. The Westminster Health Secretary said that the current regime is a sensible compromise between health benefits and the legitimate concerns of the tobacco industry. The tobacco industry has no legitimate concerns. Its only concerns are its profits. Nothing else matters.

bod yn costio tua'r un fath â sigarêts. Felly unwaith y byddech wedi eu prynu, ni allech fforddio prynu sigarêts yr wythnos honno. Bu gwelliant yn fy iechyd yn syth. O fewn ychydig ddyddiau yr oeddwn yn teimlo'n well, a'm poced hefyd. Bu'n hwb i fy hyder hefyd, felly yr wyf yn falch o gefnogi unrhyw fenter sydd yn helpu merched ar incwm isel i'w rhyddhau eu hunain o'u dibyniaeth ar sigarêts. I gloi, beth yw effaith parhau i hysbysebu, ac a ydyw Jane Hutt yn disgwyl i'r parhau hwnnw fod yn fuddiol i unrhyw gynllun a gynigiwn?

Alun Pugh: Cawsom sawl dadl bwysig yn y Cynulliad hwn ar beryglon iechyd potensial, gan gynnwys effaith Organebau a Addaswyd yn Enetig a'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. Mae'r rhain yn bitw o gymharu â nifer y marwolaethau o ysmegu. Eisoes y prynhawn yma yr ydym wedi clywed y niferoedd. Mae'n anodd amgyffred swm fel 120,000 o bobl yn marw. Y ffordd orau i'w amgyffred yw dychmygu llong Stadiwm y Mileniwm yn marw bob wyth mis oherwydd ysmegu. Yng Nghymru'n unig, caiff tref o faint Abergele yn fy etholaeth i neu Dinas Powys yn etholaeth yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei difa bob blwyddyn o ganlyniad i ysmegu.

Mae corfforaethau sigarêts rhyngwladol ymhlith y sefydliadau peryglus mwyaf anghyfrifol sydd yn gweithredu yn y byd heddiw. Dywedaf hynny yn ystyriol ac yr wyf yn cynnwys sefydliadau troseddol yn y categori hwnnw. Yr wyf yn croesawu cyhoeddi'r Papur Gwyn ar dybaco, 'Mae Ysmegu yn Lladd'. Yr wyf yn falch fod Llywodraeth y DU yn gweithredu'n gadarn yn erbyn hysbysebu tybaco fel rhan o gyfarwyddeb yr UE. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus ynghylch cyflymder y gweithredu. Dywedodd Ysgrifennydd Iechyd San Steffan fod y drefn gyfredol yn gyfaddawd synhwyrol rhwng buddiannau iechyd a phryderon cyfreithlon y diwydiant tybaco. Nid oes gan y diwydiant tybaco bryderon cyfreithlon. Elw yw ei unig bryderon. Nid oes ots am ddim arall.

Our greatest concern must be for young

Rhaid i'n pryder mwyaf ni fod am ein pobl

people. We rightly take a view that it is only at the age of 18 that people can make responsible decisions about borrowing money, alcohol consumption and voting. Unfortunately the age at which tobacco can be bought and consumed was set at 16 in primary legislation in 1933. This was well before anyone had any idea of the health risks involved. It cannot be right that we allow children to consume a product which, in the opinion of many health professionals, is as dangerous and harmful as cannabis. We must make young people the focus of our health promotion strategy. I am happy to support David Melding's amendment. Campaigns that highlight the link between smoking and bad skin for girls and the link between smoking and poor sexual performance for men are far more likely to be effective than health statistics and numbers. We must increase the number of smoke-free areas in public places. I am pleased to see that the Assembly is setting an example in this case, although not all Assembly Members are setting an example. Our long-term aim should be to make smoking an activity that is only practised in private between consenting adults.

ifainc. Yn ddigon cywir, cymerwn yr agwedd mai dim ond yn 18 oed y gall pobl wneud penderfyniadau cyfrifol am fenthyca arian, yfed alcohol a phleidleisio. Yn anffodus, gosodwyd yr oed pryd y gellir prynu a defnyddio tybaco yn 16 gan ddeddfwriaeth sylfaenol yn 1933. Yr oedd hynny ymhell cyn i neb gael unrhyw syniad am y peryglon iechyd. Ni all fod yn iawn ein bod yn caniatáu i blant ddefnyddio cynnyrch sydd, ym marn llawer o weithwyr iechyd proffesiynol, mor beryglus a niweidiol â channabis. Rhaid inni roi pobl ifainc yn ganolbwynt ein strategaeth hybu iechyd. Yr wyf yn hapus i gefnogi gwelliant David Melding. Mae ymgyrchoedd sydd yn amlygu'r cysylltiad rhwng ysmegu a chroen gwael i ferched a'r cysylltiad rhwng ysmegu a pherfformiad rhywiol tila i ddynion yn llawer mwy tebygol o fod yn effeithiol nag ystadegau a rhifau iechyd. Rhaid inni gynyddu nifer y mannau di-fwg mewn lleoedd cyhoeddus. Yr wyf yn falch o weld bod y Cynulliad yn gosod esiampl yn yr achos hwn, er nad yw pob Aelod o'r Cynulliad yn dangos esiampl. Ein nod yn y tymor hir ddylai fod sicrhau bod ysmegu'n weithgaredd nad arferir ond yn breifat rhwng oedolion cydsyniol.

3:49 p.m.

Gareth Jones: Mae'n ddiddorol gwrandao ar Aelodau yn dod at y ddadl hon o wahanol gyfeiriadau. Yr ydym wedi gwrandao ar feddygon a chyn-ysmygwyr. Dof innau at y ddadl fel un sydd wedi treulio 30 mlynedd yn y rheng flaen yn ceisio darbwyllio pobl ifainc i beidio ag ysmegu. Yr oeddwn yn gwneud hyn drwy berswâd a thrwy gosbi â'r gansen, sydd yn anghyfreithlon bellach. Ni wnaeth hynny lawer o les gan fod y broblem ofnadwy hon yn un anodd cael gwared arni.

Gareth Jones: It is interesting to listen to Members approaching this debate from different directions. We have listened to doctors and ex-smokers. I approach the debate as one who has spent 30 years on the front line trying to convince young people not to smoke. I did this through persuasion and by punishing with the cane, which is now illegal. That was not very beneficial as this terrible problem is difficult to eliminate.

Mae un agwedd ar fy mhrofiad yn bodoli hyd heddiw. Nid oes neb wedi cyfeirio ati ond fe wnaif hynny yn awr. Cyhoeddodd y Llywodraeth beth amser yn ôl ei bod am gymryd safbwynt llawdrwm ar rieni a oedd yn caniatáu i'w plant beidio â mynychu'r ysgol. Yr oedd sôn y byddai'r rhieni hynny yn cael eu dirwyo hyd at y swm aruthrol o £2,500.

One aspect of my experience still exists today. No one has referred to it yet but I will do so now. The Government announced some time ago that it would take a hard line on parents who allowed their children not to attend school. It was mentioned that these parents would be fined up to the massive sum of £2,500.

Un agwedd ar fy mhrofiad oedd bod rhieni yn aml yn caniatáu i blant ysmygu yn y cartref ac yn darparu sigarêts ar eu cyfer. Nid oes neb wedi cyfeirio at y broblem aruthrol hon y prynhawn yma. Sut y mae'r Llywodraeth am daclo'r broblem hon? Mae lle i bryderu'n fawr, gan nad yw'r neges yn cyrraedd y cartrefi. A ydych am gosbi'r rhieni hyn yn yr un modd ag y cosbwch y rhieni sydd yn caniatáu i'w plant chwarae triwant?

John Griffiths: Assembly Members, such as myself, who represent areas of relative deprivation, are keenly aware of the dangers that smoking poses for people in those areas. It was mentioned earlier that people who are relatively deprived smoke in greater numbers. It is brought home to us when we see the terrible story that locally produced health statistics tell.

I would like a move towards a ban on smoking in all public places. I welcome voluntary codes, previously discussed here, as a move in that direction. Many people, including the tobacco companies—who are very cynical about these things—would state that that challenges the freedom of the individual. However, we must bear in mind the health situation and the effects of passive smoking. It is clear to anyone where the balance of interest lies. There must eventually be a ban on smoking in all public places. I do not hesitate to support a move in that direction—possibly a widespread acceptance of a voluntary code restricting smoking, starting in restaurants and cafes. Many people would support that. Even though lipservice is paid to a smoke-free environment by having no-smoking areas, smoke spreads far beyond those areas. People in restaurants are eating, drinking and speaking in smoky atmospheres. One person smoking a pipe or a cigar can quickly fill a large area with smoke. It is not simply a matter of discomfort with clothes and hair smelling of smoke. It is a matter of dire health consequences to individuals. People working in these establishments do not have a choice as they need to earn a living and they are constantly inhaling this smoke. Roy Castle, for example, experienced that as a

One aspect of my experience was that parents often allowed children to smoke in the home and provided them with cigarettes. No-one has referred to this huge problem this afternoon. How will the Government tackle this problem? There is great cause for concern, as the message does not get through to the homes. Will you punish these parents in the same way that you punish the parents who allow their children to play truant?

John Griffiths: Mae Aelodau'r Cynulliad fel fi, sydd yn cynrychioli ardaloedd cymharol ddifreintiedig, yn ymwybodol iawn o beryglon ysmygu i bobl yn yr ardaloedd hynny. Soniwyd yn gynharach fod niferoedd mwy o bobl sydd yn gymharol ddifreintiedig yn ysmygu. Mae hyn yn taro adref inni pan welwn y stori erchyll a adroddir gan ystadegau iechyd a gynhyrchir yn lleol.

Hoffwn symudiad tuag at wahardd ysmygu ym mhob man cyhoeddus. Yr wyf yn croesawu codau gwirfoddol, a drafodwyd yma o'r blaen, fel symudiad i'r cyfeiriad hwnnw. Byddai llawer o bobl, gan gynnwys y cwmnïau tybaco—sydd yn sinigaidd iawn am y pethau hyn—yn dweud bod hynny'n herio rhyddid yr unigolyn. Fodd bynnag, rhaid inni gofio'r sefyllfa iechyd ac effeithiau ysmygu goddefol. Mae'n amlwg i unrhyw un ble y mae'r fantais. Yn y pen draw, rhaid gwahardd ysmygu ym mhob man cyhoeddus. Ni phetrusaf rhag cefnogi symudiad i'r cyfeiriad hwnnw—o bosibl derbyniad cyffredinol i gôd gwirfoddol yn cyfyngu ysmygu, gan ddechrau mewn bwytai a chaffis. Byddai llawer o bobl yn cefnogi hynny. Er y gwneir consesiwn i amgylchedd di-fwg drwy gael mannau dim ysmygu, bydd mwg yn ymledu ymhell o'r mannau hynny. Mae pobl mewn bwytai yn bwyta, yfed a siarad mewn awyrgylch myglyd. Gall un person yn ysmygu cetyn neu sigâr lenwi man eang â mwg yn fuan iawn. Nid mater yn unig o anghysur gyda dillad a gwallt yn drewi o fwg ydyw, ond mater sydd â goblygiadau difrifol i iechyd unigolion. Nid oes gan bobl sydd yn gweithio yn yr amgylcheddau hyn ddewis gan fod angen iddynt ennill bywoliaeth ac maent yn anadlu'r mwg yma o hyd. Profodd Roy Castle, er enghraifft,

jazz musician in clubs, and the consequences suffered by him are a message to everybody. A widespread voluntary code in restaurants and cafes spreading to shopping centres would send a strong message, to everyone's benefit, about the social unacceptability of smoking to everybody's benefit. It would discourage people who have just started smoking from continuing and encourage others to quit. There would be fewer role models for young people, in particular, which would then discourage them from smoking.

It is a crucial issue for young people as it is a difficult habit to quit. If they are discouraged from starting, they will never be faced with the difficulties of trying to give up. Some health messages are difficult to hammer home to them because they think they will live forever and they do not consider the long-term health consequences. They think it will be easy to give up when they wish but, unfortunately, by the time they begin to consider their health, it is very difficult for them to give up because they are hooked.

Tobacco companies that talk about the individual's freedom have proved to be cynical in many ways. Someone mentioned targeting overseas markets like third world countries and trying to replace smokers they have lost in developed countries with those in developing ones. In the past, they have purposefully increased nicotine levels in cigarettes so that people are hooked more quickly. They have displayed a terrible degree of cynicism and are only concerned with financial bottom lines. The individual's freedom must be seen in the light of that cynicism.

I also accept the point about weight gain as a fear for the smoker who considers quitting. A number of people I know think along those lines. For many women, in particular, smoking is considered an appetite suppressant. We must address that when we consider schemes to encourage people to give up smoking.

It has been a good debate and I fully support

hynny fel cerddor jazz mewn clybiau, ac mae'r canlyniadau a ddioddefodd ef yn neges i bawb. Byddai côd gwirfoddol cyffredin mewn bwytai a chaffis, gan ymledu i ganolfannau siopa, yn anfon neges glir am annerbynioldeb cymdeithasol ysmegu a hynny er lles pawb. Byddai'n gwneud i bobl sydd newydd ddechrau ysmegu amau gwerth parhau ac yn annog eraill i roi'r gorau iddi. Byddai llai o batrymau ymddygiad i bobl ifainc, yn enwedig, a byddai hynny wedyn yn eu gwrthannog rhag ysmegu.

Mae'n fater allweddol i bobl ifainc gan ei fod yn arferiad anodd i roi'r gorau iddo. Os na chânt gefnogaeth i ddechrau ysmegu, ni fyddant byth yn gorfod wynebu anawsterau ceisio rhoi'r gorau iddi. Mae'n anodd eu cael i dderbyn rhai negeseuon iechyd oherwydd maent yn meddwl y byddant yn byw am byth ac nid ydynt yn ystyried y canlyniadau tymor-hir i iechyd. Maent yn meddwl y bydd hi'n hawdd rhoi'r gorau iddi pan fynnant, ond, yn anffodus, erbyn yr amser y byddant yn dechrau ystyried eu hiechyd, mae'n anodd iawn iddynt roi'r gorau iddi am eu bod yn gaeth.

Mae cwmnïau tybaco sydd yn siarad am ryddid yr unigolyn wedi profi eu bod yn sinigaidd mewn sawl ffordd. Soniodd rhywun am dargedu marchnadoedd tramor fel gwledydd y trydydd byd a cheisio ennill ysmygwyr yn y gwledydd datblygol i gymryd lle'r rhai a gollwyd mewn gwledydd datblygedig. Yn y gorffennol maent wedi cynyddu lefelau nicotîn mewn sigarêts yn fwiadol er mwyn i bobl fynd yn gaeth yn gyflymach. Maent wedi dangos sinigiaeth ar raddfa ofnadwy a'r llinell waelod ariannol yw eu hunig bryder. Rhaid gweld rhyddid yr unigolyn yng ngoleuni'r sinigiaeth honno.

Yr wyf yn derbyn y pwynt hefyd am roi pwysau ymlaen fel ofn ym meddwl yr ysmegwr sydd yn ystyried rhoi'r gorau iddi. Mae nifer o bobl yr wyf i'n eu hadnabod yn meddwl ar hyd y llinellau hynny. I lawer o ferched, yn arbennig, ystyrir bod ysmegu'n lladd archwaeth am fwyd. Rhaid inni ystyried hynny pan fyddwn yn trafod cynlluniau i annog pobl i roi'r gorau i ysmegu.

Bu'n ddadl dda ac yr wyf yn llwyr gefnogi

other points raised today. However, what particularly concerns me is the danger of passive smoking to children. Parents should think long and hard about the effects of smoking on their children. We need a hard-hitting campaign focusing on those dangers to make parents think very hard as to whether they should continue smoking.

Furthermore, we must consider the contents of film, TV and video as well as advertising because, although smoking is often shown in a negative light, there is still the issue of role models. Role models have a strong influence on young people. Therefore, we should also consider these when an advertising ban is brought into effect.

Jane Hutt: I am grateful for this debate because it has been constructive and well informed. There were contributions from ex-smokers, doctors, pharmacists, parents and teachers on this important issue. Ultimately, it is about how we improve the health and wellbeing of the people in Wales in the long term. Prevention, promotion and health improvement strategies will provide the key to improvement. If we are to reverse the ill-health statistics, we must recognise that the whole of Wales should be a health action zone. It is important that we debate this issue further in the Health and Social Services Committee. I am even more convinced, as a result of this debate, that it would be wrong to target certain areas in Wales in the way which you are describing for health action zones, because poverty and people who are vulnerable to smoking are in every community in every part of Wales.

3:59 p.m.

The debate today has identified particular groups most vulnerable to smoking, including women, young women and children. For Wales to move forward with a strategic campaign against smoking, we must target the people who are most at risk, particularly young people. This would work against the principle of the health action zone. These people are mentioned in the White Paper as part of the UK picture of how

pwytiau eraill a godwyd heddiw. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn peri pryder arbennig i mi yw perygl ysmygu goddefol i blant. Dylai rhieni ddwys ystyried effeithiau ysmygu ar eu plant. Mae angen ymgyrch galed yn canolbwyntio ar y peryglon hynny i wneud i rieni feddwl yn galed iawn ynghylch a ddylent ddal ati i ysmygu.

Ar ben hynny, rhaid inni ystyried cynnwys ffilmiau, teledu a fideo yn ogystal â hysbysebion oherwydd, er y dangosir ysmygu'n aml mewn golau negyddol, mae'r cwestiwn o batrymau ymddygiad yn dal i fodoli. Mae gan fodolau rôl ddylanwad mawr ar bobl ifainc. Felly, dylem ystyried y rhain hefyd pan ddaw gwaharddiad ar hysbysebu i rym.

Jane Hutt: Yr wyf yn ddiolchgar am y ddadl hon oherwydd bu'n adeiladol ac yn wybodus. Cafwyd cyfraniadau gan gyn-ysmygwyr, meddygon, fferyllwyr, rhieni ac athrawon ar y mater pwysig hwn. Yn y pen draw, mater ydyw o sut yr ydym am wella iechyd a lles pobl Cymru yn y tymor hir. Strategaethau ataliol, hybu a gwella iechyd fydd yn darparu'r allwedd i welliant. Os ydym am wrthdroi'r ystadegau afiechyd, rhaid inni gydnabod y dylai Cymru gyfan fod yn barth gweithredu iechyd. Mae'n bwysig ein bod yn trafod y cwestiwn hwn ymhellach yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr wyf yn fwy argyhoeddedig fyth, o ganlyniad i'r ddadl hon, y byddai'n anghywir targedu rhai ardaloedd yng Nghymru yn y modd yr ydych yn ei ddisgrifio ar gyfer parthau gweithredu iechyd, oherwydd ceir tlodi a phobl sydd yn ysglyfaeth i ysmygu ym mhob cymuned ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r ddadl heddiw wedi nodi grwpiau arbennig sydd yn fwyaf bregus yn wyneb ysmygu, gan gynnwys merched, merched ifainc a phlant. I Gymru symud ymlaen ag ymgyrch strategol yn erbyn ysmygu, rhaid inni dargedu'r bobl sydd fwyaf mewn perygl, yn enwedig bobl ifainc. Byddai hyn yn gweithio yn erbyn yr egwyddor o barth gweithredu iechyd. Sonnir am y bobl hyn yn y Papur Gwyn fel rhan o ddarlun y DU o'r

health action zones are approached on a range of policies. However, in Wales because of our ill-health statistics and because we have identified the people who are most at risk, it would be wrong to start saying that a particular community, valley or area should be a health action zone at which we would target this campaign.

I am grateful to David, Dai and Kirsty for their positive remarks on the White Paper. There is much consensus here. We must take stern action in Wales as we have our own methods and vehicles for doing that. Local health groups and local health allowances are the routes through which we should target the action, the campaigns and the measures for the people who are most at risk. Many of you have talked about the importance of getting the right kind of initiative. It is not about preaching or statistics but about the poorest people who are vulnerable, about those who are affected through cultural issues and young people, particularly, who are seduced by role models, the glamour of smoking and the issue of smoking and dieting. Some campaigns work and some do not. The most important point is that we target our resources effectively.

As GPs, Dai and Brian especially know the consequences of smoking. The measures that we have outlined will start to tackle the issue. We must look at the issue in terms of Wales as a whole for the purposes of our campaign. David's point about enforcement is interesting because I think that local health allowances again are the route to strategies for enforcement. Part of the funding which I am announcing today is about targeting under-age sales. That must be done through our local health allowances which will have the trading standards and public protection people taking the lead with traders and schools. This is a vital area where we can work together across education, health and trading standards.

This is a critical issue because we have described measures on the international scene which is very helpful. Jocelyn asked whether we knew what the impact of the ban

modd yr ymdrinnir â pharthau gweithredu iechyd ar amrediad o bolisïau. Fodd bynnag, yng Nghymru oherwydd ein hystadegau afiechyd ac oherwydd ein bod wedi nodi'r bobl sydd fwyaf mewn perygl, byddai'n anghywir inni ddechrau dweud y dylai rhyw gymuned, cwm neu ardal arbennig fod yn barth gweithredu iechyd lle dylem dargedu'r ymgyrch hon.

Yr wyf yn ddiolchgar i David, Dai a Kirsty am eu sylwadau cadarnhaol ar y Papur Gwyn. Mae llawer o gonsensws yma. Rhaid inni weithredu'n llym yng Nghymru gan fod gennym ein dulliau a'n cyfryngau ein hunain ar gyfer gwneud hynny. Trwy grwpiau iechyd lleol a lwfansau iechyd lleol y dylem dargedu'r gweithredu, yr ymgyrchoedd a'r mesurau ar gyfer y bobl sydd fwyaf mewn perygl. Mae llawer ohonoch wedi sôn am bwysigrwydd cael y math iawn o gynllun. Nid mater o bregethu nac ystadegau ydyw, ond o nodi'r bobl dlotaf sydd fwyaf bregus, y rhai yr effeithir arnynt gan gwestiynau diwylliant a phobl ifainc, yn enwedig, a hudir gan fodolau rôl, hudoliaeth ysmegu a'r cwestiwn o ysmegu a cholli pwysau. Mae rhai ymgyrchoedd yn gweithio ac eraill ddim. Y pwynt pwysicaf yw ein bod yn targedu'n hadnoddau'n effeithiol.

Fel meddygon teulu, mae Dai a Brian yn arbennig yn gwybod am ganlyniadau ysmegu. Bydd y mesurau a amlinellwyd gennym yn dechrau ymdrin â'r mater. Rhaid inni edrych arno yn nhermau Cymru gyfan i ddibenion ein hymgyrch. Mae pwynt David am orfodaeth yn ddiddorol oherwydd yr wyf yn meddwl mai lwfansau iechyd lleol eto yw'r ffordd tuag at strategaethau gorfodi. Mae rhan o'r cyllid yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn ymwneud â thargedu gwerthu i bobl dan oed. Rhaid gwneud hynny drwy ein lwfansau iechyd lleol lle gwelir y bobl safonau masnach a gwarchod y cyhoedd yn arwain masnachwyr ac ysgolion. Dyma faes allweddol lle gallwn gydweithio ar draws addysg, iechyd a safonau masnach.

Mater allweddol yw hwn gan ein bod wedi disgrifio mesurau rhyngwladol sydd yn ddefnyddiol iawn. Gofynnodd Jocelyn a oeddem yn gwybod beth fyddai effaith y

would be and David described the considerable impact of a ban already enforced in Scandinavian countries. Tobacco companies will move to the developing world. In this country they have moved to the poorest areas. Frank Dobson said that tobacco companies advertise in stations in the poorest parts of cities and towns in England and not in the more middle-class professional areas.

Kirsty Williams: Given the importance you place on a ban on advertising tobacco products, why will you not support the Liberal Democrat motion that refers to the fact that your Government in London has pulled back and will not implement a full ban for another three years?

Jane Hutt: Bringing in the regulations on 10 December 1999 puts us 18 months in advance of the European Directive timescale. The regulations ban all forms of advertising not included in the definition of sponsorship. The final regulations differ from the draft regulations but only in minor points and transitional arrangements. That is not appeasing the tobacco industry which is taking the Government to the European Court of Justice against the EU Directive measures.

You quote from ASH. Its press release issued on Monday expressed concern over the new transitional arrangements but welcomed the new enforcement powers as putting in the missing teeth. It said that 'On balance, the final regulations are actually stronger than the draft version we saw in June'.

The critical point is that we have firmer regulations than we had before. The consultation period has given them strength. The transitional regulations are in place. However, ASH understands that, as a result of consultation, they are only transitional arrangements. It also understands that that we have stronger enforcement now that the

gwaharddiad a disgrifiodd David yr effaith sylweddol a gafodd gwaharddiad a weithredwyd yn barod mewn gwledydd Llychlynnaidd. Bydd cwmnïau tybaco'n symud i'r byd datblygol. Yn y wlad hon maent wedi symud i'r ardaloedd tlotaf. Dywedodd Frank Dobson fod cwmnïau tybaco'n hysbysebu mewn gorsafoedd yn rhannau tlotaf dinasoedd a threfi yn Lloegr ac nid yn yr ardaloedd proffesiynol mwy dosbarth canol.

Kirsty Williams: Yn wyneb y pwysigrwydd yr ydych yn ei osod ar wahardd hysbysebu nwyddau tybaco, pam na wnewch chi gefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol sydd yn cyfeirio at y ffaith fod eich Llywodraeth yn Llundain wedi tynnu'n ôl ac na fydd yn gweithredu gwaharddiad llawn am dair blynedd eto?

Jane Hutt: Mae cyflwyno'r rheoliadau ar 10 Rhagfyr 1999 yn ein rhoi 18 mis ar y blaen i amserlen y Gyfarwyddeb Ewropeaidd. Mae'r rheoliadau'n gwahardd pob ffurf ar hysbysebu nad yw wedi'i gynnwys yn y diffiniad o nawdd. Mae'r rheoliadau terfynol yn wahanol i'r rheoliadau drafft, ond dim ond mewn mân bwyntiau a threfniadau trawsnewid. Nid yw hynny'n ymgais i blesio'r diwydiant tybaco, sydd yn mynd â'r Llywodraeth i Lys Cyfiawnder Ewrop yn erbyn mesurau Cyfarwyddeb yr UE.

Yr ydych yn dyfynnu Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd. Yn eu datganiad i'r wasg a ryddhawyd ddydd Llun mynegwyd pryder am y trefniadau trawsnewid newydd ond croesawyd y pwerau gorfodi newydd fel rhywbeth oedd yn rhoi'r dannedd coll i mewn. Dywedwyd 'Ar y cyfan, mae'r rheoliadau terfynol yn gryfach mewn gwirionedd na'r fersiwn ddrafft a welsom ym mis Mehefin'.

Y pwynt allweddol yw bod gennym reoliadau cadarnach nag a oedd gennym o'r blaen. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi rhoi cryfder iddynt. Mae'r rheoliadau trawsnewidiol yn eu lle. Fodd bynnag, y mae Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd yn deall mai dim ond trefniadau trawsnewidiol ydynt, yn sgîl yr ymgynghori. Maent yn deall hefyd fod

Secretary of State for Health is the enforcer. This is far stronger than the original suggested regulations.

From December let us move forward and be positive. From then on we will not have that advertising in the streets of our communities in Wales. We are moving towards this transitional arrangement with the ban, and I appreciate that some colleagues within the Welsh Labour Party are concerned. However, we now have stronger regulations.

It is a transitional period and let us move forward with the policies and measures that I have announced today to ensure that Wales has a campaign to deal with Welsh problems.

I am grateful that the response today shows that everybody will take this on board. To return to the issue of targeting; it is more than only a health issue, it is also a social and economic issue. It involves the most vulnerable people and is linked to educational circumstances, class and deprivation. It is linked to the purpose of Better Health, Better Wales, which is to bring the health level of the poorest people up to that of the people with the best health in Wales.

It is therefore vitally important that our measures are acted out in our workplaces and that we bring in our social and business partners. David talked about the Co-op. I am glad that he supports the Co-op. It is a socially responsible business. In the Assembly, we can talk to our business and voluntary sector partners, as well as inside the public sector itself about how we implement these measures.

All of Wales is to be involved in a no-smoking day and Quit to Win campaigns. We should encourage our employers in the public sector to take the lead. We can encourage our cultural icons in Wales to help us in this campaign. Everybody can have a role. It is important that we do not narrow this down to spending in particular areas or communities only because that would mean

gennym bwerau gorfodi cryfach yn awr gan mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yw'r gorfodwr. Mae hyn yn llawer cryfach na'r rheoliadau a awgrymwyd yn wreiddiol.

O fis Rhagfyr gadewch inni symud ymlaen a bod yn gadarnhaol. O hynny ymlaen ni fydd gennym yr hysbysebu hwnnw yn strydoedd ein cymunedau yng Nghymru. Yr ydym yn symud tuag at y trefniant trawsnewidiol hwn gyda'r gwaharddiad, ac yr wyf yn sylweddoli bod rhai cyd-aelodau yn y Blaid Lafur Gymreig yn bryderus. Fodd bynnag, y mae gennym reoliadau cryfach yn awr.

Mae'n gyfnod trawsnewidiol, a gadewch inni symud ymlaen gyda'r polisiau a'r mesurau a gyhoeddais heddiw i sicrhau bod gan Gymru ymgyrch i ddelio â phroblemau Cymreig.

Yr wyf yn ddiolchgar fod yr ymateb heddiw'n dangos y bydd pawb yn derbyn hyn. I fynd yn ôl at y cwestiwn o dargedu; mae'n fwy na mater iechyd yn unig, mae hefyd yn fater cymdeithasol ac economaidd. Mae a wnelo â'r bobl fwyaf bregus ac mae'n gysylltiedig ag amgylchiadau addysgol, dosbarth ac amddifadiad. Mae'n gysylltiedig â phwrpas Iechyd Gwell, Cymru Well, sef codi lefel iechyd y bobl dlotaf at lefel y bobl â'r iechyd gorau yng Nghymru.

Mae'n holl bwysig felly y gweithredir ein mesurau yn ein mannau gwaith ac y deunw i mewn â'n partneriaid cymdeithasol a busnes. Soniodd David am y Co-op. Yr wyf yn falch ei fod yn cefnogi'r Co-op. Mae'n fusnes sydd yn gymdeithasol gyfrifol. Yn y Cynulliad, gallwn siarad â'n partneriaid ym myd busnes a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag yn y sector cyhoeddus ei hun, ynghylch y modd y gweithredwn y mesurau hyn.

Bydd Cymru gyfan yn cymryd rhan mewn diwrnod dim ysmygu ac ymgyrchoedd 'Quit to Win'. Dylem annog ein cyflogwyr yn y sector cyhoeddus i ddangos arweiniad. Gallwn annog ein heiconau diwylliannol yng Nghymru i'n helpu yn yr ymgyrch hon. Gall pawb gael rôl. Mae'n bwysig nad ydym yn cyfyngu hyn i wariant mewn ardaloedd neu gymunedau penodol yn unig oherwydd

going against the cross-cutting objectives of targeting the poorest and most vulnerable people in Better Health, Better Wales.

4:09 p.m.

Pharmacists can play an important role in local health groups, as does Geraint through chairing a number of them. That is different from England, which does not have pharmacists chairing primary care trusts. I know your party does not support trusts although they are in the Health Act.

It is important that we consider what we are creating in Wales. We have support and we must look at those measures in trying to ensure that this initiative and campaign makes a difference. We can all play a role. It is important for the future health and wellbeing of the people of Wales. If Kirsty were willing, I would like a debate in the Health and Social Services Committee about health action zones. We could debate how or should we target resources. However we need an all-Wales solution to what is an all-Wales problem. We need a strategic solution and local answers. Let us take that on board in supporting this motion.

The Presiding Officer: We will now vote on the first amendment in the name of David Lloyd.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

The Presiding Officer: We will now vote on the second amendment in the name of David Lloyd.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

The Presiding Officer: We will now vote on the amendment in the name of David Melding.

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

byddai hynny'n golygu mynd yn erbyn yr amcanion trawstoriadol o dargedu'r bobl dlotaf a mwyaf bregus a geir yn Iechyd Gwell, Cymru Well.

Gall fferyllwyr chwarae rhan bwysig mewn grwpiau iechyd lleol, fel y gwna Geraint drwy gadeirio nifer ohonynt. Mae hynny'n wahanol i Loegr, lle na fydd fferyllwyr yn cadeirio ymddiriedolaethau iechyd sylfaenol. Yr wyf yn gwybod nad yw eich plaid yn cefnogi ymddiriedolaethau er eu bod yn y Ddeddf Iechyd.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried yr hyn yr ydym yn ei greu yng Nghymru. Mae gennym gefnogaeth ac mae'n rhaid inni edrych ar y mesurau wrth geisio sicrhau bod y cynllun a'r ymgyrch hon yn gwneud gwahaniaeth. Gallwn i gyd chwarae rhan. Mae'n bwysig i iechyd a lles pobl Cymru yn y dyfodol. Os bydd Kirsty'n fodlon, hoffwn ddadl yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar barthau gweithredu iechyd. Gallem drafod sut neu a ddylem dargedu adnoddau. Fodd bynnag, mae arnom angen ateb Cymru-gyfan i broblem sydd yn un i Gymru gyfan. Mae angen ateb strategol ac atebion lleol. Gadewch inni dderbyn hynny wrth gefnogi'r cynnig hwn.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant cyntaf yn enw David Lloyd.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar yr ail welliant yn enw David Lloyd.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant yn enw David Melding.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

The Presiding Officer: We will now vote on the amendment in the name of Kirsty Williams.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant yn enw Kirsty Williams.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

The Presiding Officer: I think the amendment is rejected.

Y Llywydd: Yr wyf yn meddwl bod y gwelliant wedi ei wrthod.

Jenny Randerson: I ask for a confirmatory vote.

Jenny Randerson: Gofynnaf am bleidlais gadarnhau.

The Presiding Officer: There has been a request for a confirmatory vote, which will be conducted by roll-call.

Y Llywydd: Cafwyd cais am bleidlais gadarnhau, a gynhelir drwy alw'r gofrestr.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 26.
The Assembly divided: For 25, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Humphreys, Christine
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Amendment rejected.

Gwrthodwyd y gwelliant.

4.19 p.m.

The Presiding Officer: We will now vote on the amended motion, that the Assembly

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi ei ddiwygio, sef bod y Cynulliad

recognises that smoking is the greatest cause of preventable illness and premature death in Wales; *yn cydnabod bod ysmegu yn achosi mwy o salwch y gellid ei osgoi a mwy o farwolaethau cyn pryd yng Nghymru nag unrhyw ffactor arall;*

welcomes the comprehensive programme of measures set out in the Tobacco White Paper; *yn croesawu'r rhaglen gynhwysfawr o fesurau a amlinellir yn y Papur Gwyn ar Dybaco;*

endorses the programme of activities being undertaken in Wales to prevent children and young people from taking up smoking, to encourage adults to stop smoking and to increase the number of smoke free public places, and *yn cymeradwyo'r rhaglen o weithgareddau sydd yn cael eu cynnal yng Nghymru i rwystro plant a phobl ifainc rhag dechrau ysmegu, i annog oedolion i roi'r gorau i ysmegu ac i gynyddu nifer y mannau cyhoeddus lle gwaherddir ysmegu, ac*

notes that most smokers acquire the habit as teenagers, and therefore particularly supports measures to encourage children and young people who smoke to give up. *yn nodi bod y rhan fwyaf o ysmygwyr yn magu'r arferiad yn eu harddegau, ac mae, felly, yn arbennig o gefnogol i fesurau i annog plant a phobl ifainc sydd yn ysmegu i roi'r gorau iddi.*

A vote was held by show of hands. Amended motion adopted. *Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Derbyniwyd y cynnig wedi ei ddiwygio.*

Alun Pugh: Point of order. When will the electronic voting system be repaired? There was a problem yesterday and we lost a lot of time. **Alun Pugh:** Pwynt o drefn. Pa bryd y caiff y system bleidleisio electronig ei thrwsio? Cafwyd problem ddoe a cholwyd llawer o amser.

The Presiding Officer: I will make a statement as soon as possible, but we will use roll-call until necessary changes have been made to the electronic voting system. **Y Llywydd:** Byddaf yn gwneud datganiad cyn gynted ag y bo modd, ond byddwn yn defnyddio'r drefn galw cofrestr hyd nes bydd newidiadau angenrheidiol wedi eu gwneud i'r system bleidleisio electronig.

Entrepreneuriaeth—Gwasanaethau Cymorth i Fusnesau Entrepreneurship—Business Support Services

The Presiding Officer: I have selected the amendments standing in the names of Michael German and Phil Williams. **Y Llywydd:** Yr wyf wedi dewis y gwelliannau sydd yn sefyll yn enwau Michael German a Phil Williams.

The First Secretary: I propose that the Assembly **Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cynnig bod y Cynulliad

notes that a successful future for the Welsh economy depends on a strong culture of entrepreneurship and agrees that the relevant Assembly policies should reflect the importance of successful entrepreneurship and the need to increase the level of business start-ups in Wales and the rate of survival, *yn nodi bod dyfodol llewyrchus i economi Cymru'n dibynnu ar ddiwylliant cryf o entrepreneuriaeth ac mae'n cytuno y dylai polisïau perthnasol y Cynulliad adlewyrchu pwysigrwydd entrepreneuriaeth lwyddiannus a'r angen i sicrhau bod mwy o fusnesau'n cael eu sefydlu yng Nghymru a mwy o*

innovation and growth rates among small and medium sized firms in Wales.

Three months ago, the United States Ambassador, Mr Philip Lader, commended American investment in Wales and challenged us to look at America's recent enterprise record. Seventy per cent of new jobs have come from new businesses since 1990; 18 million new jobs have been created since 1993 and, last year, two million new businesses were formed by Americans under the age of 30.

Our record is not as bad as some commentators have suggested. Welsh successes are reflected in a wide range of walks of life: Iceland Foods; Tower Colliery; Pinacl; Halo Foods which is now featured on the Welsh Monopoly board; Henrob; Penn Pharmaceuticals; Lovesgrove; Labtech; Magstim; Ubiquity Software; Imaginet; MR Sentire; Pentwyn Splicers; Tellermate; Osprey Metals; Hyper Value; Designs for the Attic; Patchwork Fords; the Walnut Tree, probably one of the best ten restaurants in the UK, I am told; the Bear in Crickhowell which has been voted UK pub of the year; Europressings; the fifty companies listed in the University of Glamorgan Nat West KPMG Fast Growth study. I could continue with the list.

It is not just successes in the commercial sphere. Entrepreneurship is not only about wealth creation and employment generation; it is also about building confidence. I am a great believer in social entrepreneurship. We can look to civic entrepreneurs like the Reverend John Morgan at Penrhys and Robert Cornwall at Gurnos; organisations like Track 2000 in Cardiff or Newport Wastesavers who are showing initiative in the field of recycling. There are also sporting entrepreneurs such as Graham Henry whom we can count as Welsh, who wants to be Welsh and as far as I am concerned is Welsh. We also have musical heroes who know a thing or two about wealth generation.

I mentioned those examples not to encourage complacency but to make the point that things are happening in Wales about which

gwmnïau bach a chanolig yng Nghymru'n goroesi, yn torri tir newydd ac yn tyfu.

Dri mis yn ôl, cymeradwyodd Llysgennad yr Unol Daleithiau, Mr Philip Lader, fuddsoddiad Americanaidd yng Nghymru a heriodd ni i edrych ar record America o ran menter yn ddiweddar. Daeth saith deg y cant o swyddi newydd o fusnesau newydd er 1990; crewyd 18 miliwn o swyddi newydd ers 1993 ac, y llynedd, fe ffurfiwyd dwy filiwn o fusnesau newydd gan Americanaid dan 30 mlwydd oed.

Nid yw ein record ni cynddrwg ag a awgrymwyd gan rai sylwebyddion. Adlewyrchir llwyddiannau Cymreig mewn amrediad eang o agweddau ar fywyd: Bwydydd Iceland; Glofa'r Tŵr; Pinacl; Bwydydd Halo sydd bellach wedi ei gynnwys ar y bwrdd Monopoli Cymreig; Henrob; Penn Pharmaceuticals; Lovesgrove; Labtech; Magstim; Ubiquity Software; Imaginet; MR Sentire; Pentwyn Splicers; Tellermate; Osprey Metals; Hyper Value; Designs for the Attic; Patchwork Fords; y Walnut Tree, un o ddeg bwyty gorau'r DU, mae'n debyg, yn ôl a glywaf; y Bear yng Nghrucywel a bleidleisiwyd yn dafarn y flwyddyn drwy'r DU; Europressings; yr hanner cant o gwmnïau a restrir yn astudiaeth Twf Cyflym Nat West KPMG Prifysgol Morgannwg. Gallwn fynd ymlaen i restru.

Nid llwyddiannau yn y byd masnachol yn unig a welir. Yn ogystal â chreu cyfoeth a chynhyrchu cyflogaeth mae a wnelo entrepreneuriaeth â magu hyder. Yr wyf yn gredwr mawr mewn entrepreneuriaeth gymdeithasol. Gallwn edrych at entrepreneuriaid dinesig fel y Parchedig John Morgan ym Mhen-rhys a Robert Cornwall yn y Gurnos; sefydliadau fel Track 2000 yng Nghaerdydd neu Newport Wastesavers sydd yn dangos dyfeisgarwch ym maes ailgylchu. Ceir entrepreneuriaid chwaraeon hefyd fel Graham Henry, y gallwn ei gyfrif yn Gymro, sydd eisiau bod yn Gymro ac sydd yn Gymro i mi. Mae gennym arwyr cerddorol hefyd sydd yn gwybod tipyn am greu cyfoeth.

Soniais am yr enghreifftiau hynny nid er mwyn inni gael gorffwys ar ein rhwyfau, ond i wneud y pwynt fod pethau'n digwydd yng

we should be confident and proud. The common factor in these examples is that they are the results of bold venturing by individuals and teams. However, we need more, and that is what aspiring to a strong entrepreneurial culture means. Wales is still below average in terms of VAT business registrations. In 1998 we registered 26 new businesses per 10,000 adults, whereas the UK average was 40 and London achieved 70. We will also be discussing our business failure rate but, since business turbulence is often associated with the world's most successful economies, it is our business birth rate that demands greatest attention. I underlined that point earlier this week. We heard the interviewer on *Good Morning Wales* ask a financial expert the following question:

'We often hear a lot on this programme about company failures but not so much about start-ups and successes. Are you saying that the picture is not as gloomy as we often portray?'

It was a good question and the answer from the expert was, 'Yes'. It is all too easy for the impact of closures to be seen and for the successes not to be as visible. It is right to focus on the damaging impact of closure, especially when they are so dramatic and have such a great effect on a single community as was recently seen in Ystradgynlais. We have seen equivalent situations, for example, in the mining valleys and with the closure of East Moors steelworks in Cardiff. However, we must get the balance right between optimism and pessimism. Recent international studies have indicated that entrepreneurial activity is positively correlated with GDP gains. We need to consider this in Wales. Variations in rates of entrepreneurship may account for as much as one-third of the variation between countries in economic growth.

The UK is at the middle of the international league table. In Wales, a study last year by

Nghymru a ddylai fod yn destun hyder a balchder. Y ffactor cyffredin yn yr enghreifftiau hyn yw eu bod yn ganlyniadau mentro eofn gan unigolion a thimau. Fodd bynnag, mae arnom angen mwy, a dyna a olygir wrth sôn am ymgyradd at ddiwylliant entrepreneuriaidd cryf. Mae Cymru'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yn nhermau busnesau'n cofrestru ar gyfer TAW. Yn 1998 cofrestrwyd 26 busnes newydd am bob 10,000 o oedolion, tra mai 40 oedd cyfartaledd y DU ac yr oedd cyfartaledd Llundain yn 70. Byddwn hefyd yn trafod ein cyfradd methiannau busnes, ond gan fod ansicrwydd busnesau'n aml yn dod law yn llaw ag economïau mwyaf llwyddiannus y byd, ein cyfradd cychwyn busnesau yw'r un sydd angen y sylw mwyaf. Tanlinellais y pwynt hwnnw yn gynharach yr wythnos hon. Clywsom y cyfwelydd ar *Good Morning Wales* yn gofyn y cwestiwn canlynol i arbenigwr ariannol:

'We often hear a lot on this programme about company failures but not so much about start-ups and successes. Are you saying that the picture is not as gloomy as we often portray?'

Yr oedd yn gwestiwn da, ac ateb yr arbenigwr oedd 'Yes'. Mae'n rhy hawdd o lawer gweld effaith busnesau'n cau heb weld y llwyddiannau. Mae'n iawn canolbwyntio ar effaith niweidiol cau busnesau, yn enwedig pan fyddant mor ddramatig ac yn cael effaith mor fawr ar un gymuned ag a welwyd yn ddiweddar yn Ystradgynlais. Yr ydym wedi gweld sefyllfaoedd cyfatebol, er enghraifft, yn y cymoedd glo a chyda chau gwaith dur East Moors yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng optimistiaeth a phessimistiaeth. Dangosodd astudiaethau rhyngwladol diweddar fod cydberthynas bositif rhwng gweithgarwch entrepreneuriaidd ac enillion cynnyrch mewnwladol crynswth. Mae angen inni ystyried hyn yng Nghymru. Gall amrywiadau yng nghyfraddau entrepreneuriaeth gyfrif am gymaint â thraean o'r amrywiad rhwng gwledydd o ran twf economaidd.

Mae'r DU yng nghanol y gynghrair ryngwladol. Yng Nghymru, dangosodd

Beaufort Research showed that 57 per cent of the 1,000 surveyed said that entrepreneurs were to be admired. That figure is compared with 91 per cent in the United States and 73 per cent in Germany. While only 10 per cent of those surveyed in Wales thought of themselves as entrepreneurs, 35 per cent said that they would like to start their own business. A will exists and we should encourage that will and the imagination of our people. We already have a wide range of business support services, some of which are delivered through the Business Connect network. They are targeted at encouraging more start-ups and helping existing companies to grow. Assembly services for investment and innovation, such as regional selective assistance (RSA) and small firms merit award for research and technology (SMART) Wales, are complemented by a range of Welsh Development Authority activities currently targeted at the larger SMEs. There are existing overarching strategies such as the Regional Technology Plan and the Wales Information Society programme. Also, there is all the work that we are doing through our colleges, training and enterprise councils and others to ensure that Wales has the skills it needs to ensure success in the next century.

I have glossed over a mass of detail and have found, on a number of occasions when speaking to business audiences, that there is a great deal of detail in which businesses are interested. However, we need to do more. The Business Connect network needs to be strengthened through the role of Business Connect Management Board, and the more successful support programmes need to be enhanced. John Clarke, who has been seconded to the Assembly, is conducting a review of this. We need to make more of our college strengths. Next week, I will launch Know-How Wales to that end. We will implement the ETAG programme. The new industry-led Wales Management Council has been formed by Ian Rees to bring a greater spotlight on the importance of management development. We are also considering finance for small firms. The Assembly

astudiaeth y llynedd gan Beaufort Research fod 57 y cant o'r 1,000 a holwyd yn dweud bod entrepreneuriaid yn bobl i'w hedmygu. Cymharir y ffigur hwnnw â 91 y cant yn yr Unol Daleithiau a 73 y cant yn yr Almaen. Tra mai dim ond 10 y cant o'r Cymry a holwyd oedd yn meddwl amdanynt eu hunain fel entrepreneuriaid, dywedodd 35 y cant yr hoffent ddechrau eu busnes eu hunain. Mae ewyllys yn bodoli a dylem annog yr ewyllys hwnnw a dychymyg ein pobl. Mae gennym eisoes amrediad eang o wasanaethau cefnogi busnes, rhai ohonynt yn cael eu darparu drwy rwydwaith Cyswllt Busnes. Maent wedi eu targedu at annog mwy o bobl i ddechrau busnes a helpu cwmnïau presennol i dyfu. Caiff gwasanaethau'r Cynulliad ar gyfer buddsoddi ac arloesi, fel cymorth dethol rhanbarthol a gwobr deilyngdod i gwmnïau bach am ymchwil a thechnoleg (SMART) Cymru, eu hategu gan amrediad o weithgareddau gan Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi eu targedu at y mentrau bach a chanolig mwy o faint ar hyn o bryd. Mae strategaethau trosfwaol yn bodoli fel y Cynllun Technoleg Rhanbarthol a rhaglen Cymdeithas Wybodaeth Cymru. Hefyd, mae gennym yr holl waith yr ydym yn ei wneud drwy ein colegau, cynghorau hyfforddiant a menter ac eraill i sicrhau bod gan Gymru y sgiliau sydd eu hangen arni i sicrhau llwyddiant yn y ganrif nesaf.

Mae lluo o fanylion sydd heb eu cyffwrdd gennyf, a gwelais ar sawl achlysur wrth siarad â chynulleidfaoedd busnes fod yna lawer iawn o fanylion sydd o ddiddordeb i fusnesau. Fodd bynnag, mae angen inni wneud mwy. Mae angen cryfhau'r rhwydwaith Cyswllt Busnes, drwy rôl Bwrdd Rheoli Cyswllt Busnes ac mae angen cyfoethogi'r rhaglenni cefnogi mwy llwyddiannus. Mae John Clarke, sydd wedi ei secondio i'r Cynulliad, yn gwneud adolygiad o hyn. Mae angen inni wneud mwy o'n cryfder colegol. Yr wythnos nesaf, byddaf yn lansio 'Know-How Wales' i'r perwyl hwnnw. Byddwn yn gweithredu rhaglen y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. Ffurfiwyd y Cyngor Rheoli Cymru newydd gan Ian Rees dan arweiniad diwydiant i roi mwy o amlygrwydd i bwysigrwydd datblygu rheolaeth. Yr ydym hefyd yn ystyried cyllid i

debated this and the related issue of a new development bank on 14 July. The conclusion was that more work is needed on what gaps and provisions such a bank might fill and how it would fit with other related developments. I assure the Assembly that work is underway on this. I welcome the support for this important policy in two of the amendments before us, which stress its importance. However, I am sure that those who have proposed the amendments accept that it is important to get it right.

gwmnïau bach. Trafodwyd hyn a mater perthynol banc datblygu newydd gan y Cynulliad ar 14 Gorffennaf. Y casgliad oedd bod angen mwy o waith ar ba fylchau a darpariaethau y gallai banc o'r fath eu llenwi a sut y byddai hynny'n asio gyda datblygiadau eraill cysylltiedig. Yr wyf yn sicrhau'r Cynulliad fod gwaith ar droed ar hyn. Croesawaf y gefnogaeth i'r polisi pwysig hwn mewn dau o'r gwelliannau ger ein bron, sydd yn pwysleisio ei bwysigrwydd. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y bydd y rheini a gynigiodd y gwelliannau yn derbyn ei bod yn bwysig gwneud hyn yn iawn.

4:29 p.m.

It is not just about business support services. We need to ensure that our education system ensures that young people recognise the opportunities presented by entrepreneurship. We must ensure, with our local authority colleagues, that there are enlightened planning policies. Our information age, social inclusion, equal opportunities, better regulations and sustainable development policies must all embrace the opportunities that stem from a stronger culture of entrepreneurship in Wales.

Nid mater o wasanaethau cefnogi busnes yn unig ydyw. Mae angen inni sicrhau bod ein system addysg yn sicrhau bod ein pobl ifainc yn gweld y cyfleoedd a gynigir gan entrepreneuriaeth. Rhaid inni sicrhau, gyda'n cydweithwyr ar yr awdurdodau lleol, y ceir polisiau cynllunio goleuedig. Rhaid i'n polisiau ar yr oes wybodaeth, cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal, gwell rheoliadau a datblygiad cynaliadwy i gyd gofleidio'r cyfleoedd sydd yn deillio o ddiwylliant cryfach o entrepreneuriaeth yng Nghymru.

This debate offers an opportunity for you to publicly voice your constructive views on the way ahead. The immense power of new information and communications technologies makes administering a business and reaching new customers easier than ever, but it is challenging as well. The entrepreneurship action plan is being developed by a steering group led by David Latham. Some general consultation seminars have already been held across Wales. Formal consultation will take place with a document being launched in November. Workshops are planned for late November and early December and the group hopes to present an action plan to us in the new year. That is another good example of partnership with people in business; taking forward their ideas and using their experience in developing the way forward for the Assembly and Wales as a whole.

Mae'r ddadl hon yn cynnig cyfle i chi leisio ar goedd eich sylwadau adeiladol ar y ffordd ymlaen. Mae pŵer aruthrol technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd yn golygu bod gweinyddu busnes a chyrraedd cwsmeriaid newydd yn haws nag erioed, ond mae'n her hefyd. Mae'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth yn cael ei ddatblygu gan grŵp llywio dan gadeiryddiaeth David Latham. Eisoedd cynhaliwyd rhai seminarau ymgynghorol ledled Cymru. Bydd ymgynghori ffurfiol gan lansio dogfen ym mis Tachwedd. Bwriedir cynnal gweithdai ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr a gobeithia'r grŵp gyflwyno cynllun gweithredu inni yn y flwyddyn newydd. Dyna enghraifft dda arall o bartneriaeth gyda phobl mewn busnes; cymryd eu syniadau ymlaen a defnyddio'u profiad wrth ddatblygu'r ffordd ymlaen i'r Cynulliad ac i Gymru yn gyffredinol.

The importance of entrepreneurship is already recognised in Pathway to Prosperity and it will be strongly reflected in the national economic development strategy, which we are developing through the European structural funds process. It is vital that all our relevant policies recognise the role of entrepreneurs in creating wealth, generating employment and, most importantly, building confidence. We must provide an environment in which entrepreneurs in all walks of life can flourish. I have indicated the successes that we already have in Wales. However, it is also true that in the past far too many of our budding entrepreneurs have had to leave Wales to gain recognition. I am struck every time I meet people in America or see representatives of American and international companies, how often there is a Welsh person on the team. We must ensure that in future Welsh men and women can develop their entrepreneurial talents to the full in Wales. Developing this is the key aim of the motion that I commend to you.

Let me say a word on the amendments. We have drafted the motion in a way that seeks to encompass all salient factors without being too prescriptive. I assure you that ideas from this debate will be considered in policy development. I have carefully considered the amendments tabled by Mike German and Phil Williams. Both tabled amendments in relation to the new development bank for Wales, in line with the Assembly debate on 14 July. Work is in hand on that. Nevertheless, containing that amendment in this resolution would do no harm and would underline the Assembly's commitment to this. In comparing the wordings, I suggest that we accept Phil Williams's amendment as the better draft. I hope that, in that spirit, Mike German will be willing to support the amendment.

Mike's other amendment calls for a new business birth rate strategy to be developed. Effectively, that will be developed in the entrepreneurship action plan. I am sure that Mike has relevant points to make regarding the motion and amendment. However, I ask

Mae pwysigrwydd entrepreneuriaeth eisoes wedi ei gydnabod yn Llwybr i Ffyniant a chaiff ei adlewyrchu'n gryf yn y strategaeth genedlaethol ar ddatblygu economaidd, a ddatblygir gennym drwy broses cronfeydd strwythurol Ewrop. Mae'n hanfodol fod ein holl bolisiau perthnasol yn cydnabod rôl entrepreneuriaid o ran creu cyfoeth, cynhyrchu cyflogaeth ac, yn bwysicaf oll, magu hyder. Rhaid inni ddarparu amgylchedd lle gall entrepreneuriaid o bob math ffynnu. Yr wyf wedi crybwyll y llwyddiannau sydd gennym eisoes yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n wir hefyd fod llawer gormod o'n cyw-entrepreneuriaid wedi gorfod gadael Cymru yn y gorffennol i gael cydnabyddiaeth. Caf fy nharo bob tro y gwelaf bobl yn America neu gynrychiolwyr cwmnïau Americanaidd a rhyngwladol, mor aml y mae Cymro neu Gymraes ar y tîm. Rhaid inni sicrhau y gall Cymry yn y dyfodol ddatblygu eu doniau entrepreneuriaidd i'r eithaf yng Nghymru. Datblygu hyn yw nod allweddol y cynnig a gyflwynaf ger eich bron.

Gadewch imi ddweud gair ar y gwelliannau. Yr ydym wedi drafftio'r cynnig mewn ffordd sydd yn ceisio cynnwys yr holl ffactorau perthnasol heb fod yn rhy ragnodol. Fe'ch sicrhaf y caiff syniadau o'r ddadl hon eu hystyried wrth ddatblygu polisi. Yr wyf wedi ystyried gwelliannau Mike German a Phil Williams yn ofalus. Cyflwynodd y ddau welliannau yn ymwneud â'r banc datblygu newydd i Gymru, yn unol â dadl y Cynulliad ar 14 Gorffennaf. Mae gwaith mewn llaw ar hynny. Serch hynny, ni fyddai cynnwys y gwelliant hwnnw yn y penderfyniad hwn yn gwneud unrhyw ddrwg a byddai'n tanlinellu ymrwymiad y Cynulliad i hyn. O gymharu geiriad y ddau, awgrymaf ein bod yn derbyn gwelliant Phil Williams fel y drafft gorau. Gobeithiaf y bydd Mike German, yn yr ysbryd hwnnw, yn fodlon cefnogi'r gwelliant.

Mae gwelliant arall Mike yn galw am ddatblygu strategaeth cyfradd dechrau busnesau newydd. Mewn effaith, caiff hynny ei ddatblygu yn y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth. Yr wyf yn siŵr fod gan Mike bwyntiau perthnasol i'w gwneud

him to accept that his amendment does not improve the wording. I ask him not to press the amendment, with the assurance that he is pushing at an open door. We will take on board what he is looking for. Phil's first amendment proposes a new taskforce to help small and medium businesses across the European Structural Funds. I am sympathetic to this, Phil, but the issue needs to be considered as part of the overall implementation arrangements for the European funds. We want to engage business fully in the process, but accepting this amendment could be seen to tie the Assembly's hands before the detailed arrangements have been worked out. I hoped that you would argue the case but withdraw the amendment on the promise that I will discuss the proposal with you, along with Rhodri Morgan, and then for us to come back to the Assembly, probably via the Economic Development Committee, in order to carry forward the essence of your idea.

Phil's third amendment seeks the establishment of a new development agency. However, we only recently created the new Welsh Development Agency by combining previous organisations. Indeed, the most immediate matter is the ending of Cardiff Bay Development Corporation and the incorporation of their relevant responsibilities into the WDA so that we have one single body. Other organisations in Wales, like the local authorities and enterprise agencies, also have an important role to play. We need to move forward and underline the importance of our home-grown businesses. There is no difference between us on that, but I would question the establishment of another quango. I do not believe businesses want that. I suggest that what Phil is after might be achieved in a better way. I urge him to reconsider and not to push this amendment.

The fourth amendment moved by Phil Williams is in line with the Assembly's values and priorities on equality of opportunity and inclusiveness, and I would not wish to oppose it.

ynghylch y cynnig a'r gwelliant. Fodd bynnag, gofynnaf iddo dderbyn nad yw ei welliant yn gwella'r geiriad. Gofynnaf iddo beidio â gwthio'r gwelliant, gyda'r sicrwydd ei fod yn gwthio ar ddrws agored. Byddwn yn gwneud yr hyn y mae'n ei ofyn. Mae gwelliant cyntaf Phil yn cynnig tasglu newydd i helpu busnesau bach a chanolig dros y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae gennyf gydymdeimlad â hyn, Phil, ond mae angen ystyried y mater fel rhan o'r trefniadau gweithredu cyffredinol ar gyfer y cronfeydd Ewropeaidd. Mae arnom eisiau rhoi rhan lawn i fusnes yn y broses, ond gellid gweld derbyn y gwelliant hwn fel rhywbeth sydd yn clymu dwylo'r Cynulliad cyn bod y trefniadau manwl wedi eu gwneud. Yr oeddwn yn gobeithio y byddech yn dadlau'r achos ond yn tynnu'r gwelliant yn ôl ar yr addewid y byddaf yn trafod y cynnig gyda chi, ynghyd â Rhodri Morgan, ac wedyn ein bod yn dod yn ôl i'r Cynulliad, mae'n debyg drwy'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, er mwyn cario hanfod eich syniad ymlaen.

Mae trydydd gwelliant Phil yn gofyn am sefydlu asiantaeth ddatblygu newydd. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y bu i ni greu yr Awdurdod Datblygu newydd drwy gyfuno cyrff blaenorol. Yn wir, y mater cyntaf ar hyn o bryd yw terfynu Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd ac ymgorffori eu cyfrifoldebau perthnasol yn Awdurdod Datblygu Cymru fel bod gennym un corff unigol. Mae gan sefydliadau eraill yng Nghymru, fel yr awdurdodau lleol ac asiantaethau menter, rôl bwysig i'w chwarae hefyd. Mae angen inni symud ymlaen a thanlinellu pwysigrwydd ein busnesau cynhenid. Nid oes dim gwahaniaeth rhyngom ar hynny, ond byddwn yn cwestiynu sefydlu cwango arall. Nid wyf yn credu bod busnesau eisiau hynny. Awgrymaf y gellid sicrhau'r hyn y mae Phil ar ei ôl mewn ffordd well. Anogaf ef i ailystyried ac i beidio â gwthio'r gwelliant hwn.

Mae'r pedwerydd gwelliant a gynigir gan Phil Williams yn unol â gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfle cyfartal a chynhwysiant, ac ni fyddwn am ei wrthwynebu.

On the vast majority of the points being raised, there are open doors as far as the administration is concerned. I hope that we will hear many constructive suggestions both from those who have moved amendments and from others who contribute to this debate.

Michael German: I propose the first amendment:

After 'successful entrepreneurship', delete up to and including 'start-ups in Wales and' and insert 'and should include a Business Birth-rate strategy as well as policies to increase'.

I propose the second amendment:

Insert at the end 'As part of this, the Assembly recognises the need for the establishment of a Welsh Investment Bank to channel funding to small entrepreneurial businesses.'

I am happy to withdraw the amendment on the development bank in favour of Phil Williams's amendment if that would suit the Assembly. In fact, I was surprised you did not merge the two or combine them in the way that you have the power, so I am happy to do that.

I want to push the first amendment because I believe we are talking about a business-made strategy, which is somewhat different. I will address both amendments but in favour of the development bank in general. I agree with Alun that we must celebrate our successes. I do not want to marginalise those, but we must build on them and upon our risk-takers. After all, the risk-takers do not grow on trees. They are probably as crazy as politicians. They are prepared to take challenges and face short-term jobs and early retirement. People who are prepared to take those risks are few and far between, so finding risk-takers is important.

Ar fwyafrif llethol y pwyntiau a godir, y mae drysau agored cyn belled ag y mae'r corff gweinyddol yn y cwestiwn. Gobeithio y cawn glywed llawer o awgrymiadau adeiladol gan y rhai sydd yn cynnig gwelliannau a chan eraill fydd yn cyfrannu at y ddadl hon.

Michael German: Cynigiaf y gwelliant cyntaf:

Ar ôl 'entrepreneuriaeth lwyddiannus', dilêr hyd at ddiwedd 'mwy o fusnesau'n cael eu sefydlu yng Nghymru a mwy o gwmnïau' ac ychwaneger 'a dylai gynnwys strategaeth Cyfradd Cychwyn Busnesau ynghyd â pholisïau i gynyddu cyfradd y cwmnïau' a newidier 'yng Nghymru yn goroesi' i 'yng Nghymru sydd yn goroesi'.

Cynigiaf yr ail welliant:

Ar y diwedd, ychwaneger 'Fel rhan o hyn, mae'r Cynulliad yn cydnabod yr angen i sefydlu Banc Buddsoddi Cymru i sianelu cyllid i fusnesau entrepreneuriaidd bach.'

Yr wyf yn hapus i dynnu'r gwelliant ar y banc datblygu yn ôl o blaid gwelliant Phil Williams os yw hynny wrth fodd y Cynulliad. Yn wir, yr oeddwn wedi fy synnu na wnaethoch uno'r ddau neu eu cyfuno fel y mae gennych hawl i wneud, felly yr wyf yn hapus i wneud hynny.

Mae arnaf eisiau gwrthio'r gwelliant cyntaf oherwydd yr wyf yn credu ein bod yn siarad am strategaeth wedi ei llunio gan fusnes, sydd ychydig yn wahanol. Siaradaf ar y ddau welliant ond o blaid y banc datblygu yn gyffredinol. Yr wyf yn cytuno gydag Alun fod yn rhaid inni ddathlu'n llwyddiannau. Nid oes arnaf eisiau gwrthio'r rheini i'r ymylon, ond rhaid inni adeiladu arnynt ac ar ein mentrwyr. Wedi'r cyfan, nid yw mentrwyr yn tyfu ar goed. Mae'n debyg eu bod mor wallgof â gwleidyddion. Maent yn barod i dderbyn her a wynebu swyddi tymor byr ac ymddeoliad cynnar. Mae pobl sydd yn barod i fentro fel yna yn brin, ac felly mae'n bwysig dod o hyd i fentrwyr.

It is important that we seek a strategy for business start-ups, and that means an annual target for the setting up of new manufacturing and service businesses. Without concrete targets, progress cannot properly be measured. That is the reason for this amendment, to ensure that we have a strategy in place, not just general warm words seeking more and more new firms to be born. There is strong evidence of a relationship between the birth rate of new firms and job-creation in different parts of the United Kingdom. Scottish research recently showed that the areas with the lowest business birth rates have been those which have been least successful at generating new jobs. In contrast, regions in the UK with the highest business birth rates have been the most successful at generating employment. The data from Scotland suggests that the business birth rate is an important influence on job creation. It also shows that more start-ups will not displace existing business activity and will not affect existing employment. The variations in business birth rates have a dramatic effect in terms of job creation. Therefore, new businesses already make a significant contribution to the economy of Wales, particularly in terms of creating jobs. The problem is that they do not make as large a contribution as they could, compared with elsewhere.

4:39 p.m.

We have already heard that we might make reference to business failures. Business failures in Wales, in the first three quarters of this year, were up 34 per cent on last year. There were 1,297 business failures in Wales in the first nine months of this year, compared with 967 for the same period in 1998. That shows the importance of a support strategy, a development strategy and a birth rate strategy.

The reasons why we need an investment bank have been well discussed. We need one because there is a market weakness in the provision of finance to small companies. The purpose of a development bank would be to bridge a finance gap that has for so long cut Wales off from the main stream of capital

Mae'n bwysig ein bod yn ceisio strategaeth ar gyfer cychwyn busnesau, ac mae hynny'n golygu targed blynyddol ar gyfer sefydlu busnesau cynhyrchu a gwasanaeth newydd. Heb dargedau pendant, ni ellir mesur cynnydd yn iawn. Dyna'r rheswm dros y gwelliant hwn, sef sicrhau bod gennym strategaeth yn ei lle, nid dim ond geiriau cynnes cyffredinol yn mynegi awydd am i fwyfwy o gwmnïau newydd gael eu dechrau. Mae tystiolaeth gref o berthynas rhwng cyfradd dechrau cwmnïau newydd a chreu gwaith mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Dangosodd ymchwil yn yr Alban yn ddiweddar mai'r ardaloedd gyda'r cyfraddau dechrau busnes isaf fu leiaf llwyddiannus o ran cynhyrchu swyddi newydd. I'r gwrthwyneb, rhanbarthau'r DU gyda'r cyfraddau dechrau busnes uchaf fu'r mwyaf llwyddiannus o ran creu cyflogaeth. Mae'r data o'r Alban yn awgrymu bod y gyfradd dechrau busnesau yn ddylanwad pwysig ar greu swyddi. Mae'n dangos hefyd na fydd dechrau mwy o fusnesau newydd yn golygu cymryd lle busnesau presennol nac yn effeithio ar gyflogaeth bresennol. Caiff yr amrywiadau mewn cyfraddau dechrau busnes effaith ddramatig yn nhermau creu swyddi. Felly, mae busnesau newydd eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru, yn enwedig yn nhermau creu gwaith. Y broblem yw nad ydynt yn cyfrannu cymaint ag y gallent, o gymharu â lleoedd eraill.

Yr ydym wedi clywed eisoes y gallem gyfeirio at fethiannau busnes. Yr oedd methiannau busnes yng Nghymru, yn nhri chwarter cyntaf eleni, 34 y cant yn uwch na'r llynedd. Methodd 1,297 o fusnesau yng Nghymru yn naw mis cyntaf eleni, o gymharu â 967 am yr un cyfnod yn 1998. Mae hynny'n dangos pwysigrwydd strategaeth gefnogi, strategaeth ddatblygu a strategaeth gychwyn.

Mae'r rhesymau pam y mae angen banc buddsoddi arnom wedi eu trafod yn helaeth. Mae angen un am fod gwendid marchnad yn narpariaeth cyllid i gwmnïau bach. Pwrpas banc datblygu fyddai pontio bwlch cyllid sydd ers cyhyd wedi torri Cymru i ffrwd oddi wrth brif ffrwd llif cyfalaf, sydd wedi ei

flow, centred in London. It would provide a source of venture capital for entrepreneurial activity, independent of risk-averse high street banks, and could act as a principal clearing house for much of incoming European funding. Perhaps more importantly, it could continue to service the small business sector in Wales, long after the current European funding period expires. It would therefore contribute to the economic infrastructure of the future.

Much future economic growth must come from within Wales. I hope that Rhodri Morgan will note that the comments and ideas on entrepreneurship are scattered in the new documents that we will progress next week. We need to bring those comments together to give them the focus that may have been originally there but was taken out accidentally in the redrafting. As the redrafting process is not finished, I hope Rhodri will restore that focus.

Economic growth from within Wales can only be sustained if it is driven by the SME sector and built on the foundation of new technologies. Only at that level can sufficient economic activity be generated to pull Wales out of the cul-de-sac of its low-skill, low-wage economic base and to provide the level of economic anchorage sufficient to persuade large companies to stay on in Wales in an increasingly competitive global market. The problem is that the current economic climate in Wales continues to be hostile to small business development. There is an inadequate supply of finance to meet the needs of growing and emerging businesses in that sector. Furthermore, the British financial sector is, as a rule, reluctant to spread its investment in the SME sector beyond the confines of the M25 or the European golden triangle. As a result, small firms in Wales tend to over rely on short-term debt financing, mainly from banks and trade credit, internal cash flow and retained earnings. That means investment is sensitive to earnings. If businesses use internal financial resourcing, then they limit their investment to the amount of capital currently

chanoli yn Llundain. Byddai'n darparu ffynhonnell cyfalaf menter ar gyfer gweithgaredd entrepreneuriaidd, yn annibynnol ar fanciau ofn-mentro y stryd fawr, a gallai weithio fel prif dŷ clirio ar gyfer llawer o'r arian a ddaw i mewn o Ewrop. Yn bwysicach efallai, gallai barhau i wasanaethu'r sector busnesau bach yng Nghymru, ymhell wedi i'r cyfnod ariannu Ewropeaidd presennol ddod i ben. Byddai'n cyfrannu felly at isadeiledd economaidd y dyfodol.

Rhaid i lawer o dwf economaidd y dyfodol ddod o'r tu mewn i Gymru. Gobeithiaf y gwnaiff Rhodri Morgan sylwi bod y sylwadau a'r syniadau ar entrepreneuriaeth wedi'u gwasgaru drwy'r dogfennau newydd y byddwn yn eu trafod yr wythnos nesaf. Mae angen inni ddod â'r sylwadau hynny at ei gilydd i roi'r ffocws iddynt a oedd yno yn y dechrau efallai ond a gymerwyd allan yn ddamweiniol wrth ailddrafftio. Gan nad yw'r broses ailddrafftio wedi gorffen, gobeithio y gwnaiff Rhodri adfer y ffocws hwnnw.

Yr unig ffordd y gellir cynnal twf economaidd o'r tu mewn i Gymru yw os caiff ei yrru gan y sector mentrau bach a chanolig a'i adeiladu ar sylfaen technolegau newydd. Dim ond ar y lefel honno y gellir creu digon o weithgaredd economaidd i dynnu Cymru allan o heol bengaead ei seiliau economaidd sgiliau-isel, cyflog-isel a darparu'r lefel o angori economaidd fydd yn ddigonol i berswadio cwmnïau mawr i aros yma yng Nghymru mewn marchnad fyd-eang sydd yn fwyfwy cystadleuol. Y broblem yw bod yr hinsawdd economaidd gyfredol yng Nghymru'n dal i fod yn elyniaethus i ddatblygiad busnesau bach. Nid oes digon o gyllid i ateb anghenion busnesau sydd yn tyfu ac yn ymddangos yn y sector hwnnw. Ar ben hynny, mae sector ariannol Prydain fel rheol yn gyndyn o wasgaru ei fuddsoddiad yn y sector bach a chanolig ymhellach na chyffiniau'r M25 neu driongl aur Ewrop. O ganlyniad, mae cwmnïau bach yng Nghymru'n tueddu i orddibynnu ar ariannu dyled tymor-byr, yn bennaf drwy fanciau a chredyd masnach, llif arian mewnol a chadw enillion. Mae hynny'n golygu fod buddsoddiad yn sensitif i enillion. Os yw

within the business, which is subject to significant fluctuations. The knock-on effect is that investment planning is limited to the short term, rather than to the medium or the long term, and the business birth rate lags well behind the rest of the United Kingdom, as it is does at present.

Venture capital is, therefore, seen as a major source of untapped funds for small business. When Philip Lader visited the Assembly, he told us, from his experience as Clinton's advisor on small businesses, that what you need to develop small business is seed corn capital, and a huge amount of political will. I hope that the political will has been demonstrated here this afternoon and that the seed corn capital will come through the bank. The University of Glamorgan's research in 1997 showed that Wales was significantly under-represented in terms of venture capital providers. Merchant and development bank specialist financial services were under-represented in Wales. The UK is the only major European economy that does not have a publicly-owned development bank where profits are pumped back into community investment rather than going into shareholder dividends. In Baden Württemberg, Wales's partner region in Germany, local and regional development banks have operated in tandem to support local business development for almost 50 years. Since their establishment by the allies after World War Two as part of the economic restructure of Germany, such banks have been highly successful in creating economic stability, facilitating long-term investment and creating a climate of innovation and competitiveness. That is exactly what they were intended to do, to restructure after the Second World War. A development bank can, therefore, beyond the scope of private venture capital providers, provide a degree of long-term strategic co-ordination. I am calling for a Welsh investment bank as a key part of our strategy. I am not asking that we have the detail before us today because there are many items of the detail that have to be sorted out. The principle however can be established and

busnesau'n defnyddio adnoddau ariannu mewnol, yna maent yn cyfyngu eu buddsoddiad i'r swm o gyfalaf sydd yn y busnes ar y pryd, sydd yn gallu amrywio'n sylweddol. Effaith hynny yn ei dro yw cyfyngu cynllunio buddsoddiad i'r tymor byr, yn hytrach na'r tymor canolig neu hir, ac mae'r gyfradd cychwyn busnesau'n llusgo ymhell ar ôl gweddill y Deyrnas Unedig, fel y mae ar hyn o bryd.

Felly, gwelir cyfalaf menter fel ffynhonnell bwysig o gyllid heb ei gyffwrdd i fusnesau bach. Pan ddaeth Philip Lader i'r Cynulliad, dywedodd wrthym, ar sail ei brofiad fel cynghorydd Clinton ar fusnesau bach, mai'r hyn sydd ei angen i ddatblygu busnes yw cyfalaf had ŷd, a digonedd o ewyllys gwleidyddol. Gobeithio bod yr ewyllys gwleidyddol wedi ei ddangos yma y prynhawn yma, ac y daw'r cyfalaf had ŷd drwy'r banc. Dangosodd ymchwil Prifysgol Morgannwg yn 1997 fod Cymru'n arwyddocaol brin o ddarparwyr cyfalaf menter. Nid oedd cynrychiolaeth ddigonol o wasanaethau ariannol arbenigol banciau masnach a datblygu yng Nghymru. Y DU yw'r unig economi yn Ewrop sydd heb fanc datblygu mewn meddiant cyhoeddus lle caiff yr elw ei bwmpio'n ôl i mewn i fuddsoddiad cymunedol yn hytrach na mynd i fuddrannau cyfranddalwyr. Yn Baden Württemberg, cymar ranbarth Cymru yn yr Almaen, gweithredodd banciau datblygu lleol a rhanbarthol law yn llaw i gefnogi datblygiad busnesau lleol ers bron 50 mlynedd. Ers eu sefydlu gan y cynghreiriaid ar ôl yr Ail Ryfel Byd fel rhan o ailstrwythuro economaidd yr Almaen, bu'r banciau hyn yn llwyddiannus iawn o ran creu sefydlogrwydd economaidd, hwyluso buddsoddiad hirdymor a chreu hinsawdd o arloesi a chystadlu. Dyna'n union a fwriadwyd iddynt ei wneud, sef ailadeiladu ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Felly gall banc datblygu ddarparu gradd o gydgyssylltu strategol hirdymor sydd y tu hwnt i allu darparwyr cyfalaf menter preifat. Yr wyf yn galw am fanc buddsoddi i Gymru fel rhan allweddol o'n strategaeth. Nid wyf yn gofyn am gael y manylion ger ein bron heddiw, gan fod angen rhoi trefn ar lawer o'r manylion. Gellir sefydlu'r egwyddor, serch hynny, ac mae digon o ewyllys da yn y Cynulliad hwn i

there is sufficient good will in this Assembly to establish such a process. We are now, hopefully, getting the joined-up funding through Europe to provide us with a real possibility of a powerful entrepreneurship plan for Wales. Let us provide the joined-up thinking to accompany it. Let us hope that we can support and put our minds to providing this short-term venture capital.

Phil Williams: I propose the first amendment. Add:

The Assembly resolves that a Small Business Taskforce be established to help indigenous small and medium enterprises (SMEs) take advantage of the 2000-2006 round of European Structural Funds; this Taskforce to have clearly-defined targets for assisting both private and community enterprises to function efficiently, expand and create employment.

I propose the second amendment. Add:

The Assembly calls on the Secretary for Economic Development and the Economic Development Committee to ensure that an independently-managed Development Bank or similar fund is established early in the 2000-2006 European funding period to provide SMEs with flexible and sustained finance for development.

I propose the third amendment. Add:

The Assembly calls upon the Economic Development Secretary to take steps to enable a dedicated indigenous development agency to be set up in Wales, and to ensure that such an agency has a clear mandate to deliver business development, employment and equal opportunities targets.

I propose the fourth amendment. Add:

The Assembly resolves that all appropriate European, UK and Welsh sources of funding be utilised to provide suitable and flexible support for women and minority entrepreneurs.

sefydlu proses o'r fath. Yr ydym bellach, gobeithio, yn cael y cyllid cydgysylltiol drwy Ewrop i gynnig posibilrwydd gwirioneddol inni gael cynllun entrepreneuriaeth grymus i Gymru. Gadewch inni ddarparu'r meddwl cydgysylltiol i gyd-fynd ag ef. Gobeithio y gallwn gefnogi hyn a rhoi ein meddwl ar ddarparu'r cyfalaf menter tymor-byr hwn.

Phil Williams: Cynigiau y gwelliant cyntaf. Ychwaneger:

Mae'r Cynulliad yn penderfynu sefydlu Tasglu Busnesau Bach i helpu mentrau bach a chanolig cynhenid i fanteisio ar gylch Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-2006; bydd gan y Tasglu hwn dargedau eglur ar gyfer cynorthwyo mentrau preifat a chymunedol i weithredu yn effeithlon, i ehangu ac i greu gwaith.

Cynigiau yr ail welliant. Ychwaneger:

Mae'r Cynulliad yn galw ar yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i sicrhau bod Banc Datblygu a reolir yn annibynnol, neu gronfa debyg, yn cael ei sefydlu yn gynnar yn ystod cyfnod cyllido Ewropeaidd 2000-2006 i ddarparu cyllid hyblyg a chynaliadwy i fusnesau bach a chanolig er mwyn iddynt ddatblygu.

Cynigiau y trydydd gwelliant. Ychwaneger:

Mae'r Cynulliad yn galw ar yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd i gymryd camau i hwyluso sefydlu asiantaeth datblygu cynhenid benodol yng Nghymru, ac i sicrhau bod gan asiantaeth o'r fath fandad eglur i gyflawni targedau o safbwynt datblygu busnes, gwaith a chyfle cyfartal.

Cynigiau y pedwerydd gwelliant. Ychwaneger:

Mae'r Cynulliad yn penderfynu y dylid defnyddio holl ffynonellau priodol Ewrop, y DU a Chymru i ddarparu cefnogaeth addas a hyblyg i entrepreneuriaid lleiafrifol a merched.

I have had permission from my wife to borrow one of her tactics for expressing disappointment in the most gentle and tactful way. She is an artist and enthusiastic amateurs often ask her opinion on their latest watercolour. My wife looks long and hard at the painting and then says in her kindest voice, 'nothing to dislike'. I have looked long and hard at the words of this motion and all I can say is, 'nothing to dislike'. It is yet another in a long series of anodyne motions that the Government has presented to this Assembly which express worthy sentiment but have too little real content. I realise from Alun's speech that there is far more in the Government's agenda. We should have motions that give us more opportunity to explore the real principles. That is why the amendment is longer than the motion. Plaid Cymru fought the election with a detailed manifesto on policies. We wish to present these policies to the Assembly in a constructive way, and if there are flaws, this is the place for them to be discussed. I do not think that there is anything deeply controversial in these amendments. We hope the ideas that they present are acceptable.

I would like to concentrate on three amendments. Helen Mary Jones wishes to speak on the fourth and I hope that they are seen as specific, constructive suggestions.

The Presiding Officer: Helen Mary Jones is not in the Chamber and cannot be called to speak.

Phil Williams: I welcome that Alun has agreed to discuss the principle of the first amendment and we are prepared to withdraw the first amendment. It is a modest proposal for a pro tem body to kick-start the development of small and medium businesses in the early years of Objective 1. I need not remind you that the European Commission is prioritising support for SMEs in less developed areas. We are conscious of a feeling in both the private and community enterprise sectors that the current situation is not providing all the support and guidance

Cefais ganiatâd gan fy ngwraig i fenthyg un o'i thactegau hi ar gyfer mynegi siom yn y modd mwyaf caredig ac ystyriol. Arlunydd yw hi, a bydd amaturiaid brwd yn aml yn gofyn ei barn ar eu llun dyfrlliw diweddaraf. Bydd fy ngwraig yn edrych yn galed a hir ar y llun ac wedyn yn dweud yn ei llais clenaf, 'dim byd i'w ddrwggleicio'. Yr wyf innau wedi edrych yn galed a hir ar eiriau'r cynnig hwn a'r cwbl y medraf ei ddweud yw, 'dim byd i'w ddrwggleicio'. Cynnig arall eto fyth ydyw mewn cyfres o gynigion diddrwg-didda a gyflwynodd y Llywodraeth i'r Cynulliad hwn sydd yn mynegi teimladau clodwiw ond sydd â rhy ychydig o gynnwys gwirioneddol. Yr wyf yn sylweddoli o wrando ar araith Alun fod llawer mwy i agenda'r Llywodraeth. Dylem gael cynigion sydd yn rhoi mwy o gyfle inni ymchwilio i'r egwyddorion go-iawn. Dyna paham y mae'r gwelliant yn hwy na'r cynnig. Ymladdodd Plaid Cymru yr etholiad gyda manifestio manwl ar bolisiau. Yr ydym am gyflwyno'r polisiau hyn i'r Cynulliad mewn ffordd adeiladol, ac os oes yna wallau, dyma'r lle i'w trafod. Nid wyf yn meddwl bod dim dadleuol iawn yn y gwelliannau hyn. Gobeithiwn fod y syniadau a gyflwynir ganddynt yn dderbyniol.

Hoffwn ganolbwyntio ar dri gwelliant. Mae Helen Mary Jones yn dymuno siarad ar y pedwerydd, a gobeithiaf y gwelir hwy fel awgrymiadau penodol, adeiladol.

Y Llywydd: Nid yw Helen Mary Jones yn y Siambr ac ni ellir galw arni i siarad.

Phil Williams: Yr wyf yn croesawu bod Alun wedi cytuno i drafod egwyddor y gwelliant cyntaf ac yr ydym yn barod i dynnu'r gwelliant cyntaf yn ôl. Cynnig distadl ydyw am gorff dros-dro i roi hwb cychwynnol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig ym mlynnyddoedd cynnar Amcan 1. Nid oes angen imi eich atgoffa bod y Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi mentrau bach a chanolig mewn ardaloedd llai datblygedig. Yr ydym yn ymwybodol o deimlad yn y sectorau menter preifat a chymunedol ill dau nad yw'r

needed. This is not a condemnation of the many individuals who are trying to deliver what is needed, but it does point to a widespread belief shared by those running the enterprises in Wales that a more focused approach may be needed. The second question has been discussed before and improved in principle by the Assembly. This is the provision of seed-corn capital for the establishment of new enterprises. I welcome the chance to propose it for two reasons. First, if we list all the present disadvantages, it is agreed that the relatively undeveloped state of the financial sector in Wales, which should be providing venture capital, comes near to the top of the list of the disadvantages. The European regulations governing their structural funds emphasise the need to link financial assistance to the provision of various financial instruments to SMEs to provide them with flexible and sustained assistance.

4:49 p.m.

We may need to pursue more options than the development bank. There are various ways of helping to provide capital to SMEs. These include encouraging commercial banks to establish specialist units, lobbying central Government to offer tax breaks to credit unions, encouraging trade union pension funds to invest in small things and, coming to this amendment, ensuring that a development bank or similar institution is formed without undue delay.

There are plenty of precedents. Development banks, or venture capital funds, exist in many countries. In Spain, the autonomous regions operate about 60 such funds. We stress the importance and urgency. We recognise that there are problems, as does the Federation of Small Businesses in its document. It is not easy to establish one of these successfully. Therefore, there must be a study of the best way of funding and administering such a source of seed capital. We now understand that such a study is underway, so I propose this amendment to ensure that it is given sufficient priority.

sefyllfa bresennol yn darparu'r holl gefnogaeth ac arweiniad sydd eu hangen. Nid condemnïad yw hyn o'r llu o unigolion sydd yn ceisio darparu'r hyn sydd ei angen, ond y mae'n tynnu sylw at gred gyffredinol a rennir gan y rhai sydd yn rhedeg y mentrau yng Nghymru y gallai fod angen mynd ati mewn modd mwy canolbwyntiol. Mae'r ail gwestiwn wedi ei drafod o'r blaen ac wedi ei wella mewn egwyddor gan y Cynulliad, sef darparu cyfalaf had ŷd ar gyfer sefydlu mentrau newydd. Yr wyf yn croesawu'r cyfle i'w gynnig am ddau reswm. Yn gyntaf, os rhestrwn yr holl anfanteision presennol, cytunir bod cyflwr cymharol annatblygedig y sector ariannol yng Nghymru, a ddylai fod yn darparu cyfalaf menter, yn dod yn agos at frig y rhestr o anfanteision. Mae'r rheoliadau Ewropeaidd ynghylch cronfeydd strwythurol yn pwysleisio'r angen i gysylltu cymorth ariannol â darparu amryfal offerynnau ariannol i fentrau bach a chanolig i roi cymorth hyblyg a chynaliadwy iddynt.

Efallai y bydd angen inni edrych ar fwy o ddewisiadau na'r banc datblygu. Mae sawl ffordd o helpu i ddarparu cyfalaf i fentrau bach a chanolig. Mae'r rhain yn cynnwys annog banciau masnachol i sefydlu unedau arbenigol, lloio'r Llywodraeth ganolog i gynnig toriadau treth i undebau credyd, annog cronfeydd pensiwn undebau llafur i fuddsoddi mewn pethau bychain, a chan ddod at y gwelliant hwn, sicrhau y ffurfir banc datblygu neu sefydliad tebyg heb ormod o oedi.

Mae digon o gynseiliau. Mae banciau datblygu, neu gronfeydd cyfalaf menter, yn bodoli mewn sawl gwlad. Yn Sbaen, mae'r rhanbarthau hunanlywodraethol yn gweithredu rhyw 60 o gronfeydd o'r fath. Pwysleisiwn y pwysigrwydd a'r brys. Yr ydym yn sylweddoli bod problemau, fel y gwna Ffederasiwn y Busnesau Bach yn ei ddogfen. Nid yw'n hawdd sefydlu un o'r rhain yn llwyddiannus. Felly, rhaid cael astudiaeth o'r ffordd orau i ariannu a gweinyddu'r fath ffynhonnell cyfalaf had ŷd. Deallwn bellach fod astudiaeth o'r fath ar y gweill, felly cynigïaf y gwelliant hwn i sicrhau y caiff flaenoriaeth ddigonol.

The last issue that I wish to emphasise is in the third amendment. This is more radical, and I suppose that many people know how they will vote, so my best eloquence may not change their minds. However, I wish for the ideas and reasons behind this amendment to be considered seriously. The question of how we co-ordinate the development of SMEs throughout Wales is linked to what happens to the enterprise element of the TECs if the Education and Training Action Group proposals are implemented and the TECs are abolished in their present form. What will happen to the training element of TECs is still a matter of debate, but ETAG does not recommend a proper home for the enterprise element. We should consider that matter alongside the continuing question of how to balance properly the support for inward investment, a specialist activity, with the encouragement of much smaller indigenous industries.

We have consulted with businesses and small business representative bodies like the FSB, with academics and with Enterprise Ireland, the body charged with accelerating the growth of indigenous Irish industry. Ireland's most impressive economic growth coincided with a key change in the way it divided the responsibilities of the main agency, the Industrial Development Authority. That authority, like the Welsh Development Agency, was responsible for most economic development. However, it also set up Enterprise Ireland.

We would like you to consider that. It has been a successful move, and I want you at least to consider the principle that we need a body with the main focused task of encouraging indigenous business and providing the enterprise element that was previously the responsibility of the TECs. The amendment does not prescribe whether this should be a distinct part of the WDA or a separate agency. There is much detail to consider. It merely points to a need for such a body to have a distinct task and identity. I

Mae'r mater olaf yr wyf am ei bwysleisio yn y trydydd gwelliant. Mae hyn yn fwy radical, ac mae'n debyg gennyf i fod llawer o bobl yn gwybod sut y byddant yn pleidleisio, felly efallai na fydd fy huodledd gorau yn ddigon i newid eu meddyliau. Fodd bynnag, hoffwn i'r syniadau a'r rhesymau y tu ôl i'r gwelliant hwn gael eu hystyried o ddifrif. Mae'r cwestiwn ynghylch sut mae cydgyssylltu datblygiad mentrau bach a chanolig ledled Cymru yn gysylltiedig â'r hyn sydd yn digwydd i elfen fenter y CHM os gweithredir cynigion y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a diddymu'r CHM yn eu ffurf bresennol. Mae'r hyn fydd yn digwydd i elfen hyfforddi'r CHM yn dal i fod yn destun dadl, ond nid yw'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn argymhell cartref iawn i'r elfen fenter. Dylem ystyried y mater hwnnw ynghyd â'r cwestiwn parhaus o sut i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cefnogaeth i fuddsoddiad o'r tu allan, gweithgaredd arbenigol, ac annog diwydiannau cynhenid llawer llai.

Yr ydym wedi ymgynghori â busnesau a chyrff sydd yn cynrychioli busnesau bach fel Ffederasiwn y Busnesau Bach, ag academyddion ac ag Enterprise Ireland, y corff sydd yn gyfrifol am hybu twf diwydiant cynhenid Iwerddon. Daeth twf economaidd gorau Iwerddon ar yr un pryd â newid allweddol yn y ffordd y rhennid cyfrifoldebau'r brif asiantaeth, Awdurdod Datblygu Iwerddon. Yr awdurdod hwnnw, fel Awdurdod Datblygu Cymru, oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o ddatblygu economaidd. Fodd bynnag, fe sefydlodd Enterprise Ireland hefyd.

Hoffem i chi ystyried hynny. Bu'n symudiad llwyddiannus, a hoffwn i chi o leiaf ystyried yr egwyddor fod angen corff arnom gyda'r brif dasg ganolog o annog busnes cynhenid a darparu'r elfen fenter a oedd yn gyfrifoldeb y CHM o'r blaen. Nid yw'r gwelliant yn dweud a ddylai hyn fod yn rhan benodol o Awdurdod Datblygu Cymru neu'n asiantaeth ar wahân. Mae llawer o fanylion i'w hystyried. Dim ond tynnu sylw y mae at yr angen am i gorff o'r fath gael tasg a hunaniaeth arbennig. Gofynnaf i chi

ask you to support this amendment, and Helen Mary will propose the fourth.

Alun Cairns: First, I was surprised to hear of the timing of today's debate and the general motion proposed. As the First Secretary said, in less than a month the WDA will launch its consultation on the Entrepreneurship Action Plan for Wales. To date, the WDA has held workshops around Wales, on which it will base its consultation document. I was also pleased to attend the meeting in Llandrindod Wells three or four weeks ago. However, without prejudging the contents of the consultation on the Entrepreneurship Action Plan for Wales, I would like to highlight my concerns at the lack of representation from the business and private sectors at that meeting. It shows that businessmen are too busy doing what we are only talking about, as I have said many times in the Chamber. Only the public sector can afford to send staff to these workshops. This is a challenge that the Assembly must overcome. We must involve the private sector in the most constructive way possible, placing it at the heart of the decisions and proposals which we discuss.

The First Secretary: That sounded like a rhetorical question but seemed to pose a challenge. We have sought to involve the business sector. It was promising to hear the Chamber of Trade and Commerce stressing its wish to be more rather than less involved during a recent meeting in Swansea. This reflects a positive change.

Alun Cairns: I welcome that organisations such as the Chamber of Trade and Commerce want to be more involved. However, to underline my recent comments in the Business Partnership debate, an over-emphasis on the social economy, public organisations and charitable organisations—which have an important part to play—will not deliver the 130,000 jobs that we seek to achieve with the Single Programme Document and the national economic

gefnogi'r gwelliant hwn, a bydd Helen Mary'n cynnig y pedwerydd.

Alun Cairns: Yn gyntaf, synnais o glywed am amseriad dadl heddiw a'r cynnig cyffredinol a oedd ger ein bron. Fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd, mewn llai na mis bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn lansio'i ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i Gymru. Hyd yma, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi cynnal gweithdai o amgylch Cymru, a bydd yn seilio'i ddogfen ymgynghorol ar y rheini. Yr oeddwn yn falch hefyd o fynychu'r cyfarfod yn Llandrindod dair neu bedair wythnos yn ôl. Fodd bynnag, heb ragfarnu cynnwys yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i Gymru, hoffwn bwysleisio fy mhryderon ynghylch y diffyg cynrychiolaeth o'r sectorau busnes a phreifat yn y cyfarfod hwnnw. Mae'n dangos bod gwŷr busnes yn rhy brysur yn gwneud yr hyn nad ydym ni ddim ond yn siarad amdano, fel y dywedais droeon yn y Siambr hon. Dim ond y sector cyhoeddus a all fforddio anfon staff i'r gweithdai hyn. Dyma her y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei goresgyn. Rhaid inni gynnwys y sector preifat yn y modd mwyaf adeiladol posibl, a'i roi wrth galon y penderfyniadau a'r cynigion yr ydym yn eu trafod.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oedd hynna'n swnio fel cwestiwn rhethregol ond yr oedd fel pe bai'n gosod her. Yr ydym wedi ceisio cynnwys y sector busnes. Yr oedd yn addawol clywed y Siambr Fasnach a Busnes yn pwysleisio'i dymuniad i gyfranogi mwy yn hytrach na llai mewn cyfarfod diweddar yn Abertawe. Mae hyn yn adlewyrchu newid cadarnhaol.

Alun Cairns: Yr wyf yn croesawu bod sefydliadau fel y Siambr Fasnach a Busnes eisiau cyfranogi mwy. Fodd bynnag, i danlinellu fy sylwadau diweddar yn y ddadl ar Bartneriaeth Fusnes, ni fydd gorbwysleisio'r economi gymdeithasol, cyrff cyhoeddus a chyrff elusennol—sydd â rhan bwysig i'w chwarae—yn creu'r 130,000 o swyddi yr ydym yn ceisio'u sicrhau gyda'r Ddogfen ar Raglen Unigol a'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Rhaid

development strategy. We must try to ease the consultation process with business by considering their timings and pressures rather than considering local authorities and public organisations who have European funding officers or entrepreneurial officers supporting them. The businessmen are the ones we want to be talking about—

Ann Jones: Do you agree that we also have businesswomen in Wales and that we should be referring to both businessmen and businesswomen in the entrepreneurship debate?

Alun Cairns: You are absolutely right. Thank you for that comment.

Ann Jones: It was a telling off, not a comment.

The Presiding Officer: Order. I support Ann.

Alun Cairns: Forgive me. When I say businessmen I am including businesswomen.

The Presiding Officer: Order. That is not helpful.

Alun Cairns: I move on to the theme I wish to address today, rather than continuing to debate the use of those words. A key purpose of the Assembly is to facilitate the private sector in achieving the goals of the people of Wales for all policies, social or otherwise, through economic re-development. Only the private sector can deliver the finance to achieve those objectives.

The challenge is to transform the culture and allow people with talent, instinct, judgment and skills to meet their entrepreneurship goals. However, one way of inhibiting these people is by making the process and procedure too difficult by increasing legislation and costs and complicating an employee's decision to become an employer. This is a hard decision that places the employee's family and finances at risk.

inni geisio hwyluso'r broses ymgynghori gyda busnes drwy ystyried eu hamserlenni a'r pwysau arnynt yn hytrach nag ystyried awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion ariannu Ewropeaidd neu swyddogion menter i'w cefnogi. Y gwŷr busnes yw'r rhai yr ydym eisiau siarad amdanynt—

Ann Jones: A ydych yn cytuno bod gennym wragedd busnes hefyd yng Nghymru ac y dylem fod yn cyfeirio at wŷr a gwragedd busnes yn y ddadl ar entrepreneuriaeth?

Alun Cairns: Yr ydych yn llygad eich lle. Diolch ichi am y sylw hwnnw.

Ann Jones: Cerydd oedd hwnnw, nid sylw.

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn cefnogi Ann.

Alun Cairns: Maddeuwch i mi. Pan ddywedaf 'gwŷr busnes' yr wyf yn cynnwys gwragedd busnes.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hynny'n helpu pethau.

Alun Cairns: Symudaf ymlaen at y thema yr wyf yn dymuno siarad arni heddiw, yn hytrach na pharhau i ddadlau am ddefnydd y geiriau hynny. Amcan allweddol gan y Cynulliad yw hwyluso'r ffordd i'r sector preifat gyflawni nodau pobl Cymru ar gyfer pob polisi, cymdeithasol neu fel arall, drwy ailddatblygu economaidd. Dim ond y sector preifat a all ganfod yr arian i gyflawni'r amcanion hynny.

Yr her yw trawsffurfio'r diwylliant a chaniatáu i bobl â dawn, greddf, barn a medrau i gyflawni eu nodau entrepreneuriaidd. Fodd bynnag, un ffordd o lyffetheirio'r bobl hyn yw drwy wneud y broses a'r drefn yn rhy anodd drwy gynyddu deddfwriaeth a chostau a chymhlethu penderfyniad gweithiwr i fynd yn gyflogwr. Penderfyniad caled yw hwn sydd yn rhoi teulu a sefyllfa ariannol y gweithiwr mewn perygl.

Since the last general election, a host of costs and taxes have been imposed on businesses. I have listed them previously and will list them again as I believe they are crucial: the introduction of the national minimum wage, the social chapter with its working time directive—

Edwina Hart: Now that the CBI has agreed to it, do you accept that the national minimum wage has not had any adverse effect on the CBI, British industry or Welsh industry in particular? It has been seen as a valuable social tool to ensure that there is fair wage provision in this country.

David Davies *rose—*

4:59 p.m.

The Presiding Officer: Order. I will only allow one intervention at a time. It is now 5.00 p.m. on both clocks. I have to call the Assembly Secretary at 5.15 p.m. in order to allow time for a vote. I have six further speakers, so I expect them to limit themselves to about a minute.

Alun Cairns: Six months since the introduction of the national minimum wage is too early to judge whether it has been a success or not. My experience from talking and dealing with businessmen—
[*Interruption.*]

Jenny Randerson: What about businesswomen?

Alun Cairns: I apologise. My experience from talking with businessmen and women proves that the national minimum wage has cost them jobs, puts pressure on organisations and is increasing costs. The Statutory Trade Union recognition, increased regulations and tax procedures, the forthcoming energy tax and increased National Insurance contributions have all taken their toll on business. The smaller entrepreneur has not got the access to solicitors, barristers and accountants in the same way as larger organisations. We must consider the impact that any legislation

Ers yr etholiad cyffredinol diwethaf, gosodwyd llu o gostau a threthi ar fusnesau. Yr wyf wedi eu rhestru o'r blaen ac fe'u rhestraf eto gan fy mod yn credu eu bod yn dyngedfennol: cyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol, y bennod gymdeithasol gyda'i chyfarwydddeb ar amser gweithio—

Edwina Hart: A'r CBI bellach wedi cydsynio iddo, a ydych yn derbyn nad yw'r isafswm cyflog cenedlaethol wedi cael unrhyw effaith groes ar y CBI, diwydiant Prydain na diwydiant Cymru yn arbennig? Fe'i gwelwyd fel arf cymdeithasol defnyddiol i sicrhau bod darpariaeth cyflogau teg yn y wlad hon.

David Davies *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Dim ond un ymyriad ar y tro a ganiatâf. Mae bellach yn 5 o'r gloch ar y ddau gloc. Rhaid imi alw Ysgrifennydd y Cynulliad am 5.15 o'r gloch er mwyn caniatáu amser ar gyfer pleidlais. Mae gennyf chwe siaradwr arall, felly disgwyliaf iddynt gyfyngu eu hunain i ryw funud yr un.

Alun Cairns: Mae chwe mis ers cyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol yn rhy gynnar i farnu a fu'n llwyddiant ai peidio. Fy mhrofiad i o siarad a delio â gwŷr busnes—
[*Torri ar draws.*]

Jenny Randerson: Beth am wragedd busnes?

Alun Cairns: Mae'n ddrwg gennyf. Fy mhrofiad i o siarad a delio â gwŷr a gwragedd busnes yw bod yr isafswm cyflog cenedlaethol wedi costio swyddi iddynt, yn rhoi pwysau ar sefydliadau ac yn cynyddu costau. Mae'r gydnabyddiaeth Statudol i Undebau Llafur, cynnydd mewn rheoliadau a gweithdrefnau treth, y dreth ynni sydd ar y gorwel a chyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch i gyd wedi taro busnes. Nid oes gan yr entrepreneur llai yr un gallu â sefydliadau mawr i gyflogi cyfreithwyr, bargyfreithwyr a chyfrifwyr. Rhaid inni ystyried yr effaith y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a gymeradwyir

passed will have on these businesses.

Dunn and Bradstreet recently highlighted the 34 per cent increase in business failures in Wales with business bankruptcies up 35 per cent—that is 1,300 failing businesses, 1,300 ideas, 1,300 employers and 1,300 self sustaining individuals who had the courage to follow their instincts and make that jump from being an employee to becoming an employer.

Any individual who has an idea and wants to turn that into reality and become entrepreneurial has one arm tied behind his back and the stepladder kicked from beneath his feet. Business support in terms of advice, guidance and management must be available to all businesses, and the abolition of TECs without any idea of how their enterprise role will be replaced is an ill thought out policy and destroys the very culture which we are trying to create.

I hope that any legislation which the Assembly insists on introducing will have a considerable exemption for sole traders, small employers of up to say 50 employees to protect them from the increased costs of accountants, barristers and solicitors.

The culture I have talked about starts from the youngest age possible, and any proposed change in the National Curriculum should reflect this by informing and empowering the pupils at the youngest age possible to believe in what they can achieve. Waiting for a job to come their way and waiting for an increase in benefits is not the way to meet their aspirations.

It is incumbent upon us to facilitate all businesses and not select specific groups to the detriment of others and not pick winners as an economic development bank would suggest and as the WDA failed badly.

Elin Jones: Wrth drafod datblygu busnes mae'n bwysig ein bod yn ystyried rôl y busnesau bach iawn, y busnesau micro, yn

yn ei chael ar y busnesau hyn.

Yn ddiweddar tynnodd Dunn a Bradstreet sylw at y cynnydd o 34 y cant mewn methiannau busnes yng Nghymru gyda chynnydd o 35 y cant yn y busnesau sydd yn mynd i'r wal—dyna fethiant 1,300 o fusnesau, 1,300 o syniadau, 1,300 o gyflogwyr a 1,300 o unigolion hunan-gynhaliol a fu'n ddigon dewr i ddilyn eu greddf a gwneud y naid honno o fod yn weithiwr i fod yn gyflogwr.

Mae unrhyw unigolyn sydd yn cael syniad ac sydd eisiau troi'r syniad hwnnw'n realiti a mynd yn entrepreneur yn cael un fraich iddo wedi ei chlymu y tu ôl i'w gefn a chicio'r ysgol oddi tan ei draed. Rhaid i gefnogaeth busnes yn nhermau cyngor, arweiniad a rheolaeth fod ar gael i bob busnes, ac mae diddymu'r CHM heb unrhyw syniad sut y cymerir lle eu rôl fenter yn bolisi byrbwyll sydd yn dinistrio'r union ddiwylliant yr ydym yn ceisio'i greu.

Yr wyf yn gobeithio y bydd unrhyw ddeddfwriaeth y bydd y Cynulliad yn mynnu ei chyflwyno yn cynnwys eithriad sylweddol i unig fasnachwyr, cyflogwyr bychain â hyd at dyweder 50 o weithwyr, i'w diogelu rhag costau ychwanegol cyfrifwyr, bargyfreithwyr a chyfreithwyr.

Mae'r diwylliant y bûm yn siarad amdano yn dechrau o'r oed ieuengaf posibl, a dylai unrhyw newid a gynigir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol adlewyrchu hyn drwy ddysgu a galluogi'r disgyblion o'r oed ieuengaf posibl i gredu yn yr hyn y gallant ei gyflawni. Nid aros i swydd ddod heibio a disgwyl am gynnydd yn eu budd-daliadau yw'r ffordd i ateb eu dyheadau.

Rhaid inni hwyluso pethau i bob busnes ac nid dewis grwpiau penodol er gwaeth i'r lleill ac nid dewis enillwyr fel y byddai banc datblygu economaidd yn awgrymu ac fel y methodd Awdurdod Datblygu Cymru yn affwysol.

Elin Jones: When discussing business development it is important that we consider the role of very small businesses, the micro

ogystal â'r busnesau bach a chanolig, yr SMEs. Mae hyn yn berthnasol iawn wrth inni lunio polisiau datblygu busnes ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae canran uchel o fusnesau un person mewn ardaloedd gwledig. Un o'r camau mwyaf sydd yn wynebu'r busnesau hyn yw symud o fod yn fusnes un person i fusnes sydd yn cyflogi. Mae'n bwysig fod strwythurau a chynlluniau ariannu mewn lle i hyrwyddo'r cam pwysig hwn yn natblygiad unrhyw fusnes—y cam o fod yn fôs arnoch eich hunan i fod yn gyflogwr am y tro cyntaf. Ar gyfer hyn, mae angen cryfhau cynlluniau megis y cynllun cymhorthdal cyflogau cwmnïau bychain sydd yn gynllun defnyddiol i annog busnesau i gyflogi gweithwyr ychwanegol. Dyma'r rôl y byddwn yn dymuno i'r tasglu busnesau bach ei gwneud sef rhoi sylw i anghenion y busnesau micro ynghyd ag anghenion y mentrau bach a chanolig. Yn ogystal hoffem weld fforwm megis y tasglu yn datblygu rhaglenni i fentrau cymunedol a chydweithredol—mentrau sydd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad economaidd, beth bynnag y mae Alun Cairns yn ei feddwl.

Yr wyf yn gyfarwyddwraig ar fenter gymunedol, sef gorsaf radio cymunedol annibynnol yng Ngheredigion. Mae'n cyflogi 10 o bobl yn llawn amser yn Aberystwyth. Mae menter o'r math hwn yn wynebu diffyg hyblygrwydd yn y cynlluniau ar gyfer cefnogi busnes, naill ai drwy Gyswllt Busnes neu Awdurdod Datblygu Cymru, o ran ymateb i anghenion mentrau cymunedol. Lluniwyd polisiau datblygu busnes yn seiliedig ar y diffiniad traddodiadol o fusnes: busnes preifat sydd yn cynhyrchu elw i unigolyn. Rhaid inni annog dealltwriaeth a diffiniad ehangach o'r term 'busnes', a darparu cynlluniau ariannu i gefnogi hyn. Hoffwn weld y tasglu—

Alun Cairns: A ydych chi yn derbyn bod yr elw i'r unigolion yn cael ei ailfuddsoddi yn yr economi fel arfer er mwyn hybu mwy o swyddi a chyflogaeth?

Elin Jones: Nid wyf yn diffrïo'r diffiniad traddodiadol o fusnesau. Yr wyf yn annog yr ystod ehangaf posibl o fusnesau sydd yn

businesses, in addition to the SMEs. This is very relevant when we are forming business development policies for rural areas. There is a high percentage of sole trader businesses in rural areas. One of the biggest steps facing these businesses is moving from being a sole trader business to becoming an employer. It is important that there are financial structures and schemes in place to promote this important step in the development of any business—the step from being your own boss to becoming an employer for the first time. For this, we need to strengthen schemes such as the small firms wage subsidy scheme which is a useful scheme to encourage businesses to employ additional workers. This is a role which I would like the small business taskforce to take on, that is paying attention to the needs of micro businesses as well as the needs of the SMEs. In addition, I would like to see a forum such as the taskforce developing community and co-operative enterprise programmes—enterprises that contribute substantially to economic development, whatever Alun Cairns thinks

I am a director of a community enterprise: an independent community radio station in Ceredigion. It employs 10 people full time in Aberystwyth. Enterprises such as this one face a lack of flexibility in the schemes that support business, either through Business Connect or the WDA in responding to community enterprise needs. Business development policies have been drawn up on the basis of the traditional definition of business: a private business that generates profit for an individual. We must encourage an understanding and a wider definition of the term 'business', and provide funding schemes to support this. I would like to see the taskforce—

Alun Cairns: Do you accept that the profit for individuals is usually re-invested in the economy to promote more jobs and employment?

Elin Jones: I am not disparaging the traditional definition of business. I am encouraging the widest possible range of

cyfrannu tuag at ddatblygiad ein heconomi.

businesses that contribute to developing our economy.

Hoffwn weld y tasglu busnesau bach yn hyrwyddo polisiau ar gyfer y tri maes busnes: mentrau cymunedol, busnesau micro a mentrau bach a chanolig. Mae angen inni fod yn greadigol ac yn hyblyg yn ein polisiau datblygu busnes pan ydym yn trafod manteisio cymaint â phosibl ar arian Amcan 1.

I would like to see the small business taskforce promoting policies for three business areas: community enterprises; micro businesses and small and medium sized enterprises. We need to be creative and flexible in our business development policies when we discuss taking the best possible advantage of Objective 1 money.

Christine Chapman: I want to speak about the role of education in creating a culture in which entrepreneurs can flourish and educating people to aspire to setting up their own business.

Christine Chapman: Hoffwn siarad am rôl addysg mewn creu diwylliant lle gall entrepreneuriaid flodeuo a lle'r addysgir pobl i anelu at sefydlu eu busnesau eu hunain.

Education has a key role to play but up to now it has not played a full part in creating young entrepreneurs. An article that appeared in the *Los Angeles Times* a few years ago stated that seven out of 10 high school children wanted to run their own businesses but did not feel that they had been given the necessary educational tools to do so. I tried to find out if there were similar figures in Wales so that we could know who is aspiring to be our future entrepreneurs. I spoke to the Careers Service yesterday and it does not have such information. That is indicative of the scale of the problem that we face in integrating these skills into the pre-16 education curriculum. The staff at the Careers Service are also concerned about this issue. They agreed that the curriculum must address elements of entrepreneurship. They are aware of how infrequently young people mention setting up their own business when they have career guidance interviews.

Mae gan addysg rôl allweddol i'w chwarae ond hyd yn hyn ni chwaraeodd ran lawn i greu entrepreneuriaid ifainc. Yn ôl erthygl a ymddangosodd yn y *Los Angeles Times* ychydig flynyddoedd yn ôl yr oedd saith o bob 10 plentyn ysgol uwchradd eisiau rhedeg eu busnes eu hunain ond nid oeddent yn teimlo eu bod wedi cael yr arfau addysgol angenrheidiol i wneud hynny. Ceisiais ddarganfod a oedd ffigurau tebyg ar gyfer Cymru fel y gallem wybod pwy sydd â'r uchelgais o fod yn entrepreneuriaid y dyfodol yma. Siaradais â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ddoe ac nid oes ganddo wybodaeth o'r fath. Dyna arwydd o faint y broblem a wynebwn wrth integreiddio'r sgiliau hyn yn y cwricwlwm addysg cyn-16. Mae'r staff yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd hefyd yn bryderus ynghylch y mater hwn. Yr oeddent yn cytuno bod yn rhaid i'r cwricwlwm gynnwys elfennau o entrepreneuriaeth. Maent yn ymwybodol pa mor anaml y bydd pobl ifainc yn sôn am sefydlu eu busnes eu hun pan gânt gyfweiliadau arweiniad gyrfaol.

I question whether we have an educational culture conducive to promoting and creating entrepreneurial skills. You may have seen the Federation of Small Businesses' briefing, which shows that the educational position is not much better in the United States of America. However, America is beginning to grasp the potential. Many providers for older children are beginning to notice that entrepreneurial skills are those which will

Yr wyf yn amau a oes gennym ddiwylliant addysgol sydd yn ffafriol i hyrwyddo a chreu medrau entrepreneuraidd. Efallai eich bod wedi gweld cyfarwyddyd Ffederasiwn y Busnesau Bach, sydd yn dangos nad yw'r sefyllfa addysgol lawer gwell yn Unol Daleithiau America. Fodd bynnag, mae'r Americanwyr yn dechrau amgyffred y potensial. Mae llawer o ddarparwyr ar gyfer plant hŷn yn dechrau sylwi mai sgiliau

benefit the economy the most.

I do not want such skills to only be afforded to older children who are studying business-related subjects, but that tends to happen. It must start younger and consider the whole spectrum of our young people. Some of you may know of the young enterprise initiative, which is excellent but only has contact with a small number of young people in Wales. You will also know of the excellent work of TECs, the education business partnerships and private companies such as Venture Start in my constituency, but more can be done.

I share the disappointment of Professor Dylan Jones-Evans of the University of Glamorgan's Welsh Enterprise Institute. He talks about the lack of vision presented by the European taskforce in single programming document for Objective 1. That document plays down the role of entrepreneurs and does not seem to classify entrepreneurial activity as a key priority. The redrafted document does not directly refer to entrepreneurship. This shows that we need a wholesale attitude change and culture change in the way in which we address entrepreneurs in Wales. There is also a perception problem, particularly amongst young people who often have negative perceptions. When thinking of entrepreneurs, I imagine that many young people think of Arthur Daley, Del Boy and the Mitchell brothers from *Eastenders* rather than Terry Matthews or Malcolm Walker, the Chief Executive of Iceland. Alun Michael has already mentioned those as role models. However, as far as young people are concerned, we still have a long way to go.

5:09 p.m.

A few weeks ago I attended a conference, which some of you also attended. We looked at the possibility of an entrepreneurship action plan for Wales. We must take some of the key messages that came out of that conference on board today. One proposition about education stated:

entrepreneuraidd fydd yn fwyaf manteisiol i'r economi.

Nid oes arnaf eisiau i'r sgiliau hyn gael eu cyfyngu i blant hŷn sydd yn astudio pynciau perthnasol i fusnes, ond dyna sydd yn tueddu i ddigwydd. Rhaid iddo ddechrau'n iau ac ystyried sbectrwm cyfan ein pobl ifainc. Efallai y gŵyr rhai ohonoch am gynllun menter yr ifainc, sydd yn ardderchog ond dim ond yn cyffwrdd nifer fach o bobl ifainc yng Nghymru. Byddwch yn gwybod hefyd am waith ardderchog y CHM, y partneriaethau addysg busnes a chwmnïau preifat megis Venture Start yn fy etholaeth i, ond nid da lle gellir gwell.

Yr wyf yn rhannu siomedigaeth yr Athro Dylan Jones-Evans o Sefydliad Mentrau Cymreig Prifysgol Morgannwg. Sonia am y diffyg gweledigaeth a gynigir gan y tasglu Ewropeaidd yn y ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1. Mae'r ddogfen honno'n gwneud yn fach o rôl entrepreneuriaid ac nid yw fel pe bai'n dosbarthu gweithgaredd entrepreneuraidd fel blaenoriaeth allweddol. Nid yw ail ddrafft y ddogfen yn cyfeirio'n uniongyrchol at entrepreneuriaeth. Mae hyn yn dangos bod arnom angen newid agwedd a newid diwylliant llwyr yn y modd yr ymdriniwn ag entrepreneuriaid yng Nghymru. Mae problem ddelwedd hefyd, yn enwedig ymhlith pobl ifainc sydd yn aml yn magu delweddau negyddol. Pan feddyliant am entrepreneuriaid, yr wyf yn dychmygu bod llawer o bobl ifainc yn meddwl am Arthur Daley, Del Boy a'r brodyr Mitchell o *Eastenders* yn hytrach na Terry Matthews neu Malcolm Walker, Prif Weithredwr Iceland. Soniodd Alun Michael eisoes am y rhain fel patrymau ymddygiad. Fodd bynnag, lle mae pobl ifainc dan sylw, mae gennym ffordd bell i fynd eto.

Ychydig o wythnosau yn ôl mynychais gynhadledd, a fynychwyd gan rai ohonoch chithau. Edrychwyd ar bosibilrwydd cynllun gweithredu entrepreneuriaeth i Gymru. Rhaid inni dderbyn rhai o'r negeseuon allweddol a ddaeth allan o'r gynhadledd honno heddiw. Dyma a ddywedodd un cynnig ar addysg:

'For Wales to achieve long term, sustained level of entrepreneurial activity, there has to be a substantial commitment and investment in education at post-secondary level.'

We need to invest in education much earlier than this. Yesterday the Cardiff Chamber of Commerce, Trade and Industry published its quarterly economic survey which showed a marked improvement in business confidence in Wales in the manufacturing and service sectors. Through the business development policies of the Labour Party we are creating a culture of business confidence throughout the country. It is this confidence which we must translate into business start-ups. We will continue to provide businesses with the economy they need to flourish. However, we must concentrate on the next generation of Welsh business women and men and look at how our education system can include entrepreneurial skills which will go some way to starting that process at the right time. If we can begin today to sow the seeds that will grow into the entrepreneurs of Wales in the future, we will go some way to ensuring a sustainable upturn in the Welsh economy. We will go a long way to ensure the success of our objectives in the national economic development strategy. It is the small and medium sized enterprises sector which will determine our success. We must support them and ensure that there are successes to follow them.

Rhodri Morgan: We all accept how important small and medium sized enterprises are in the Welsh economy. After all, 66 per cent of the Welsh labour force is employed by 62,000 small and medium sized enterprises. These are locally owned firms employing up to 200 people. We are also aware of some 160,000 sole traders in Wales who have not reached the stage where they qualify to be called firms. These statistics speak for themselves as to how important the indigenous enterprise sector is within Wales, especially in some parts of Wales such as west Wales. For most people it is a choice between self-employment or unemployment, as was put to me recently in a craft shop in New Quay.

'I Gymru sicrhau lefel hirdymor, gynhaliol o weithgaredd entrepreneuriaidd, rhaid wrth gryn ymrwymiad a buddsoddiad mewn addysg ar lefel ôl-uwchradd.'

Mae angen inni fuddsoddi mewn addysg yn llawer cynharach na hyn. Ddoe, cyhoeddodd Siambr Fasnach, Busnes a Diwydiant Caerdydd ei harolwg economaidd chwarterol a ddangosodd gynnydd sylweddol yn hyder busnesau yng Nghymru yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaeth. Drwy bolisiau datblygu busnes y Blaid Lafur yr ydym yn creu diwylliant o hyder busnes ledled y wlad. Dyma'r hyder y mae'n rhaid inni ei drosi'n gychwyn busnesau. Byddwn yn parhau i ddarparu'r economi y mae busnesau ei hangen er mwyn ffynnu. Fodd bynnag, rhaid inni ganolbwyntio ar y to nesaf o wragedd busnes a gwŷr busnes ac edrych ar sut y gall ein system addysg gynnwys sgiliau entrepreneuriaidd a fydd yn mynd beth o'r ffordd tuag at ddechrau'r broses honno ar yr adeg iawn. Os gallwn heddiw ddechrau hau'r hadau a fydd yn tyfu'n entrepreneuriaid Cymru yn y dyfodol, awn rywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau gwelliant cynaliadwy yn economi Cymru. Awn gryn bellter tuag at sicrhau llwyddiant ein hamcanion yn y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol. Y sector mentrau bach a chanolig fydd yn penderfynu ein llwyddiant. Rhaid inni eu cefnogi a sicrhau y daw llwyddiannau i'w dilyn.

Rhodri Morgan: Yr ydym i gyd yn derbyn mor bwysig yw mentrau bach a chanolig yn economi Cymru. Wedi'r cyfan, cyflogir 66 y cant o'r gweithlu Cymreig gan 62,000 o fentrau bach a chanolig. Cwmnïau mewn dwylo lleol yw'r rhain yn cyflogi hyd at 200 o bobl. Yr ydym yn ymwybodol hefyd o ryw 160,000 o unig fasnachwyr yng Nghymru sydd heb gyrraedd y cam lle gellir eu galw'n gwmnïau. Mae'r ystadegau hyn yn siarad drostynt eu hunain o ran pwysigrwydd y sector menter cynhenid yng Nghymru, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru fel y gorllewin. I'r rhan fwyaf o bobl, dewis ydyw rhwng hunan-gyflogaeth neu ddiweithdra, fel y dywedwyd wrthyf yn ddiweddar mewn siop grefftiau yng Ngheineuwydd.

This year's budget shows an 18 per cent increase in support services for small businesses to £13 million. That is the money being spent in 1999-2000. Some of that is an artificial boost because of the millennium bug problems so I do not want to make too much of it. Nevertheless, even after you take out the special expenditure on the millennium bug, there is still a substantial percentage increase in our expenditure on small business support services in Wales this year. We would expect to see that kind of activity continued throughout the Objective 1 and Objective 2 period, which is the first 10 years of the next century. We all expect inward investment's ability to solve our problems to decrease as we face competition from countries with wages so low that we cannot compete with them. For example, wages are one fifth of ours in Eastern European countries which are becoming members of the European Community. We must therefore do more to help ourselves.

Ambassador Lader told us of this in a strong and challenging speech about four months ago. We have all taken that advice on board. We cannot do exactly what the Americans have done. Immigrant societies like America, Canada and Israel are at the top of the world league in entrepreneurial formation. Great Britain is somewhere in the middle but we are behind the UK average for various social, cultural and economic reasons. We can change that situation, at least in the long term, by creating conditions in which entrepreneurial activity and individual entrepreneurs can flourish. There will be more entrepreneurs in Wales. The existing entrepreneurs will then survive for longer and those surviving entrepreneurs will become growing companies. We will then be able to produce the conditions in which small companies eventually become big companies and help to solve our unemployment problems.

We also want a closer relationship between our undoubted inward investment successes and local sub-contractors or suppliers through the Source Wales Initiative. I emphasised that point in co-opening Air

Mae cyllideb eleni'n dangos cynnydd o 18 y cant mewn gwasanaethau cefnogi i fusnesau bach, i £13 miliwn. Dyna'r arian sydd yn cael ei wario yn 1999-2000. Hwb artiffisial yw rhywfaint o hynny oherwydd problemau nam y mileniwm, felly nid oes arnaf eisiau gwneud gormod ohono. Serch hynny, hyd yn oed wedi ichi dynnu'r gwariant arbennig ar nam y mileniwm, mae cynnydd canrannol sylweddol yn dal i'w weld yn ein gwariant ar wasanaethau cefnogi busnesau bach yng Nghymru eleni. Byddem yn disgwyl gweld parhau'r math hwn o weithgaredd drwy gydol cyfnod Amcan 1 ac Amcan 2, sef 10 mlynedd cyntaf y ganrif nesaf. Yr ydym i gyd yn disgwyl y bydd gallu buddsoddiad oddi allan i ddatrys ein problemau yn lleihau wrth inni wynebu cystadleuaeth gan wledydd â chyflogau mor isel fel na allwn gystadlu â hwy. Er enghraifft, mae cyflogau yng ngwledydd dwyrain Ewrop sydd yn dod yn aelodau o'r Gymuned Ewropeaidd yn un rhan o bump o'n cyflogau ni. Rhaid, felly, inni wneud mwy i helpu'n hunain.

Dywedodd y Llysgennad Lader hyn wrthym mewn araith gref a heriol tua phedwar mis yn ôl. Yr ydym i gyd wedi derbyn y cyngor hwnnw. Ni allwn wneud yn union yr hyn a wnaeth yr Americanwyr. Mae cymdeithasau mewnffudol fel America, Canada ac Israel ar ben cynghrair y byd o ran ffurfio entrepreneuriaeth. Mae Prydain Fawr rywle yn y canol ond yr ydym ni'n is na chyfartaledd y DU am amryfal resymau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Gallwn newid y sefyllfa honno, yn y tymor hir o leiaf, drwy greu amodau lle gall gweithgaredd entrepreneuriaidd ac entrepreneuriaid unigol ffynnu. Bydd mwy o entrepreneuriaid yng Nghymru. Wedyn bydd yr entrepreneuriaid sydd yn bodoli yn goroesi'n hirach a bydd yr entrepreneuriaid goroesol hynny'n tyfu'n gwmnïau. Wedyn byddwn yn gallu cynhyrchu'r amodau lle bydd cwmnïau bach yn tyfu'n gwmnïau mawr yn y pen draw gan helpu i ddatrys ein problemau diweithdra.

Mae arnom eisiau perthynas agosach hefyd rhwng ein llwyddiannau diamau gyda buddsoddiad o'r tu allan ac is-gontractwyr neu gyflenwyr lleol drwy Fenter Ffynhonnell Cymru. Pwysleisiais y pwynt hwnnw wrth

International, the Australian company in Blaina yesterday in the presence of not only the Prime Minister of New South Wales but also the local Assembly Member for Blaenau Gwent, Peter Law. Because they had also put a big subcontract to MC Sheet Metal—

Alun Cairns: Point of order. Could we say that Peter Law was one of the Assembly Members in Blaenau Gwent?

The Presiding Officer: That is not a point of order. Peter Law is the Assembly Member for Blaenau Gwent but Blaenau Gwent electors have other Assembly Members as well on the regional list.

Rhodri Morgan: I was about to comment on Alun Cairns's speech because he was in the mode of a Victorian undertaker praying for a hard winter. He made so much of the Dunn and Bradstreet survey showing a sharp increase in the business failures in Wales in the first nine months of this year.

However, I have three points to set against that. The first is that even including those business failures, there is still a higher stock of small firms in Wales than you would expect based on the average. We still finish up with more small firms than our population would indicate.

The second point is the common theory even among Conservative-type free market economists that, as long as they are compensated by a strong business birth rate, business failures themselves are a sign of business turbulence and enterprising activity. I am not sure that I believe this theory because I tend to have an instinctive sympathy with any firm that has gone bust. However, it is a strongly held view among free market economists that business failures and business start-ups are part of a free enterprise economy working well.

Thirdly, Alun Cairns should set against the Dunn and Bradstreet survey the Cardiff Chamber of Commerce survey mentioned by

gyd-agor Air International, y cwmni o Awstralia, yn y Blaenau ddoe ym mhresenoldeb nid yn unig Brif Weinidog De Cymru Newydd ond hefyd yr Aelod Cynulliad lleol dros Flaenau Gwent, Peter Law. Oherwydd eu bod hefyd wedi rhoi is-gontract mawr i MC Sheet Metal—

Alun Cairns: Pwynt o drefn. A allem ni ddweud mai un o Aelodau'r Cynulliad dros Flaenau Gwent oedd Peter Law?

Y Llywydd: Nid yw hynny'n bwynt o drefn. Peter Law yw'r Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent, ond mae gan etholwyr Blaenau Gwent Aelodau Cynulliad eraill hefyd ar y rhestr ranbarthol.

Rhodri Morgan: Yr oeddwn am wneud sylw ar araith Alun Cairns oherwydd yr oedd yn ymdebygu i ymgymwr yn oes Fictoria yn gweddio am aeaf caled. Rhoddodd gymaint o bwys ar arolwg Dunn a Bradstreet yn dangos cynnydd sydyn yn y methiannau busnes yng Nghymru yn naw mis cyntaf y flwyddyn hon.

Fodd bynnag, mae gennyf dri phwynt i'w gosod yn erbyn hynny. Y cyntaf yw, hyd yn oed gan gynnwys y methiannau busnes hynny, mae'r stoc cwmnïau bach yng Nghymru yn dal i fod yn uwch nag y gellid ei ddisgwyl ar sail y cyfartaledd. Yr ydym yn dal i fod â mwy o gwmnïau bach nag y byddai'n poblogaeth yn ei awgrymu.

Yr ail bwynt yw'r ddamcaniaeth gyffredin hyd yn oed ymhlith economegwyr marchnad rydd Ceidwadol fod methiannau busnes, cyn belled â bod cyfradd dechrau busnesau cryf i wneud iawn amdanynt, yn arwydd o gynnwrf busnes a gweithgaredd mentrus. Nid wyf yn siŵr a ydwyf yn credu'r ddamcaniaeth hon gan fy mod yn tueddu i gydymdeimlo'n reddfod ag unrhyw gwmni a aeth i'r wal. Fodd bynnag, y mae'n farn a arddelir yn gryf gan economegwyr y farchnad rydd fod methiannau busnes a dechreuadau busnes yn rhan o economi menter rydd yn gweithio'n dda.

Yn drydydd, dylai Alun Cairns edrych ar arolwg Dunn a Bradstreet ochr yn ochr â'r arolwg gan Siambr Fasnach Caerdydd a

Christine Chapman in her excellent speech. The latter survey covers about half the economic activity in Wales. It is based on the examination of 450 firms and shows a rapid upturn. I do not make a great play about that but, if Alun Cairns is going to make a great play about the Dunn and Bradstreet survey, he should set it against the subsequent survey from the Cardiff Chamber of Commerce which shows a brighter picture.

grybwyllwyd gan Christine Chapman yn ei haraith ardderchog. Mae'r arolwg hwnnw'n ymdrin ag oddeutu hanner y gweithgaredd economaidd yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar archwiliad o 450 o gwmnïau ac mae'n dangos gwelliant cyflym. Nid wyf yn gosod pwys mawr ar hynny ond, os yw Alun Cairns yn mynd i osod pwys mawr ar arolwg Dunn a Bradstreet, dylai ei osod yn erbyn yr arolwg diweddarach gan Siambr Fasnach Caerdydd sydd yn dangos darlun goleuach.

Alun Cairns: Do you not accept that those 1,300 companies have closed down, gone into liquidation, become bankrupt, partly as a result of the increased legislation? Do you not accept that the employees of those 1,300 businesses are now either forced to retrain or are left on the scrap-heap and will not face employment again?

Alun Cairns: Onid ydych chi'n derbyn bod y 1,300 o gwmnïau hynny wedi cau, mynd yn fethdalwyr, mynd i'r wal, yn rhannol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth gynyddol? Onid ydych chi'n derbyn bod gweithwyr y 1,300 o gwmnïau hynny bellach naill ai wedi eu gorfodi i ailhyfforddi neu wedi eu gadael ar y domen heb argoel y cânt gyflogaeth eto?

Rhodri Morgan: If the evidence was that the British and the Welsh economies were about to plunge into depression, I would accept that. However, the evidence from all of the survey data since then suggests that there is no depression and, in spite of the high pound, export orders have now lifted off. The danger is that if we talk about it too much and about how the economy has turned around, the monetary policy committee of the Bank of England will increase interest rates. I do not talk-up the issue of the business turnaround but it appears to have happened, so do not tell the Bank of England.

Rhodri Morgan: Pe bai'r dystiolaeth yn dangos bod economïau Prydain a Chymru ar fin plymio i ddirwasgiad, byddwn yn derbyn hynny. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r holl ddata arolwg ers hynny'n awgrymu nad oes dim dirwasgiad ac, er gwaethaf y bunt uchel, mae archebion allforio bellach wedi codi. Y perygl yw os siaradwn amdano ormod ac am y modd y mae'r economi wedi troi o gwmpas, y bydd pwyllgor polisi ariannol Banc Lloegr yn codi cyfraddau llog. Nid wyf yn gorganmol y tro pedol ym myd busnes, ond y mae'n debyg ei fod wedi digwydd, felly peidiwch â dweud wrth Fanc Lloegr.

5:19 p.m.

Dafydd Wigley: A gytunwch mai efallai yr hyn sydd bwysicaf yw ansawdd y busnesau sydd yn cael eu creu yn y lle cyntaf? Rhaid sicrhau ansawdd sydd yn debygol o dyfu a chyflogi pobl ac nid yn unig bobl sydd yn glanhau ffenestri. Yn y cyd-destun hwnnw, onid yw'n bwysig sicrhau ein bod yn helpu pobl sydd eisoes mewn gwaith ar lefel ganolog o fewn cwmnïau i sefydlu eu busnesau eu hunain a thrwy hynny greu mentrau sydd â siawns dda o lwyddo?

Dafydd Wigley: Would you agree that perhaps the most important thing is the quality of the businesses created in the first place? We must ensure a quality that is likely to grow and employ people and not only people who clean windows. In that context, is it not important to ensure help for people who are already in middle-level employment within a company to set up their own businesses and in so doing to create enterprises that have a good chance of succeeding?

Rhodri Morgan: Cytunaf. Nid wyf yn dymuno dibrisio pobl sydd yn dechrau eu

Rhodri Morgan: I agree. I do not want to devalue people who start their own

busnesau eu hunain megis glanhau ffenestri oherwydd mae angen i bobl ddechrau busnesau o'r math hwnnw. O ran cyflogi staff, y math o bobl yr ydym eisiau eu hannog i ddechrau busnes yw'r bobl sydd â photensial i reoli busnesau bach i ddechrau a rhai cymhedrol eu maint ymhen deng mlynedd a dyf yn fusnesau mawr ymhen chwarter canrif. Mae angen inni gael hyd i bobl debyg i Terry Matthews a Chris Evans yng Nghymru er mwyn eu hannog i ddechrau a datblygu busnesau yn y wlad hon. Mae pobl, tebyg i'r rhai a enwyd, sydd yn hanu o Gymru wedi sefydlu busnesau yng Nghanada ac yn ardal Caergrawnt ond rhaid inni ymdrechu i'w cadw yng Nghymru.

There are other encouraging areas of the business scene in Wales, one of which being the management buy-out route. This shows what you can do, provided the trust in the quality of the management is already there. The management buy-out route, which is an example of enterprise and of risk-taking as the essence of enterprising behaviour, has improved greatly in Wales over the past few years. We have seen examples of big and medium-sized buy-outs: Peacocks stores will be floated on the stock exchange soon; Admiral Insurance is a large management buy-out that was recently financed; two management buy-outs salvaged the failing inward investments of the QPL Group from Hong Kong at Newport and Crumlin; and JR supplies of Cardiff is another example.

It shows that venture capital can be raised where firms already exist. Our problem is raising venture capital when we do not have the management material. People leave firms in middle management or leave research laboratories to try to raise capital but do so at a time when they do not have the experience of running a company and cannot show the track record to the venture capitalists. Other speakers made the relevant point that it is easier to start a new venture within the M25 belt than it is in Wales. That is the reason behind ideas such as the development bank for Wales. When that comes to fruition and is ready to be presented to the Assembly, we

businesses like cleaning windows because we need people to start businesses of that kind. As regards employing staff, the type of people whom we want to start businesses are the people who have the potential to manage small businesses initially and moderate sized businesses in ten years' time which will grow into big businesses in twenty five years' time. We need to find people like Terry Matthews and Chris Evans in Wales in order to persuade them to start and develop businesses in this country. There are people, like those mentioned, who come from Wales and who have established businesses in Canada and the Cambridge area. However, we must endeavour to keep them in Wales.

Y mae pethau calonogol eraill yn yr olygfa fusnes yng Nghymru, ac un ohonynt yw'r llwybr cyfranbrynu rheolaeth. Mae hyn yn dangos yr hyn y gallwch ei wneud, ar yr amod fod yr ymddiriedaeth yn ansawdd y rheolaeth yno'n barod. Mae'r llwybr cyfranbrynu rheolaeth, sydd yn enghraifft o fenter a mentro fel hanfod ymddygiad entrepreneuriaidd, wedi gwella'n fawr yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gwelsom enghreifftiau o gyfranbrynu mawr a chanolig: bydd siopau Peacocks yn cael eu lansio ar y gyfnewidfa stoc yn fuan; mae Admiral Insurance yn enghraifft o gyfranbrynu rheolaeth ar raddfa fawr a ariannwyd yn ddiweddar; achubwyd buddsoddiadau Grŵp QPL o Hong Kong yng Nghasnewydd a Chrymlyn yn ddiweddar gan ddau gyfranbrynant rheolaeth; ac mae JR Supplies o Gaerdydd yn enghraifft arall.

Mae'n dangos y gellir codi cyfalaf menter lle mae cwmnïau'n bodoli eisoes. Ein problem ni yw codi cyfalaf menter pan nad oes gennym y deunydd rheolaeth. Bydd pobl yn gadael cwmnïau mewn rheolaeth ganol neu'n gadael labordai ymchwil i geisio codi cyfalaf ond gwnânt hynny ar adeg pan nad oes ganddynt y profiad o redeg cwmni a heb allu dangos yr hanes gyrfa i'r cyfalafwyr menter. Gwnaeth siaradwyr eraill y pwynt perthnasol ei bod yn haws cychwyn menter newydd o fewn cyffiniau'r M25 nag yng Nghymru. Dyna'r rheswm y tu ôl i syniadau fel y banc datblygu i Gymru. Pan ddaw hwnnw i fod a phan fydd yn barod i'w gyflwyno i'r

hope it will receive its complete support.

Cynulliad, gobeithio y caiff ei gefnogaeth lwyr.

Helen Mary Jones: Would you agree that entrepreneurs from black and ethnic minority communities and women entrepreneurs often face difficulties in the area of venture capital because banks are less willing to back them? Would you also take this opportunity in accepting our amendment to reaffirm the commitment you have already given in the Economic Development Committee to ensure that the needs of black and ethnic minority entrepreneurs and women entrepreneurs are met by the new strategy?

Helen Mary Jones: A fydddech yn cytuno fod entrepreneuriaid o gymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig ac entrepreneuriaid sydd yn fenywod yn aml yn wynebu anawsterau ym maes cyfalaf menter am fod banciau'n llai parod i'w cefnogi? A fydddech hefyd yn achub ar y cyfle hwn i dderbyn ein gwelliant i ailddatgan yr ymrwymiad a roesoch eisoes yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd i sicrhau yr atebir anghenion entrepreneuriaid croenddu ac o leiafrifoedd ethnig ac entrepreneuriaid sydd yn fenywod gan y strategaeth newydd?

Rhodri Morgan: That is right. The M25 fixation problem of the bulk of the venture capital and finance industries in the UK means that it is harder to ensure financial support for ventures in Wales. However, if you are a woman or from black and ethnic minorities you are faced with the Welsh problem in duplicate. Correcting both factors at once is part of our role and, fortunately, we have the full support of the European Community's insistence that this is carried out as part of our equal opportunities commitment within the Objective 1 programme. We would do it even if we had the choice but we do not have the choice, therefore that will be a cornerstone of our policy for encouraging entrepreneurship across the board, particularly from groups that are under-represented—

Rhodri Morgan: Mae hynny'n gywir. Mae'r broblem o obsesiwn gyda'r M25 sydd gan y rhan fwyaf o'r diwydiannau cyllid a chyfalaf menter yn y DU yn golygu ei bod yn anoddach sicrhau cymorth ariannol i fentrau yng Nghymru. Fodd bynnag, os ydych yn fenyw neu o leiafrif croenddu ac ethnig yr ydych yn wynebu'r broblem Gymreig yn ddeublyg. Mae cywiro'r ddau ffactor ar unwaith yn rhan o'n rôl ac, yn ffodus, mae gennym gefnogaeth lawn y Gymuned Ewropeaidd sydd yn mynnu y gwneir hyn fel rhan o'n hymrwymiad i gyfle cyfartal o fewn y rhaglen Amcan 1. Byddem yn ei wneud hyd yn oed pe bai'r dewis gennym, ond nid yw'r dewis gennym, felly bydd hynny'n gonglfaen i'n polisi ar gyfer annog entrepreneuriaeth drwyddi draw, yn enwedig o gyfeiriad grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli—

Alun Cairns: Will Rhodri Morgan give way?

Alun Cairns: A wnaiff Rhodri Morgan ildio?

Rhodri Morgan: Mae'n flin gennyf Alun ond yr wyf yn awyddus i eistedd i lawr gan fod yr amser wedi dod i ben.

Rhodri Morgan: I am sorry Alun but I am keen to sit down as we are out of time.

The Presiding Officer: We will now vote on the first amendment standing in the name of Mike German.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant cyntaf sydd yn sefyll yn enw Mike German.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

The Presiding Officer: The second

Y Llywydd: Mae'r ail welliant sydd yn

amendment standing in the name of Mike German has been withdrawn and the first amendment standing in the name of Phil Williams has also been withdrawn.

We will now vote on the second amendment standing in the name of Phil Williams.

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

We will now vote on the third amendment standing in the name of Phil Williams.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

We will now vote on the fourth amendment standing in the name of Phil Williams.

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

We will now vote on the amended motion.

The Assembly notes that a successful future for the Welsh economy depends on a strong culture of entrepreneurship and agrees that the relevant Assembly policies should reflect the importance of successful entrepreneurship and the need to increase the level of business start-ups in Wales and the rate of survival, innovation and growth rates among small and medium sized firms in Wales.

The Assembly calls on the Secretary for Economic Development and the Economic Development Committee to ensure that an independently-managed development bank or similar fund is established early in the 2000-2006 European funding period to provide SMEs with flexible and sustained finance for development.

The Assembly resolves that all appropriate European, UK and Welsh sources of funding be utilised to provide sustainable and flexible support for women and minority entrepreneurs.

sefyll yn enw Mike German wedi ei dynnu'n ôl ac mae'r gwelliant cyntaf sydd yn sefyll yn enw Phil Williams wedi ei dynnu'n ôl hefyd.

Pleidleisiwn yn awr ar yr ail welliant sydd yn sefyll yn enw Phil Williams.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

Pleidleisiwn yn awr ar y trydydd gwelliant sydd yn sefyll yn enw Phil Williams.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

Pleidleisiwn yn awr ar y pedwerydd gwelliant sydd yn sefyll yn enw Phil Williams.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi ei ddiwygio.

Mae'r Cynulliad yn nodi bod dyfodol llewyrchus i economi Cymru'n dibynnu ar ddiwylliant cryf o entrepreneuriaeth ac mae'n cytuno y dylai polisiau perthnasol y Cynulliad adlewyrchu pwysigrwydd entrepreneuriaeth lwyddiannus a'r angen i sicrhau bod mwy o fusnesau'n cael eu sefydlu yng Nghymru a mwy o gwmnïau bach a chanolig yng Nghymru'n goroesi, yn torri tir newydd ac yn tyfu.

Mae'r Cynulliad yn galw ar yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i sicrhau bod banc datblygu a reolir yn annibynnol, neu gronfa debyg, yn cael ei sefydlu yn gynnar yn ystod cyfnod cyllido Ewropeaidd 2000-2006 i ddarparu cyllid hyblyg a chynaliadwy i fusnesau bach a chanolig er mwyn iddynt ddatblygu.

Mae'r Cynulliad yn penderfynu y dylid defnyddio holl ffynonellau priodol Ewrop, y DU a Chymru i ddarparu cefnogaeth gynaliadwy a hyblyg i entrepreneuriaid lleiafrifol a merched sydd yn entrepreneuriaid.

*A vote was held by show of hands.
Amended motion adopted.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig wedi ei ddiwygio.*

Y Llywydd: Dyna ddiwedd y sesiwn heddiw. Diolch i'r Aelodau am eu cydweithrediad.

The Presiding Officer: That brings today's session to an end. I thank Members for their co-operation.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.26 p.m.
The session ended at 5.26 p.m.*